RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
56/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
18/05/2023

# Adolygiad o Raglen Addysg Amgylcheddol Eco-Sgolion yng Nghymru (2018-2022)

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-80535-953-1

# Adolygiad o Raglen Addysg Amgylcheddol Eco-Sgolion yng Nghymru (2018-2022) Adroddiad Terfynol

Nick Morgan, Hannah Sterritt, Megan Byrne, Carly Wise, Jessica Mann, Susannah Lynn, Kerry KilBride

Byrne, M; Sterritt H; Kilbride, K; Mann, J; Morgan, N; Lynn, S; Wise, C. (2023). *Adolygiad o Raglen Addysg Amgylcheddol Eco-Sgolion yng Nghymru (2018-2022).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 56/2023
Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/y-rhaglen-eco-sgolion-yng-nghymru-adolygiad-ebrill-2018-i-ionawr-2022

Barn yr ymchwilwyr yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Enw: Aimee Marks

Is-adran: Tir, Natur a Choedwigaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

Rhestr tablau ..... 3
Rhestr ffigurau ..... 3
1. Cyflwyniad ..... 7
Cefndir y Prosiect ..... 7
Cefndir Rhaglen Eco-Sgolion ..... 7
Cefndir i'r rhaglen Eco-Sgolion yng Nghymru ..... 12
Strwythur y ddogfen ..... 19
2. Dull Methodolegol ..... 21
Cyfnod Cwmpasu: Dull ..... 21
Ymchwil Uniongyrchol: Dull ..... 23
Dull samplu Astudiaethau Achos ..... 24
Ymchwil a gyflawnwyd gydag ysgolion yr astudiaethau achos ..... 27
Ymchwil uniongyrchol ehangach ..... 29
Cyfyngiadau'r dull hwn ..... 32
3. Sail resymegol ac amcanion rhaglen Eco-Sgolion yng Nghymru a'i chynnydd hyd yma ..... 35
Prif nodau'r rhaglen ..... 35
Thema 1: Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ..... 37
Thema 2: Galluogi dysgwyr i ymrwymo i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r amgylchedd ..... 38
Thema 3: Cefnogi pob un o bedwar diben y Cwricwlwm newydd i Gymru ..... 39
Thema 4: Cefnogi plant a phobl ifanc wrth adeiladu sgiliau i weithredu ..... 40
Thema 5: Darparu cyfrwng i ymwreiddio blaenoriaethau perthnasol Llywodraeth Cymru ..... 40
Thema 6: Helpu mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, hyrwyddo adfer natur ac atal llygredd ..... 41
Thema 7: Helpu ysgolion i gymryd camau ymarferol ..... 42
Amcanion y cytunwyd arnynt rhwng Cadwch Gymru'n Daclus a Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 ..... 42
Adolygiad o'r broses ddyfarnu rhwng 2018-2022 ..... 50
4. Gweithredu a rheoli'r rhaglen ..... 53

Cyllid ac Adnoddau ........................................................................ 53
Rheoli a Llywodraethu ...................................................................... 56
Marchnata a Hyrwyddo ..................................................................... 57
Swyddogion Eco-Sgolion ................................................................... 59
Gweithgarwch gydag ysgolion Cynradd ac Uwchradd ........................ 61
Adnoddau ar-lein, hyfforddiant a digwyddiadau i ysgolion ................. 62
Partneriaethau ................................................................................... 67
5. Gweithredu'r rhaglen mewn ysgolion ............................................... 71
Cymhellion dros ymuno ag Eco-Sgolion ............................................. 71
Gweithgareddau a gyflawnwyd ........................................................... 75
Effaith ar adnoddau'r ysgol ................................................................ 83
Integreiddio a gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru .................. 87
Monitro a Gwerthuso cynnydd ............................................................ 93
Rhwystrau a heriau i ysgolion ............................................................ 97
6. Cymhariaeth ryngwladol o'r arferion gorau ...................................... 100
Elfen ryngwladol y rhaglen ................................................................ 100
Astudiaethau achos ........................................................................... 103
Yr Alban ............................................................................................ 103
Lloegr................................................................................................ 107
Malta.................................................................................................. 108
Gwersi a ddysgwyd o'r arferion gorau mewn lleoedd eraill ............. 111
7. Canlyniadau ac Effeithiau Eco-Sgolion yng Nghymru ..................... 114
Canlyniadau Eco-Sgolion .................................................................. 114
Asesiad o'r Effaith a'r Gwrthffeithiol ................................................ 127
Asesiad o effeithiau ........................................................................... 131
8. Casgliadau ac Argymhellion ............................................................ 133
Sail resymegol y rhaglen yng Nghymru a chysondeb â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ........................................................................... 133
Gweithredu'r rhaglen gan Cadwch Gymru'n Daclus ......................... 134
Partneriaethau gyda rhaglen Eco-Sgolion ......................................... 140
Gweithredu'r rhaglen mewn ysgolion ................................................ 141
Gwersi posibl wrth gymharu â gwledydd eraill ................................. 146
Canlyniadau ac effeithiau .................................................................. 148
Atodiad A – Meini Prawf Efydd, Arian a Baner Werdd Eco-Sgolion 151

Atodiad B – Meini Prawf Dyfarniad Platinwm Eco-Sgolion .............. 154
Atodiad C – Privacy Notice, scoping interviews .............................. 156
Atodiad D – Privacy Notice, Case Studies ...................................... 160
Atodiad E – Privacy Notice, Workshops with Children and Young People ......................................................................... 164
Atodiad F – Eco-Coordinator and teaching staff topic guide ........... 167
Atodiad G – Privacy Notice, Surveys and Workshops..................... 172
Atodiad H – Model Rhesymeg Theori Newid Eco-Sgolion .............. 176
Atodiad I - Cynnydd Eco-Sgolion yn erbyn dangosyddion allbwn 2021/22 ..................................................................... 177

**Rhestr tablau**

Tabl 1.1: Cydnawsedd rhwng polisi Llywodraeth Cymru ac Eco-Sgolion. **Error! Bookmark not defined.**
Tabl 2.1: Fframwaith samplu ar gyfer dewis ysgolion yr astudiaethau achos ......................................................... **Error! Bookmark not defined.**
Tabl 3.1: Cynnydd rhaglen Eco-Sgolion tuag at amcanion ar gyfer 2021/22, gan gynnwys ar sail metrigau targed ……………………………..…...35
Tabl 4.2: Nifer o Eco-Ysgolion Cofrestredig yn codi un lefel dyfarniad (heb gynnwys adnewyddu platinwm) 2018-22.......................................... 43
Tabl 5.1: Cysylltiadau rhwng pynciau a gweithgareddau Eco-Sgolion ymysg ysgolion a arolygwyd ………………………………………………………..78
Tabl 7.1: Dadansoddiad thematig o ymatebion i gwestiwn yr arolwg: Ygrifennwch ychydig eiriau ar sut mae rhaglen Eco-Sgolion wedi effeithio'n gadarnhaol ar ddisgyblion a / neu y gymuned ehangach ……….…………105

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 1.1: Methodoleg Saith Cam Eco-Sgolion **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 3.1: Barn ar sail resymegol rhaglen Eco-Sgolion yng Nghymru, wedi eu dosbarthu yn ôl thema ....................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 3.2: Cynnydd dyfarniadau blynyddol (2018 - 2022) .... **Error! Bookmark not defined.**3
Ffigur 5.1: Cymhellion dros ymuno â rhaglen Eco-Sgolion …………….62
Ffigur 5.2: Pynciau Eco-Sgolion wedi eu gosod yn nhrefn llwyddiant ysgol wrth eu gweithredu ……………………………………………………….……..66
Ffigur 7.1: Effaith Eco-Sgolion ar lais y dysgwr a datblygu sgiliau newydd ……………………………………………………………………..…104
Ffigur 7.2: Effaith Eco-Sgolion ar amgylchedd ffisegol yr ysgol a'r gymuned ………………………………………………………………………109
Ffigur 7.3: Effaith rhaglen Eco-Sgolion ar weithgarwch gyda rhieni a'r gymuned ehangach ………………………………………………111
Ffigur 7.4: Tebygolrwydd o gyflawni gweithgareddau tebyg pe na bai'r rhaglen yn bod …………………………………………………115

**Geirfa**

| **Talfyriad / Gair allweddol** | **Diffiniad** |
| --- | --- |
| AOLE | Meysydd Dysgu a Phrofiad |
| CfW | Cwricwlwm i Gymru |
| CiW | Eglwys yng Nghymru |
| COP26 | Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig 2021 |
| CWRE | Gyrfaoedd a phrofiadau gwaith cysylltiedig |
| CYP | Plant a Phobl Ifanc |
| Cyfnod Allweddol 2 | Cyfnod o addysg gynradd i ddysgwyr 7 i 11 oed yng Nghymru (gynt). |
| Cyfnod Allweddol 3 | Cyfnod o addysg uwchradd i ddysgwyr 11 i 14 oed yng Nghymru (gynt). |
| Eco-Bwyllgor | Grŵp o ddysgwyr sydd, gyda chymorth Cydlynydd Eco, yn gyfrifol am redeg rhaglen Eco-Sgolion yn eu hysgol. |
| Cydlynydd Eco | Aelod o staff yr ysgol sy’n hwyluso rhaglen Eco-Sgolion o fewn pob ysgol |
| Swyddog Eco-Sgolion | Aelod o staff Cadwch Gymru’n Daclus sy’n rhoi cymorth i ysgolion i’w harwain trwy broses ymgeisio a dyfarn rhaglen Eco-Sgolion. |
| Ysgol wedi ymddieithrio | Ysgol a oedd ar ryw bwynt wedi cofrestru gydag Eco-Sgolion ond sydd heb ddyfarniad/gwobr |
| ESDGC | Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang |
| ESL | Saesneg fel Ail Iaith |
| FEE | Sefydliad Addysg Amgylcheddol *(Foundation for Environmental Education)* |
| FTE | Cyfwerth ag amser llawn |
| FSM | Prydau Ysgol Am Ddim |
| IPCC | Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd |
| KBT | Keep Britain Tidy |
| KSB | Keep Scotland Beautiful |
| KWT | Cadwch Gymru’n Daclus |
| LA | Awdurdodau Lleol |
| PRU | Uned Atgyfeirio Disgyblion |
| SLT | Tîm Arweinyddiaeth Uwch |
| SSAS | Cynllun Gwobrau Ysgolion Cynaliadwy |

| | |
|---|---|
| STEM | Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg |
| ToC | Theori Newid |

# 1. Cyflwyniad

### Cefndir y Prosiect

1.1 Ym mis Ebrill 2022, comisiynwyd Miller Research ac Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i gyflawni adolygiad o raglen Addysg Eco-Sgolion (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel Eco-Sgolion) yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Ionawr 2022, i ddatblygu tystiolaeth ar gyfer ystyried dewisiadau o ran ariannu'r rhaglen yn y dyfodol.

1.2 Amcanion allweddol yr adolygiad oedd deall sut y cyflwynwyd Eco-Sgolion yng Nghymru, effaith y rhaglen ar ysgolion a dysgwyr, a sut roedd yn cefnogi polisïau allweddol Llywodraeth Cymru. Roedd iddi'r nod hefyd o ddeall sut roedd y rhaglen yn cynnig cyfle i ennyn diddordeb a chynnwys plant a phobl ifanc mewn polisïau penodol a flaenoriaethir gan Lywodraeth Cymru wrth eu datblygu yn y dyfodol.

### Cefndir Rhaglen Eco-Sgolion

1.3 Eco-Sgolion yw'r rhaglen addysg amgylcheddol ryngwladol fwyaf yn y byd, sy'n gweithredu ar draws 74 o wledydd, gan gynnwys Cymru, ac sy'n ymwneud â 59,000 o ysgolion a 19.5 miliwn o blant ledled y byd[1]. Yn rhyngwladol, mae gan Eco-Sgolion amryw o fodelau ariannu. Mewn rhai achosion, mae llywodraethau gwledydd sy'n cymryd rhan ynddi yn talu'r cyfan o gost y rhaglen, a chaiff eraill eu hariannu trwy fodel heibrid o gyllid rhannol-gyhoeddus a rhannol-breifat.

1.4 Cofrestrwyd yr ysgolion cyntaf yng Nghymru i'r rhaglen yn 1994, ac maent wedi cael eu rheoli gan Cadwch Gymru'n Daclus, elusen sydd wedi derbyn cyllid canolog i gyflwyno Eco-Sgolion gan Lywodraeth Cymru ers 2011. Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi derbyn £420,000 o gyllid i gyflwyno'r rhaglen fel rhan o'i gyllideb blynyddol tair-blynedd ar gyfer y cyfnod Ebrill 2020 hyd Fawrth 2023, cynnydd mewn cyllid o gymharu â blynyddoedd cynt. Er bod y cyllid hwn yn talu cost y rhan

[1] Eco-Sgolion Cymru: Cadwch Gymru'n Daclus

fwyaf o'r gweithgareddau, Mae Cadwch Gymru'n Daclus hefyd wedi cyfrannu cyllid ychwanegol at y rhaglen lle bo angen. Mae'r rhaglen yn rhad ac am ddim i ysgolion a gyllidir neu a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru, ond mae'n ofynnol i ysgolion annibynnol gyfrannu tuag at y cymorth a dderbyniant.

1.5 Yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r llywodraeth berthnasol yn ariannu elusen i reoli Eco-Sgolion yn eu gwlad, gyda chyllid yn amrywio yn ôl y gyllideb a ddyrennir i dalu am y gweithgarwch.

1.6 Cafodd y rhaglen ei lansio yn 1994 gan y Sefydliad Addysg Amgylcheddol (FEE), ac mae'n ymdrin â dysgu am gynaliadwyedd mewn ffordd gyfannol, gyfranogol. Mae i'r rhaglen y nod hefyd o rymuso ac ysbrydoli dysgwyr trwy astudio yn yr ystafell ddosbarth, a gweithredu gan yr ysgol a'r gymuned i godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol, hinsawdd a datblygu cynaliadwy. Trwy gymryd rhan yn Eco-Sgolion, mae pobl ifanc yn profi teimlad o gyflawni trwy fynegi eu llais ar bolisïau cymdeithasol ac economaidd eu hysgolion, gan eu llywio tuag at ardystiadau a dyfarniadau Eco-Sgolion.

1.7 Mae rhaglen Eco-Sgolion wedi ei sylfaenu ar addewid **unffurf** sy'n gyson ar draws pob gwlad sy'n cymryd rhan i gyflawni methodoleg Saith Cam, a luniwyd i alluogi ysgolion i fanteisio i'r eithaf ar y rhaglen. Mae'r dull, a amlinellir isod, yn cynnwys amrywiaeth helaeth o unigolion o gymuned yr ysgol, gyda phwyslais ar dulliau a arweinir o'r gwaelod i fyny gan ddisgyblion. Fel hyn, mae Eco-Sgolion yn ymestyn dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddsobarth ac yn datblygu agweddau dinasyddiaeth gyfrifol gartref ac yn y gymuned yn ehangach.

**Ffigur 1.1: Methodoleg Saith Cam Eco-Sgolion**




Ffynhonnell: Miller Research, addaswyd o Eco-Schools Global

1.8 Mae'r saith cam fel a ganlyn:

1. **Sefydlu Eco-Bwyllgor** i gynnwys yr ysgol gyfan, sy'n ysgogi gweithgarwch yr ysgol yn y rhaglen.
2. **Cynnal Adolygiad Amgylcheddol** lle mae'r ysgol yn archwilio ei heffaith amgylcheddol a chymdeithasol er mwyn adnabod targedau ar gyfer gweithredu a gwella.
3. Creu **Cynllun Gweithredu** lle caiff targedau penodol eu dewis o'r adolygiad.
4. Cyflawni **Monitro a Gwerthuso** er mwyn sicrhau bod cynnydd tuag at dargedau yn cael ei gofnodi, ac unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i'r cynllun gweithredu.

5. **Integreiddio'r** rhaglen â gwaith y **cwricwlwm**.
6. Hysbyu a chynnwys y **gymuned ehangach** yn y prosiect.
7. **Ffurfio Eco-Gôd** sef datganiad o ethos amgylcheddol gyfeillgar yr ysgol, a gaiff ei arddangos drwy'r holl ysgol.

1.9 Mae rhaglen Eco-Sgolion yn canolbwyntio ar sawl thema allweddol, er mwyn creu system strwythuredig i'r gwledydd a'r ysgolion sy'n cymryd rhan i ymwneud â rheolaeth amgylcheddol. Yng Nghymru, mae hyn yn cynnwys y naw maes pwnc canlynol:

- Sbwriel
- Rheoli Gwastraff
- Bioamrywiaeth
- Trafnidiaeth
- Byw yn Iach
- Ynni
- Dŵr
- Tir yr Ysgol i Bobl a Bywyd Gwyllt
- Dinasyddiaeth Fyd-eang.

1.10 Mae'r pynciau hyn yn helpu cefnogi plant a phobl ifanc i fod â chyswllt uniongyrchol â mynd i'r afael â newid hinsawdd trwy cyflawni prosiectau ymarferol yn y meysydd thematig hyn.

*Strwythur gwobrwyo ysgolion*

1.11 Mae tair lefel i gynllun dyfarnu Eco-Sgolion a gydnabyddir yn rhyngwladol, er mwyn galluogi ysgolion i gynyddu eu gweithgareddau amgylcheddol yn raddol:

- Caiff y **Wobr Efydd** ei hunan-asesu ac mae'n canolbwyntio ar sefydlu'r broses Eco-Sgolion mewn ysgol, fel bod popeth yn ei le ar gyfer cyflawni'r eco-waith maent wedi ei gynllunio.

- Caiff y **Wobr Arian** ei hunan-asesu ac mae'n adeiladu ar y broses Eco-Sgolion a sefydlwyd yn y Wobr Efydd. Ar y cam hwn, rhaid i ysgolion gychwyn dangos eu cynnydd tuag at drydydd lefel y dyfarnu, sef y Faner Werdd.
- Unwaith mae ysgol wedi rhoi'r broses Eco-Sgolion ar waith a chasglu tystiolaeth o'u cynnydd, gallant ymgeisio am y **Faner Werdd**: Gwobr Eco-Sgolion a gaiff ei asesu'n allanol a'i achredu'n rhyngwladol. Er mwyn cadw statws Baner Werdd, mae'n ofynnol i ysgolion adnewyddu eu dyfarniad bob dwy flynedd, trwy gyflawni asesiad o'u cynnydd gyda Swyddog Eco-Sgolion penodol o fewn Cadwch Gymru'n Daclus.

1.12 Mae gan bod lefel dyfarnu faen prawf asesu cysylltiedig[2] i helpu ysgolion i fesur eu cynnydd. Mae'r meini prawf yn cyfateb â'r Saith Cam (gweler 1.8) sy'n ffurfio sail y rhaglen. Rhaid i ysgolion ddangos eu bod wedi ystyried, cynllunio a thrafod y meysydd hwn ar y lefel Efydd, a'r gweithredu a'u hymrwymiad cynyddol i'r meysydd hyn ar y lefel Arian. Pan gyrhaeddir cam y Faner Werdd, dylai ysgolion ddagnos bod rhannau craidd y rhaglen (pynciau Eco-Sgolion, y Cod Eco etc.) wedi eu integreiddio'n llawn drwy'r holl ysgol, a bod agweddau o'r broses yn cael eu cyflawni fel rhan o waith y cwricwlwm.

1.13 Yng Nghymru, cafodd **Gwobr Platinwm** ei chyflwyno gan Cadwch Gymru'n Daclus yn 2012 i wobrwyo ysgolion am eu hymrwymiad hirdymor i'r rhaglen. Mae ysgolion sydd wedi ymwneud â'r rhaglen yn ddi-dor am naw mlynedd, neu sydd wedi ennill y Faner Werdd dair gwaith, yn dod yn gymwys i ymgeisio am wobr Platinwm. Cafodd meini prawf penodol hefyd eu mabwysiadu i gydnabod statws symbolaidd Platinwm, er mwyn cefnogi arferion cyson ac adnabod yr arferion gorau o'r ysgolion hynny[3].

[2] Gweler Atodiad **A** ar gyfer meini prawf Gwobrau Efydd, Arian a Baner Werdd Eco-Sgolion
[3] Gweler Atodiad **B** am feini prawf Gwobr Platinwm Eco-Sgolion

## Cefndir i'r rhaglen Eco-Sgolion yng Nghymru

1.14 Erbyn 2022, roedd y rhaglen yn cynnwys dros 90 y cant o ysgolion yng Nghymru, gan gynrychioli 460,000 o ddysgwyr: un o'r cyfraddau cyfranogi uchaf yn y byd. Mae ysgolion sy'n cymryd rhan yn rhaglen Eco-Sgolion ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac yn cynnwys amrywiaeth helaeth o ysgolion babanod, cynradd, uwchradd ac arbennig.

1.15 Ym mis Ebrill 2022, roedd cyfanswm o 1,174 o ysgolion yng Nghymru gyda gwobr Eco-Sgolion. O'r ysgolion hyn, roedd gan 810 o ysgolion achrediad Baner Werdd, gyda 422 o'r rhain wedi cyrraedd statws Platinwm yn ogystal. Ar yr un pryd, roedd gan 364 o ysgolion eraill wobr efydd a/neu arian, yn gweithio'u ffordd tuag at y Faner Werdd, a 320 oedd wedi cofrestru'n unig gyda'r rhaglen[4].

1.16 Mae gan bob ysgol Cydlynydd Eco yr un, sy'n aelod o staff yr ysgol yn hwyluso rhaglen Eco-Sgolion o fewn eu hysgol. Mae ysgolion yn derbyn cymorth hefyd gan un o Swyddogion Eco-Sgolion penodol Cadwch Gymru'n Daclus, sy'n eu harwain drwy'r rhaglen, a'r broses ymgeisio a dyfarnu.

*Cyd-destun strategol a deddfwriaethol*

1.17 Mae nodau ac amcanion rhaglen Eco-Sgolion yng Nghymru yn gyson â nifer o feysydd polisi allweddol Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau sydd wedi eu targedu tuag at leihau effeithiau newid hinsawdd, gwarchod yr amgylchedd naturiol a hyrwyddo llesiant trwy gydweithio cadarnhaol â chymunedau a'r byd o'n cwmpas.

1.18 Mae'r rhaglen yn gwneud cyfraniad cryf at weithredu meysydd o flaenoriaethau datblygu cynaliadwy, amgylcheddol ac addysgol Llywodraeth Cymru, ac uchelgeisiau ehangach i ddatblygu dinasyddion gwybodus sydd wedi eu grymuso. Hyn sy'n ffurfio'r brif sail resymegol dros barhau cefnogaeth i Eco-Sgolion dros y

[4] Data monitro Eco-Sgolion

blynyddoedd. Yn benodol, mae mewn sefyllfa gref i helpu pobl ifanc i wneud cysylltiadau uniongyrchol rhwng eu dysgu ac uchelgeisiau amryw o bolisïau, strategaethau a deddfwriaethau penodol, a amlinellir yn y tabl isod.

**Tabl 1.1: Cydnawsedd rhwng polisi Llywodraeth Cymru ac Eco-Sgolion**

| Polisi / Deddfwriaeth | Cydnawsedd ag Eco-Sgolion |
|---|---|
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin ac iddo rwymedigaeth gyfreithiol – y saith nod llesiant – i gyrff cyhoeddus ymrwymo i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a gwella llesiant Cymru.<br><br>Yn y Ddeddf, caiff 'datblygu cynaliadwy' ei ddiffinio fel *"y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, at gyflawni'r nodau llesiant."* Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi **egwyddor datblygu cynaliadwy** ar waith sy'n golygu bod yn rhai i unrhyw gorff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth yn unol â hyn, weithredu mewn modd sy'n ceisio diwallu anghenion y presennol heb gyfyngu ar allu cenedlaethau'r dyfodol ddiwallu eu hanghenon hwy.<br><br>Mae fframwaith Eco-Sgolion yn darparu'r strwythur delfrydol i gefnogi gweithgareddau cynaliadwy o fewn ysgolion ac mae'n gyffredinol gyson â phob un o'r saith nod Llesiant. Yn neilltuol o berthnasol i nodau ac amcanion y rhaglen mae'r nodau canlynol:<br><br>• 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' – lle'r ydym yn gofalu am yr amgylchedd ac yn meddwl am bobl eraill ledled y byd. |

| | |
|---|---|
| | • 'Cymru gydnerth' – sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol.<br>• 'Cymru iachach' – lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl.<br>• 'Cymru lewyrchus' – cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd ac sy'n defnyddio adnoddau yn effeithlon.<br><br>Mae'r rhaglen yn chwarae rhan allweddol mewn datblygu sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang ymysg plant a phobl ifanc (trwy, er enghraifft, wirfoddoli ac ymwneud â'u cymuned a busnesau lleol), gan hefyd sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn eco-lythrennog – yn deall cydbwysedd systemau naturiol ac yn lleihau effaith newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.<br><br>**Pynciau perthnasol Rhaglen Eco-Sgolion**: Bioamrywiaeth, Byw Iach, Dinasyddiaeth Fyd-eang. |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cynnwys ymrwymiad i reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, targedau statudol ar gyfer newid hinsawdd a dyletswydd bioamrywiol wedi eu gosod yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Mae gweithgarwch Eco-Sgolion yn cefnogi'n uniongyrchol ac yn dylanwadu ar gynnydd tuag at gyflawni nodau'r ddeddfwriaeth. Caiff ysgolion a'u dysgwyr eu grymuso i weithredu'n gadarnhaol ar fynd i'r afael â newid hinsawdd, creu amgylchedd ysgol glanach a lleihau ôl troed carbon personol ac ysgolion. Wrth wneud hynny, maent yn gallu cyfrannu at dargedau Llywodraeth Cymru o Gymru Sero Net erbyn 2050.<br><br>**Pynciau perthnasol yn rhaglen Eco-Sgolion:** Sbwriel, Trafnidiaeth, Bioamrywiaeth, Tir yr Ysgol, Ynni, Dŵr. |

| | |
|---|---|
| Tuag at Ddyfodol Diwastraff | Tuag at Ddyfodol Diwastraff yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff hirdymor.<br><br>Mae lleihau gwastraff a mynd i'r afael â sbwriel yn bynciau allweddol i Eco-Sgolion. Mae hyn yn cynnwys ystyried gwrthod, lleihau, ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu deunydd gwastraff ac adnoddau. Trwy gymryd rhan yn y rhaglen, mae ysgolion yn cael y cyfle i gynhyrchu Cynllun Gweithredu hirdymor ar wastraff i'w hysgol i fynd i'r afael â ffrydiau gwastraff allweddol a chynyddu effeithlonrwydd adnoddau, gan gydweddu'n uniongyrchol â phrif nodau'r strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff.<br><br>**Pynciau perthnasol rhaglen Eco-Sgolion:** Sbwriel, Rheoli Gwastraff, Ynni, Dŵr. |
| Mwy nag Ailgylchu | Mwy nag Ailgylchu yw cynllun Llywodraeth Cymru i bontio i economi gylchol yng Nghymru. Mae'n cynnwys ymrwymiad i alluogi cymunedau a phobl ifanc i weithredu ar y cyd ar yr economi gylchol, wrth ddefnyddio cynhyrchion effeithlon o ran adnoddau a lleihau gwastraff.<br><br>Mae rhaglen Eco-Sgolion yn cefnogi uchelgeisiau economi gylchol Llywodraeth Cymru trwy helpu creu dinasyddion ymwybodol a gwybodus sy'n helpu eu cymunedau i gyfrannu tuag at ganlyniadau ehangach a lleihau allyriadau. Mae llawer o ysgolion eisoes yn cymryd rhan yn y gwaith hwn trwy weithredu i leihau eu gwastraff (megis cinio ysgol di-blastig, troi gwastraff bwyd yn gompost a chynnal dyddiau cyfnewid gwisgoedd ysgol), creu partneriaethau gyda busnesau i wella eu cymuned leol a chanfod dibenion newydd i ddeunyddiau.<br><br>**Pynciau perthnasol rhaglen Eco-Sgolion:** Sbwriel, Rheoli Gwastraff, Dinasyddiaeth Fyd-eang. |

| | |
|---|---|
| Strategaeth Tlodi Plant Cymru | Mae'r strategaeth hon yn gosod y weledigaeth a'r amcanion strategol ar gyfer lleihau tlodi plant yng Nghymru a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn byw bywydau hapus, iach sy'n llawn o gyfleoedd.<br><br>Mae rhaglen Eco-Sgolion yn cynnig llwyfan i ysgolion gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cyfoethogi ac a all gefnogi eu llesiant corfforol a meddyliol cyffredinol. Mae ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn cael cyfle i ganolbwyntio ar weithgareddau dinasyddiaeth fyd-eang: chwarae rhan weithgar yn eu cymunedau a gwneud y blaned yn fwy heddychlon, cynaliadwy a theg.<br><br>**Pwnc perthnasol rhaglen Eco-Sgolion:** Dinasyddiaeth Fyd-eang. |
| Strategaeth Fwyd Cymru | Mae Strategaeth Fwyd Cymru yn pennu'r cyfeiriad cyffredinol ar gyfer y blynyddoedd 2010-2020 ar greu system fwyd fwy cydnerth a chynaliadwy yng Nghymru. Mae'n cynnwys lle i addysg bwyd, ar sail dull ysgol-gyfan. Mae llawer o Eco-Sgolion eisoes yn cyflawni gweithgareddau sy'n cysylltu â mentrau bwyd lleol (gan gynnwys tyfu cymunedol, creu banciau hadau a rhannu gwastraff bwyd). Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2021 i 2026 yn ymrwymo i ddatblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol, i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnig cyfle y gellir ei ddefnyddio gan Eco-Sgolion i hyrwyddo ymwneud mwy o mentrau bwyd cymunedol.<br><br>**Pwnc perthnasol rhaglen Eco-Sgolion:** Byw yn Iach. |
| Coetiroedd i Gymru | Mae Coetiroedd i Gymru yn gosod uchelgeisiau i Lywodraeth Cymru i greu coetiroedd cydnerth ac iach o ansawdd uchel ledled Cymru, a all gynnig manteision cymdeithasol a chymunedol. |

| | |
|---|---|
| | Mae rhaglen Eco-Sgolion yn darparu fframwaith y gall dysgwyr a'r gymuned ehangach gefnogi uchelgeisiau'r strategaeth hon drwyddo. Mae Eco-Sgolion yn cefnogi rhaglen *Fy Nghoeden, Ein Coedwig* Llywodraeth Cymru, sydd, mewn partneriaeth â Coed Cadw, yn cynnig cyfle i ysgolion gael coetir bach wedi ei blannu ar dir eu hysgol.<br><br>**Pynciau perthnasol rhaglen Eco-Sgolion:** Bioamrywiaeth, Tir Ysgol ar gyfer pobl a bywyd gwyllt |
| Cynllun Plant a Phobl Ifanc | Cyhoeddwyd y Cynllun Plant a Phobl Ifanc ym mis Mawrth 2022 ac mae'n dangos sut mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cefnogi plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny, byw a gweithio yng Nghymru yn 2022-23.<br><br>Mae Eco-Sgolion yn gydnaws â nifer o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i bobl ifanc o fewn y cynllun ar ymdrin â'r argyfyngau hinsawdd a byd natur, gan gynnwys:<br>• Gwahardd plastigau untro<br>• Gwrthwynebu echdynnu tanwydd ffosil yng Nghymru<br>• Gweithredu'r cynllun Rhwydweithiau Natur<br>• Hyrwyddo teithio llesol a diogelwch ffyrdd<br>• Lleihau cost trafnidiaeth gyhoeddus i bobl ifanc 16-21 oed.<br><br>**Pynciau perthnasol rhaglen Eco-Sgolion:** Rheoli Gwastraff, Bioamrywiaeth, Sbwriel, Ynni |
| Hawliau'r Plentyn (UNCRC) | Cytundeb rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) sy'n amddiffyn hawliau dynol plant hyd at 18 oed, trwy roi hawliau iddynt i'w hamddiffyn rhag niwed gan gymdeithas.<br><br>Yn 2011, fe wnaeth Llywodraeth Cymru y Confensiwn yn gyfraith yng Nghymru, gan olygu bod dyletswydd gan Weinidogion |

| | |
|---|---|
| | Cymru i ystyried y Confensiwn wrth weithredu eu swyddogaethau.<br><br>Mae cyfanswm o 54 o erthyglau yn y confensiwn, gydag amryw ohonynt yn neilltuol o berthnasol i nodau ac amcanion rhaglen Eco-Sgolion:<br><br>• **Erthygl 12**: Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn beth ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.<br>• **Erthygl 29**: Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn i'r eithaf. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd.<br>• **Erthygl 31**: Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac ymuno mewn amrywiaeth helaeth o weithgareddau.<br><br>Trwy gefnogi rhaglen Eco-Sgolion a chydweithio'n agos â Cadwch Gymru'n Daclus, gall Llywodraeth Cymru ymwneud â phlant a phobl ifanc o ran ymddygiadau cynaliadwy a blaenoriaethau adnoddau naturiol a'u cynnwys hwy wrth ddatblygu ei pholisïau a phenderfyniadau amgylcheddol a newid hinsawdd.<br><br>**Pynciau perthnasol rhaglen Eco-Sgolion:** Bioamrywiaeth, Dinasyddiaeth Fyd-eang, Byw yn Iach. |

Ffynhonnell: Adolygiad desg Eco-Sgolion o ddogfennaeth polisi

1.19 Mae'n bosibl mai un o'r fframweithiau mwyaf perthnasol sydd o hanfod yn gydnaws ag Eco-Sgolion yw'r Cwrciwlwm newydd i Gymru (3-16 oed). Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn symud oddi wrth gwricwlwm cenedlaethol cymharol gaeth a seiliedig ar gynnwys at fframwaith eang seiliedig ar ddiben, y gall ysgolion lunio eu cwricwlwm eu hunain o'i fewn. Fel rhan o hyn, un o bedwar diben cwricwlwm pob ysgol fydd cefnogi plant a phobl ifanc i ddod yn ddinasyddion moesegol-wybodus o Gymru a'r byd. Mae'r prif ddiben hwn yn neilltuol o berthnasol i

nodau rhaglen Eco-Sgolion, wrth helpu dysgwyr archwilio eu diddordeb naturiol yn y byd o'u cwmpas a'r heriau a wynebir yn fyd-eang. Egwyddor sylfaenol rhaglen Eco-Sgolion yw dull a arweinir gan ddisgyblion o'r gwaelod i fyny i gynyddu ymrwymiad disgyblion i wella effaith amgylcheddol a chymdeithasol eu hysgol. Mae'r egwyddor hon yn cydweddu â'r rhyddid mae'r cwricwlwm newydd yn ei gynnig wrth ganiatáu dysgwyr i lywio eu cyfeiriad dysgu a'r themâu a'r materion yr ymdrinir â hwy.

1.20 Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfle i raglen Eco-Sgolion gael ei integreiddio ar draws dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae llawer o ysgolion yng Nghymru eisoes yn ystyried sut i gysoni eu gweithgareddau Eco-Sgolion â chanlyniadau'r Cwricwlwm i Gymru. Cynhwysir enghreifftiau o'r gweithgarwch hwn yn Adran 5 o'r adroddiad hwn.

### Strwythur y ddogfen

1.21 Mae gweddill adrannau'r adroddiad hwn wedi eu strwythuro fel a ganlyn, gydag:

- **Adran 2** yn amlinellu'r dull a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gasglu a dadansoddi'r wybodaeth ar gyfer yr adolygiad hwn.
- **Adran 3** yn disgrifio'r sail resymegol dros Eco-Sgolion yng Nghymru, o safbwyntiau Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus a phartneriaid ehangach ac yn adolygu cynnydd tuag at amcanion a thargedau Eco-Sgolion.
- **Adran 4** yn cynnig asesiad o'r ffordd y cafodd y rhaglen ei gweithredu a'i rheoli gan Cadwch Gymru'n Daclus dros y cyfnod 2018 i 2022.
- **Adran 5** yn rhoi adborth gan ysgolion ar sut y cafodd y rhaglen ei gweithredu yng Nghymru dros y cyfnod dan sylw yn yr adolygiad hwn. Mae hyn yn cynnwys effaith y rhaglen ar adnoddau ysgolion, gweithgareddau a gyflawnwyd gan ysgolion ac unrhyw rwystrau a/neu heriau a brofwyd.

- **Adran 6** yn cynnwys astudiaethau achos o’r arferion gorau i weithredu rhaglen Eco-Sgolion mewn gwledydd eraill.
- **Adran 7** yn cyflwynom adborth gan randdeiliaid ar ganlyniadau ac effaith y rhaglen ar ysgolion, dysgwyr a’r gymuned ehangach.
- **Adran 8** yn amlinellu casgliadau ac argymhellion yr adolygiad o Eco-Sgolion yng Nghymru (2018-2022).

## 2. Dull Methodolegol

2.1 Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd dros ddau gyfnod ymchwil, trwy gyfuniad o gyfweliadau ansoddol, gweithdai, arolwg ar-lein ac ymchwil desg.

2.2 Roedd cyfnod cyntaf yr ymchwil yn cynnwys ymarferiad cwmpasu trylwyr i ddeall cyd-destun y rhaglen yn llawn, datblygu Model Rhesymeg Theori Newid (ToC)[5] a chynhyrchu deunyddiau ymchwil. Roedd ail gyfnod yr adolygiad yn cynnwys ymchwil uniongyrchol eang gydag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid a lleoliadau ysgol, er mwyn deall sut roedd y rhaglen yn gweithio a'r effeithiau roedd yn eu creu. Cyflwynir canfyddiadau a chasgliadau'r ddau gam yn yr adrannau sy'n weddill o'r adroddiad hwn.

2.3 Caiff amlinelliad manwl o'r dulliau methodolegol a samplu a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adolygiad ei ddisgrifio yng ngweddill yr adran hon.

### Cyfnod Cwmpasu: Dull

*Ymchwil desg: Dogfennau polisi a data monitro*

2.4 Cyflawnwyd adolygiad desg fel sail ar gyfer dealltwriaeth gychwynnol o gwmpas y rhaglen yng Nghymru a chynnydd Cadwch Gymru'n Daclus wrth reoli Eco-Sgolion hyd yma, a pharatoi gwybodaeth i sefydlu Theori Newid a'r dulliau samplu.

2.5 Bu'r tîm gwerthuso'n adolygu strategaeth genedlaethol, polisi a dogfennau cynllunio Llywodraeth Cymru i asesu'r graddau roedd gweithgareddau Eco-Sgolion yn gydnaws â pholisi a strategaeth allweddol Llywodraeth Cymru. Cafodd data monitro, gan gynnwys adroddiadau cynnydd chwarterol y prosiect[6] a rannwyd gyda Llywodraeth Cymru hefyd eu hadolygu, law yn llaw ag astudiaethau

[5] Gweler Atodiad H.
[6] Roedd y rhain yn cynnwys trosolwg o uchafbwyntiau o'r chwarter blaenorol a chynnydd tuag at dargedau'r rhaglen.

achos a chylchlythyrau newyddion a gynhyrchwyd gan dîm Eco-Sgolion yn Cadwch Gymru'n Daclus. Ar y cam hwn o'r adolygiad, bu'r tîm hefyd yn edrych ar ddogfennaeth FEE, er mwyn datblygu dealltwriaeth o nodau ehangach a chynllun y rhaglen yn rhyngwladol.

*Cyfweliadau cwmpasu*

2.6 Cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu gyda chyfanswm o 16 o gynrychiolwyr o'r tîm Eco-Sgolion ac o Lywodraeth Cymru. Roedd y cyfweliadau hyn yn canolbwyntio ar sail resymegol rhaglen Eco-Sgolion, y ffordd y cafodd y rhaglen ei chynllunio a'i gweithredu, ei heffeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, ei chydlyniaeth â nodau polisi ehangach a'i pherthnasedd ag amcanion Llywodraeth Cymru. Cynigiwyd pobl berthnasol i'w cyfweld gan Lywodraeth Cymru a Cadwch Gymru'n Daclus a oedd yn cynnwys swyddogion polisi a staff Eco-Ysgolion. Rhannwyd hysbysiadau preifatrwydd gyda'r rhai i'w holi cyn cynnal y cyfweliadau cwmpasu[7].

2.7 Cafodd pob cyfweliad ond dau eu cynnal mewn sesiynau grŵp, rhithiol, yn cynnwys rhwng dau a phedwar rhanddeiliad. Cafodd un o'r sesiynau hyn eu hwyluso yn y Gymraeg. Defnyddiwyd yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod y trafodaethau hyn i lywio a dylanwadu ar y model rhesymeg Theori Newid a chynllun y fframwaith gwerthuso.

*Datblygu deunyddiau ymchwil*

2.8 Gan ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd trwy'r gweithgareddau cwmpasu, cafodd y theori a'r tybiaethau sy'n sail i raglen Eco-Sgolion yng Nghymru eu casglu ynghyd i ffurf model rhesymeg. Rhannwyd y model rhesymeg gyda Llywodraeth Cymru a thîm Cadwch Gymru'n Daclus, ar gyfer adborth.

2.9 Datblygwyd fframwaith gwerthuso, a oedd yn nodi canllawiau cynhwysfawr ar gyfer monitro a gwerthuso rhaglen Eco-Sgolion.

[7] Gweler Atodiad C am gopi o'r hysbysiad preifatrwydd ar gyfer cyfweliadau cwmpasu.

Cafodd prif nodau'r rhaglen eu cynnwys yn y **fframwaith gwerthuso**, a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys drwy'r holl weithgareddau ymchwil uniongyrchol.

2.10 Cafodd y fframwaith gwerthuso ei gynllunio trwy fapio'r model rhesymeg a diwygiedig a ddiweddarwyd ochr yn ochr â'r nodau a osodwyd ar gyfer yr adolygiad, a roddodd arweiniad wedyn wrth greu cwestiynau ymchwil. Roedd y rhain yn adeiladu ar feysydd y cwestiynau a gynigiwyd ym manyleb yr ymchwil ac a fyddai'n cael eu hateb trwy weithgareddau gwaith maes.

2.11 Ar gyfer pob maes cwestiwn, roedd y fframwaith yn nodi'r math o ddata oedd ei angen i ateb y cwestiwn, ffynhonnell debygol y data (sef, math o randdeiliad neu ddogfennau monitro'r rhaglen) a'r cwestynau manwl oedd eu hangen i gyrchu'r data. Mae hwn yn ddull effeithiol er mwyn sicrhau bod pob cwestiwn ymchwil yn cael sylw, ac nad oes dim 'bylchau' yn y data a gasglwyd.

2.12 Yn dilyn y gweithgareddau hyn, trawsnewidiodd y tîm gwerthuso y cwestiynau a osodwyd yn y fframwaith yn ddeunyddiau ymchwil a gwerthuso allweddol ar gyfer yr ymchwil uniongyrchol, megis canllawiau pwnc ar gyfer ymchwiliadau'r astudiaethau achos, cyfweliadau a gweithdai yn ogystal â holiadur ar-lein yr arolwg.

### Ymchwil Uniongyrchol: Dull

2.13 Ar gyfer cyfnod dau yr adolygiad, cyflawnodd y tîm gwerthuso ymchwil uniongyrchol ansoddol a meintiol gydag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, rhieni, staff addysgu a staff eraill, Cydlynwyr Eco, cynrychiolwyr awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach[8], er mwyn deall sut oedd y rhaglen yn gweithio a'i heffaith.

2.14 Roedd y dull hwn yn cynnwys gweithio gyda nifer bach o ysgolion astudiaethau achos, wedi eu dosbarthu ar draws y pum Consortiwm Addysg Rhanbarthol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y Consortia).

[8] Gan gynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol: Yr Eglwys yng Nghymru, Ysgolion Iach, Plantlife, Cadwch Gymru'n Daclus, Dwr Cymru a Maint Cymru.

Cafodd ysgolion astudiaethau achos eu hymchwilio'r drylwyr er mwyn caffael data ansoddol cyfoethog a dangos mewn dyfnder sut y caiff Eco-Sgolion ei gweithredu a'i heffaith ar ddysgwyr ac ar bob ysgol.

**Dull samplu Astudiaethau Achos**

2.15 Cafodd deg o ysgolion astudiaethau achos eu dewis trwy ddefnyddio dull samplu pwrpasol.

2.16 Cafodd fframwaith samplu cychwynnol ei sefydlu ar gyfer dewis yr ysgolion, ar sail (i) lleoliad daearyddol ar draws y Consortia[9]; (ii) iaith y lleoliad (Saesneg a/neu Gymraeg); a'r (iii) cyfran o ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim[10]. Roedd newidynnau ychwanegol a ddefnyddiwyd yn y fframwaith samplu yn cynnwys:

- Pwysoli ysgolion Cynradd / Uwchradd
- Lefel dyfarniad Eco-Sgolion
- Llywodraethiant (crefyddol / anghrefyddol)
- Nodweddion eraill (nifer uchel ag ieithoedd heblaw'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith gyntaf)
- Maint yr ysgol (ar sail y nifer o ddysgwyr)[11]
- Ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

2.17 Roedd y sampl i gyd yn cynnwys saith ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd, gyda dwy ysgol wedi eu dewis ym mhob un o'r Consortia (Tabl 2.1 isod). O'r saith ysgol gynradd a ddewiswyd, roedd pedair yn ysgolion cyfrwng Saesneg, gyda'r tair arall yn gweithredu'n ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd pedair o'r saith

---

[9] Mae rhanbarthau o fewn y Consortia yn cynnwys Canolbarth y De (Pen-y-bont, Caerdydd Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwch), EAS (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Torfaen), ERW (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Abertawe a Castell-nedd Port Talbot), GWE (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, a Wrecsam) a Phartneriaeth Addysg y Canolbarth (Ceredigion a Powys).

[10] Trothwy prydau ysgol am ddim: Canolig-Uchel = >20%, Isel = <20%. Yn unol â data Llywodraeth Cymru sy'n rhoi cyfartaledd prydau ysgol am ddim ar 20.9 % (ar gyfer pob oedran). Canlyniadau cyfrifiad ysgolion: Ebrill 2021 | LLYW.CYMRU

[11] Ar sail data ar gyfer disgyblion yn ôl ysgol a math (2022), cafodd y sampl o ysgolion astudiaethau achos eu categoreiddio yn ôl maint yn ôl nifer y dysgwyr ym mhob ysgol. Cafodd ysgolion gyda llai na 200 o ddysgwyr eu categoreiddio fel ysgol 'fach'. Cafodd ysgolion sydd â rhwng 201 a 499 o ddysgwyr eu categoreiddio fel ysgol 'ganolig' ei maint. Cafodd ysgolion sydd â 500+ o ddysgwyr eu categoreiddio fel ysgolion 'mawr'.

ysgol gynradd wedi eu categoreiddio fel ysgolion bach, gyda'r tair ysgol gynradd arall wedi categoreiddio fel rhai canolig eu maint. Roedd y tair ysgol uwchradd a ddewiswyd yn cynnwys un ysgol Gymraeg ac un ddi-Gymraeg. Roedd y tair ysgol uwchradd wedi eu categoreiddio fel rhai mawr eu maint.

2.18 Roedd wyth allan o'r deg ysgol wedi ennill statws Platinwm, gydag un o'r ddwy ysgol arall wedi ennill un Faner Werdd a'r llall wedi ennill tair Baner Werdd. Roedd dwy ysgol yn y sampl (un ysgol gynradd ac un uwchradd) yn ysgolion ffydd a'r wyth arall heb fod yn ysgolion ffydd. Ni chynhwyswyd dim ysgolion arbennig nac unedau cyfeirio disgyblion yn y sampl o ddeg ysgol astudiaethau achos ond cysylltwyd â hwy trwy'r arolwg ar-lein (gweler 2.36).

2.19 Roedd y sampl yn cynnwys nifer uwch o ysgolion cynradd i adlewyrchu'r gyfran sylweddol uwch o ysgolion cynradd nag o ysgolion uwchradd yng Nghymru.

2.20 Y sail resymegol dros gynnwys cymysgedd o statws uchel ac isel o ran prydau ysgol am ddim yn y sampl oedd sicrhau bod yr adolygiad yn dangos tystiolaeth o Eco-Sgolion ar waith mewn ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd uwch ac is.

**Tabl 2.1: Fframwaith samplu ar gyfer dewis ysgolion astudiaethau achos**

| Rhanbarth | Cyfrwng Saesneg | | Cyfrwng Cymraeg/Dwyieithog | | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Uwchradd | Cynradd | Uwchradd | Cynradd | |
| **Canolbarth y De** | | | | | 0 |
| Cyfradd uchel prydau ysgol am ddim | | 1 | | 1 | 2 |
| Cyfradd isel prydau ysgol am ddim | | | | | 0 |
| | | | | | 0 |
| **Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS)** | | | | | 0 |
| Cyfradd uchel prydau ysgol am ddim | | | | | 0 |
| Cyfradd isel prydau ysgol am ddim | 1 | 1 | | | 2 |
| | | | | | 0 |
| **ERW (i gynnwys Castell-nedd Port Talbot)** | | | | | 0 |
| Cyfradd uchel prydau ysgol am ddim | | | | | 0 |
| Cyfradd isel prydau ysgol am ddim | | 1 | | 1 | 2 |
| | | | | | 0 |
| **GwE** | | | | | 0 |
| Cyfradd uchel prydau ysgol am ddim | | 1 | | | 1 |
| Cyfradd isel prydau ysgol am ddim | | | 1 | | 1 |
| | | | | | 0 |
| **Partneriaeth Addysg y Canolbarth** | | | | | 0 |
| Cyfradd uchel prydau ysgol am ddim | | | | | 0 |
| Cyfradd isel prydau ysgol am ddim | 1 | | | 1 | 2 |
| | | | | | 0 |
| **Cyfansymiau** | **2** | **4** | **1** | **3** | **10** |
| Cyfradd uchel prydau ysgol am ddim | 0 | 2 | 0 | 1 | **3** |
| Cyfradd isel prydau ysgol am ddim | 2 | 2 | 1 | 2 | **7** |

**Ffynhonnell:** Miller Research

2.21 Roedd cyfyngiadu posibl i'r dull samplu hwn. Dewisodd y tîm gwerthuso gydbwysedd gwreiddiol o ysgolion (Chwe ysgol platinwm, tair Baner Werdd 1-3 ac un Arian), i adlewyrchu dosbarthiad Eco-ysgolion yng Nghymru, fel roedd yn y flwyddyn 2022. Roedd mwyafrif yr ysgolion a gofrestrwyd i'r rhaglen â dyfarniad Platinwm (421), gyda'r gweddill o ysgolion yn symud ymlaen drwodd i'w Baner Werdd gyntaf a'u trydedd Baner Werdd (390)[12]. Fodd bynnag, yn sgil amserau'r adolygiad, roedd recriwtio yn anodd gan fod llawer o ysgolion yn amharod i gymryd rhan yn yr ymchwil ar ddiwedd tymor yr haf. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r tîm gysylltu ag ail ysgol ac mewn rhai achosion, drydedd ysgol, 'wrth gefn' i fod yn gyson â nodweddion y sampl gwreiddiol. Er hynny, er nad oedd y tîm wedi gallu cysylltu ag ysgol Arian, roedd y sampl terfynol o ysgolion yn adlewyrchu'r strwythur samplu a ddatblygwyd ar y cychwyn ar gyfer pob un o'r nodweddion eraill.

2.22 Dosbarthwyd gwahoddiad dwyieithog i gymryd rhan fel ysgol astudiaeth achos i'r ysgolion a ddewiswyd trwy Cadwch Gymru'n

[12] Data monitro Eco-Sgolion – Ebrill 2022

Daclus. Unwaith roedd ysgolion wedi cytuno i gymryd rhan, rhannwyd manylion gyda'r tîm gwerthuso a hwylusodd gyfarfod rhagarweiniol i drafod y broses gwaith maes. Dangoswyd i bob ysgol astudiaeth achos hefyd sut y byddai eu data personol yn cael ei brosesu a'i storio trwy hysbysiadau preifatrwydd GDPR y Deyrnas Unedig[13].

2.23 Roedd y dull o gyflawni'r ymchwiliadau astudiaethau achos yn cynnwys nifer o gyfweliadau (a drafodir isod) a gynhaliwyd gydag amryw randdeiliaid o'r un ysgol, er mwyn datblygu darlun manylach a oedd yn adlewyrchu sut roedd y rhaglen yn gweithio'n ymarferol.

2.24 Anogwyd ysgolion yr astudiaethau achosi i rannu enghreifftiau o'r gwaith a'r gweithgareddau a gyflawnwyd fel rhan o ymwneud â rhaglen Eco-Sgolion, i alluogi'r tîm adolygu i gyflawni dadansoddiad atodol o themâu allweddol a meysydd o ddiddordeb. Cafodd y dull astudiaethau achos ei gynllunio fel y byddai'n rhoi dealltwriaeth gynhwysfawr o 'daith defnyddwyr' yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen ac yn gweithio tuag at wobr.

**Ymchwil a gyflawnwyd gydag ysgolion yr astudiaethau achos**

*Gweithdai grŵp gyda dysgwyr ysgol gynradd*

2.25 Cynhaliwyd gweithdai gyda dysgwyr ysgol gynradd o Eco-Bwyllgorau ysgolion unigol yr astudiaethau achos, er mwyn archwilio sut yr effeithiodd y rhaglen ar eu profiad addysgol, a'u hymwybyddiaeth gyffredinol o faterion cymdeithasol ac amgylcheddol.

2.26 Siaradodd y tîm gyda dysgwyr o bump o'r saith ysgol gynradd a oedd yn rhan o'r adolygiad. Cafodd pob un ond un o'r gweithdai hyn eu cyflwyno o bell, wedi eu hwyluso mewn lleoliad grŵp bach gyda rhwng tri a deg o ddysgwyr a'u Cydlynydd Eco a/neu gynorthwyydd addysgu. Cafodd trafodaethau'r gweithdai eu llywio gan ganllawiau pwnc a gafodd eu lunio o amgylch cwestiynau ymchwil a gynhwyswyd yn y fframwaith gwerthuso (gweler adran 2.8 - 2.10). Roedd pawb a oedd yn cymryd rhan yn y gweithdai yn cael cynnig y dewis i gynnal y

[13] Gweler Atodiad D ac E

sesiwn yn y Gymraeg neu'r Saesneg – cynhaliwyd pedwar yn Saesneg a chafodd un ei hwyluso drwy gyfrwng y Gymraeg.

*Gweithdai grŵp gyda dysgwyr ysgol uwchradd*

2.27 Cynhaliwyd gweithdy rhithiol gyda dysgwyr ysgol uwchradd (cymysg Blynyddoedd 7-11) o Eco-Bwyllgor un ysgol uwchradd astudiaeth achos[14]. Yma trafodwyd amrywiaeth fwy cymhleth o themâu gyda dysgwyr, gan gynnwys eu cymhellion dros ymuno â'r eco-bwyllgor, pa wybodaeth a sgiliau roeddent wedi eu hennill, a chyfleoedd i ddysgu ac ymdrin â materion nas cynhwyswyd yn y rhaglen.

2.28 Yn debyg i'r gweithdai gyda dysgwyr cynradd, cafodd y sesiwn hon ei harwain gan ganllawiau pwnc a oedd wedi eu llunio o amgylch cwestiynau ymchwil a gynhwyswyd yn y fframwaith gwerthuso yn benodol ar gyfer dysgwyr ysgol uwchradd.

*Cyfweliadau gyda Cydlynwyr Eco, staff addysgu a chymuned ehangach ysgolion (llywodraethwyr a chynrychiolwyr rhieni)*

2.29 Cynhaliwyd cyfweliadau gyda'r Cydlynwyr Eco ym mhob un o ddeg ysgol yr astudiaethau achos, yn canolbwyntio ar ddysgu mwy am y broses o weithredu'r rhaglen o fewn yr ysgol berthnasol a'r efffaith a gafodd y rhaglen. Cynlluniwyd cyfweliadau i gasglu gwybodaeth ynghylch meysydd fel:

- Y profiad o gyflwyno a chydgysylltu'r rhaglen mewn lleoliadau ysgol
- Y graddau mae'r adnoddau a'r cymorth gan y rhaglen wedi bod yn ddigonol
- Y graddau y mae nodau'r rhaglen wedi bod yn realistig/cyraeddadwy
- Rhwystrau a wynebwyd wrth weithredu

[14] Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal pum grŵp ffocws gyda disgyblion ysgol uwchradd.

- Y graddau'r oedd y rhaglen wedi cyflwyno cyfleoedd newydd i ysgolion
- Effaith y rhaglen ar ddysgwyr, yr ysgol a'r gymuned ehangach.

2.30 Cyfwelwyd cyfanswm o 15 o Gydlynwyr Eco ac ymarferwyr addysg, a gyflawnwyd trwy alwadau fideo ar-lein neu dros y ffôn o dan arweiniad canllawiau pwnc – gweler Atodiad F**.** Cafodd pob un ond tri o'r cyfweliadau hyn eu cynnal yn unigol; digwyddodd nifer bach o drafodaethau grŵp gydag aelodau ychwanegol o staff megis cynorthwywyr addysgu neu gynrychiolwyr athrawon ar yr eco-bwyllgor.

2.31 Cynhaliwyd pedwar cyfweliad pellach gyda rhanddeiliaid o gymuned ehangach ysgolion[15]. Roedd y rhain yn cynnwys eco-lywodraethwr[16], cynrychiolydd rhieni, cynrychiolydd athrawon a chynrychiolydd lleol yr Eglwys yng Nghymru – gofynnwyd set wahanol o gwestiynau i bob un. Roedd y gymysgedd o randdeiliaid yn helpu rhoi syniad o farn cymuned ehangach yr ysgol ar draws detholiad o ysgolion yr astudiaethau achos.

### Ymchwil uniongyrchol ehangach

*Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid ehangach*

2.32 Er mwyn sicrhau bod pob dimensiwn o weithredu'r rhaglen yn cael ei archwilio, neilltuwyd amser gan y tîm adolygu hefyd i gyd-drafod â rhanddeiliaid ehangach Eco-Sgolion.  Roedd hyn yn cynnwys cyfweliadau gyda chynrychiolwyr o bartneriaid canlynol Eco-Sgolion:

- Maint Cymru
- Dŵr Cymru
- Plantlife
- Ysgolion Iach.

[15] Daeth y pedwar hyn o bobl a gyfwelwyd o ddwy ysgol wahanol.
[16] Mae hwn yn llywodraethwr ysgol sy'n eistedd ar yr eco-bwyllgor.

2.33 Lluniwyd y cyfweliadau hyn i ddysgu mwy am natur y berthynas rhwng y sefydliadau partner a'r rhaglen, yn ogystal â chydnawsedd eu gwaith, a chanlyniadau cydweithio. Cafodd unigolion eu recriwtio ar gyfer cyfweliadau trwy Cadwch Gymru'n Daclus a'u dewis yn bwrpasol ar sail eu partneriaeth ag Eco-Sgolion ar adeg yr adolygiad. Cynhaliwyd dau gyfweliad pellach gyda chynrychiolydd cenedlaethol o'r Eglwys yng Nghymru a chynrychiolydd o Gyngor Sir Gaerfyrddin.

2.34 Yn ogystal, bu'r tîm hefyd yn archwilio nifer bach o enghreifftiau o'r rhaglen yn cael ei chyflwyno mewn gwledydd eraill, er mwyn adnabod cyfleoedd i Gymru ddysgu oddi wrth y teulu byd-eang o Eco-Sgolion. Roedd y cyfweliadau rhyngwladol hyn yn canolbwyntio'n benodol ar sut roedd gwledydd eraill yn mynd ati ac yn integreiddio'r naw maes pwnc, ac roeddent yn chwilio'n benodol am enghreifftiau o arloesi a'r gallu i drosglwyddo. Roedd y sefydliadau a holwyd yn dod o wledydd ac iddynt gefndiroedd economaidd-gymdeithasol a gwleidyddol tebyg i Gymru (yn benodol yr Alban a Lloegr) yn ogystal â Malta, a oedd wedi cael ei adnabod yn ystod y cyfnod cwmpasu fel enghraifft o'r arferion gorau wrth gyflwyno Eco-Sgolion yn rhyngwladol. Roedd y sefydliadau hyn yn cynnwys:

- Keep Scotland Beautiful
- Keep Britain Tidy
- Nature's Trust Malta
- FEE.

2.35 Cyflwynir canlyniadau'r astudiaethau achos rhyngwladol hyn yn Adran 6 o'r adroddiad hwn.

*Arolwg ar-lein o ysgolion cofrestredig*

2.36 I ategu'r amrywiaeth o weithgareddau ansoddol a drafodwyd, datblygwyd arolwg dwyieithog ar-lein i sicrhau gwell cynrychiolaeth o'r 760+ o Eco-Ysgolion a gofrestrwyd yng Nghymru, erbyn y flwyddyn 2022. Roedd yr arolwg yn rhoi cyfle i gael adborth ansoddol gan ysgolion roedd y tîm gwerthuso

heb allu cysylltu â hwy'n uniongyrchol trwy ymarferion gwaith maes astudiaethau achos.

2.37 Bu'r arolwg ar-lein yn weithredol am dri mis a chafodd ei ddosbarthu â SmartSurvey trwy Cadwch Gymru'n Daclus yng nghylchlythyr yr Eco-Sgolion a thrwy ei arweinwyr rhanbarthol. Roedd yr arolwg wedi ei dargedu at amrywiaeth o swyddogaethau o fewn ysgolion, megis Cydlynwyr Eco, staff addysgu a staff eraill, prifathrawon a Llywodraethwyr. Cafodd yr arolwg gyfradd ymateb gymedrol o 80 o ymatebion, gyda 67 o'r ymatebion yn Saesneg a 13 yn y Gymraeg. O'r cyfanswm:

- Daeth 65 allan o'r 80 o ymatebion o leoliadau ysgol gynradd
- Daeth 4 allan o'r 80 o ymatebion o ysgolion uwchradd
- Daeth 4 allan o'r 80 o ymatebion o ysgolion arbennig
- Daeth un ymateb o ysgol 3-16 oed
- Roedd 6 allan o'r 80 o ymatebion yn categoreiddio eu hunain fel 'Arall' – gyda thri yn ysgolion babanod, ac roedd gweddill yr ymatebwyr yn ysgolion Cynradd ac Uwchradd Blynyddoedd 5-13.

2.38 Roedd hyn yn adlewyrchu'n fras y gyfran o ysgolion cynradd yng Nghymru, fel roedd yn 2022 (85 y cant o'r holl ysgolion); daeth canran is o ymatebwyr o ysgolion uwchradd o gymharu â'r holl ysgolion uwchradd yng Nghymru (13 y cant o'r holl ysgolion yng Nghymru) a daeth canran uwch o ymatebion o ysgolion arbennig na'r gyfran o ysgolion arbennig yng Nghymru (3 y cant o'r holl ysgolion yng Nghymru). Roedd y gweddill o ymatebwyr o ysgolion mwy a oedd yn ymgorffori dysgwyr oed cynradd ac uwchradd.

*Dadansoddi data*

2.39 Dadansoddwyd data monitro trwy ddefnyddio cyfuniad o Excel a meddalwedd mapio'r meddwl. Roedd dadanddi'r data ansoddol a

meintiol yn cynnwys cyfres o gamau. Cafodd gwybodaeth a gasglwyd yn ystod cyfweliadau ei ddadansoddi trwy ddefnyddio meddalwedd mapio'r meddwl ar-lein a thrafodaethau mewnol gyda'r tîm gwerthuso, i lunio themâu o fewn y cwestiynau gwerthuso allweddol a gynhwyswyd yn y fframwaith gwerthuso. Cafodd data'r arolwg ar-lein ei grynhoi a'i ddadansoddi trwy ddefnyddio Excel, gyda'r gwaith o ddadansoddi cwestiynau penagored yn canolbwyntio ar adnabod pwyntiau a oedd yn codi'n gyson, yn ogystal â phatrymau neu dueddiadau a oedd yn gysylltiedig â mwy nag un thema.

2.40 Caofdd y pwyntiau allweddol a ddaeth i'r amlwg o dan bob thema eu hamlygu wedyn yn y broses adrodd, a thynnwyd sylw at enghreifftiau a dyfyniadau a gasglwyd yn ystod yr ymchwil uniongyrchol i ddarlunio'r pwyntiau hyn ymhellach. Lluniwyd y casgliadau a'r argymhellion o ddehongliad y gwerthuswyr o'r canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg o'r dadansoddiad.

### Moeseg

2.41 Gwnaed yn glir i bob cyfranogwr sut y byddai eu data personol yn cael ei brosesu a'i storio o dan GDPR y Deyrnas Unedig trwy roi hysbysiadau preifatrwydd iddynt[17]. Derbyniodd pawb o'r cyfranogwyr e-bost yn rhoi gwybodaeth ynghylch beth fyddai iddynt gymryd rhan yn yr adolygiad yn ei olygu. Cadarnhawyd caniatâd ysgrifenedig neu lafar cyn i'r cyfweliadau / grwpiau trafod gychwyn. Roedd o leiaf un athro yn bresennol yn mhob un o grwpiau ffocws y dysgwyr.

### Cyfyngiadau'r dull hwn

2.42 Roedd y dull o adolygu'r rhaglen, fel yr amlinellir uchod, yn sicrhau bod y canfyddiadau'n adlewyrchu barn a phrofiad amrywiaeth o ysgolion a rhanddeiliaid. Fodd bynnag, roedd amseru'r adolygiad – yn agos i ddiwedd y flwyddyn academaidd, pan oedd ysgolion uwchradd yn enwedig yn paratoi ar gyfer arholiadau – a ffenest gymharol fyr o

[17] Gweler Atodiad G am hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer yr arolwg ar-lein a'r trafodaethau gyda rhanddeiliaid ehangach.

amser i gysylltu a thrafod gydag ysgolion, yn creu heriau wrth gyflawni'r gynrychiolaeth a ddeisyfid o ysgolion a rhanddeiliaid yn y sampl.

2.43 Er bod y sampl a gafwyd yn y diwedd wedi llwyddo i sicrhau cydnawsedd â'r strwythur samplu a ddatblygwyd ar y cychwyn[18], roedd hyn wedi ei gwneud yn ofynnol i'r tîm gysylltu ag ail ac mewn rhai achosion drydedd ysgol 'wrth gefn' ar ben y rheini a gynhwyswyd yn y sampl gwreiddiol. Roedd yn anochel fod hyn yn gwneud y ffrâm amser yn fwy cyfyng fyth ac o ganlyniad roedd y dystiolaeth a gasglwyd trwy'r gwaith maeth uniongyrchol yn cynrychioli barn y rheini a oedd yn barod i gymryd rhan yn yr adolygiad ac felly gallen fod fod agwedd fwy cadarnhaol am y rhaglen a'r ffordd roedd hi wedi effeithio ar eu hysgol eu hunain.

2.44 Roedd cyfyngiad pellach yn cynnwys y ffaith mai dim ond un gweithdy[19] a gynhaliwyd gyda dysgwyr uwchradd, yn sgil ffrâm amser yr ymchwil uniongyrchol yn cydredeg law yn llaw â chyfnodau asesu Cyfnodau Allweddol 4 a 5. Roedd hyn yn golygu bod y mwyafrif o ddysgwyr uwchradd mewn ysgolion a samplwyd yn rhy brysur i siarad gyda'r tîm adolygu, ac felly'n cyfyngu ar yr amrywiaeth o safbwyntiau dysgwyr uwchradd a ddaliwyd.

2.45 Cyfyngiad pellach oedd y ffaith nad oedd yr ymchwil uniongyrchol yn cynnwys unrhyw ryngweithio rhwng ysgolion a'i gilydd nac yn rhanbarthol, unwaith eto oherwydd y raddfa amser gyfyngedig ar gyfer y gwaith a'r anhawster o ddarganfod dyddiadau a fyddai'n gweithio i galendrau gwahanol ysgolion.

2.46 Yn olaf, er mwyn deall yr heriau i ysgolion nad oedd wedi bod yn llwyddiannus yn eu taith drwy'r rhaglen, roedd y tîm adolygu wedi bwriadu cynnwys rhai ysgolion a oedd wedi ymddieithrio yn y sampl cyfweld. Ysgolion oedd y rhain a oedd ar ryw adeg wedi cofrestru gydag Eco-Sgolion ond nad oedd ganddynt ddyfarniad ar adeg yr

---

[18] Ac eithrio Lefel y Dyfarniad fel y disgrifir yn 2.21
[19] Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal pum grŵp ffocws gyda disgyblion ysgol uwchradd.

adolygiad. Yn anffodus, er gwaethaf sawl ymgais i gysylltu â sampl o ddeg ysgol, nid oedd neb yn fodlon cymryd rhan yn yr adolygiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, naill ai'r oedd yr Cydlynydd Eco wedi gadael yr ysgol neu wedi rhoi'r gorau i'r swydd o Cydlynydd Eco; ym mhob un o'r achosion hyn, nid oedd cymryd rhan yn yr adolygiad yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth i'r ysgol.

## 3. Sail resymegol ac amcanion rhaglen Eco-Sgolion yng Nghymru a'i chynnydd hyd yma

3.1 Fel rhan o'r adolygiad, gofynnwyd i randdeiliaid a oedd yn ymwneud â rheoli'r rhaglen yng Nghymru (megis staff Cadwch Gymru'n Daclus a Swyddogion Eco-Sgolion), a rhanddeiliaid ehangach sy'n gweithio law yn llaw ag Eco-Sgolion (gan gynnwys Llywodraeth Cymru, partneriaid Eco-Sgolion a chynrychiolwyr rhyngwladol) i feddwl a thrafod eu hagweddau ynghylch ystyr sylfaenol a sail resymegol y rhaglen.

3.2 Yn yr adran hon o'r adroddiad, aeth y tîm adolygu i ystyried sut mae'r sail resymegol hon – neu'r angen – am Eco-Sgolion yn cydweddu â nodau ac amcanion y rhaglen.

3.3 Yn benodol, mae'r bennod hon yn trafod:

- Prif nodau'r rhaglen
- Amcanion penodol Eco-Sgolion a gytunwyd rhwng Cadwch Gymru'n Daclus a Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2021/22, ac asesiad o gynnydd tuag at yr amcanion hyn hyd yma.
- Adolygiad o gynnydd dyfarniadau rhwng 2018-2022.

3.4 Daeth yr wybodaeth ar gyfer canfyddiadau'r adran hon o ddogfennaeth a data monitro Eco-Sgolion, ochr yn ochr â chyfweliadau gyda Cadwch Gymru'n Daclus, partneriaid Eco-Sgolion a Llywodraeth Cymru.

### Prif nodau'r rhaglen

3.5 Fel rhan o'r gweithgareddau cwmpasu ar gyfer yr adolygiad, gofynnwyd i aelodau o dîm Cadwch Gymru'n Daclus a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru feddwl beth oedd eu barn o **brif nodau'r** rhaglen.

3.6 Ar y cam hwn, daeth sawl thema allweddol yn ymwneud â nodau cyffredinol Eco-Sgolion i'r amlwg, ac fe'u cynhwyswyd mewn model

rhesymeg[20] yn nodi'r theori a'r tybiaethau sy'n sail i'r rhaglen yng Nghymru. Roedd nodau cyffredinol y rhaglen a grybwyllwyd yn cynnwys:


- Grymuso plant a phobl ifanc i weithredu ar faterion hinsawdd
- Ennyn diddordeb plant a phobl ifanc i ddysgu am yr amgylchedd
- Cefnogi ac integreiddio Eco-Sgolion â'r cwricwlwm newydd
- Helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau i wneud newidiadau amgylcheddol cadarnhaol
- Amddiffyn yr amgylchedd naturiol rhag difrod, colli bioamrywiaeth a llygredd

3.7 Mae i Eco-Sgolion y nod o weithredu i ddiwallu amrywiol anghenion ysgolion a dysgwyr yng Nghymru – dyma'r **sail resymegol** dros weithredu'r rhaglen.

3.8 Cafodd nifer o themâu allweddol yn ymwneud â sail resymegol Eco-Sgolion eu hamlygu yn ystod cyfweliadau (Ffigur 3.1) ac fe'u hamlinellir yn yr adrannau sy'n dilyn. Gofynnwyd i'r rheini y cyfwelwyd â hwy pam ei bod yn bwysig diwallu'r anghenion hynny a sut roedd Eco-Sgolion yn cyfrannu at wneud hyn.

[20] Gweler Atodiad H

**Ffigur 3.1: Sail resymegol rhaglen Eco-Sgolion yng Nghymru, wedi eu dosbarthu yn ôl thema**




Ffynhonnell: Miller Research, dadansoddiad thematig o ddata cyfweliadau cwmpasu

**Thema 1: Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd**

3.9 Ar 29 Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd yng Nghymru[21], gan amlygu maint o dystiolaeth o'r Adroddiad Arbennig y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC) ar effeithiau cynhesu byd-eang o 1.5°C.

3.10 Adroddodd rhanddeiliaid mai un o seiliau rhesymegol allweddol Eco-Sgolion yw defnyddio addysg fel cyfrwng i helpu ymdrin â materion byd-eang, megis yr argyfwng hinsawdd. Nodwyd bod ysgolion yn fan cychwyn effeithiol ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth amgylcheddol a newid ymddygiad. Os na chaiff plant a phobl ifanc eu helpu i ddeall a

[21] Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd LLYW.CYMRU

mynd i'r afael â chanlyniadau cynhesu byd-eang, maent yn llai tebygol o newid eu hymddygiad ac addasu i'r argyfwng sy'n ein hwynebu. O'r herwydd, dywedodd rhanddeiliaid fod rhaglen Eco-Sgolion yn gweithredu fel llwybr i'r dysgwyr eu hunain i'w helpu hwy i ddeall arwyddocâd materion y rhoddir sylw iddynt, a'r dylanwad y gallant ei gael. Mae hyn yn creu llwybr i'r athrawon a chymuned ehangach yr ysgol[22], ond lawn cyn bwysiced mae'n cael yr effaith o raeadru gwybodaeth a gweithredu o'r ystafell ddosbarth i fywyd cartref a theuluoedd y dysgwyr.

*"Allwn ni ddim anwybyddu'r hyn sy'n cael ei drafod y tu allan i ffiniau ysgol. Mae newid hinsawdd yn fater byd-eang sy'n amlwg, ac rydym angen i blant edrych ar y materion hyn yn greadigol a'u deall. Mae ysgolion yn lle da i wneud hynny."*

Un o randdeiliad FEE, 2022

**Thema 2: Galluogi dysgwyr i ymrwymo i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r amgylchedd**

3.11 Roedd consensws ymysg rhanddeiliaid fod y mwyafrif o bobl ifanc yn poeni'n ddwys am faterion amgylcheddol ac yn dymuno gwneud newidiadau cadarnhaol i'r amgylchedd o'u cwmpas.

3.12 Roedd rhanddeiliaid yn nodi bod gan y genhedlaeth hon frwdfrydedd cynhenid tuag at y byd naturiol. Mae ymgyrchwyr fel Greta Thunberg wedi dod yn eiconau o weithredu gan bobl ifanc yn erbyn newid hinsawdd, gan arwain llawer o ddysgwyr i ofyn beth allant ei wneud a mynegi awydd i'w llais gael ei glywed.

*"Mae syched gan bobl ifanc am ddatblygu gweithredu cadarnhaol ar newid hinsawdd, gan ei fod yn effeithio ar eu dyfodol".*

Un o randdeiliaid Keep Scotland Beautiful, 2022

3.13 Mae rhaglen Eco-Sgolion yn cynnig y cyfle hwn fel modd o feithrin ymwybyddiaeth amgylcheddol ar draws yr **holl** ysgol. Trwy roi cyfle i

[22] Yma, mae cymuned ehangach ysgol yn cyfeirio at rieni/gofalwyr, sefydliadau cymunedol lleol, aelodau etholedig lleol ac aelodau ehangach o'r gymuned

ddysgwyr ddefnyddio eu llais a gweithredu ar faterion amgylcheddol a chymdeithasol, mae rhaglen Eco-Sgolion yn gadael iddynt gymryd cyfrifoldeb o effaith eu hysgol ac yn creu teimlad rymuso i ddysgwyr a'u cymheiriaid.

**Thema 3: Cefnogi pob un o bedwar diben y Cwricwlwm newydd i Gymru**

3.14 Teimlai rhanddeiliaid mai sail resymegol greiddiol arall i'r rhaglen, yn enwedig trwy gweithgarwch diweddar ac yn y dyfodol, oedd helpu rhoi'r Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith. Mae pedwar diben y Cwricwlwm newydd i Gymru[23] wedi cael eu cynllunio i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu fel:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu hoes
- cyfranwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus o Gymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywyd fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

3.15 Roedd y pedwar diben hyn yn cael eu gweld gan randdeiliaid fel rhai perthnasol iawn i nod cyffredinol rhaglen Eco-sgolion, yn enwedig o ran dinasyddiaeth fyd-eang, ymdrin â materion cymdeithasol ac amgylcheddol cyfoes ac iechyd a llesiant.

3.16 Y teimlad oedd bod Eco-Sgolion yn helpu integreiddio gwahanol agweddau o'r cwricwlwm newydd, yn enwedig oherwydd ei fod, fel Eco-Sgolion, yn annog dull **ysgol gyfan, dan arweiniad dysgwyr.** Roedd elfennau canolog, megis y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r ethos o o beidio â chael 'dysgu oddi ar y silff', yn cael eu gweld fel y fforymau allweddol y gallai Eco-Sgolion helpu gwireddu ei weledigaeth drwyddynt. Manylir ymhellach ar sut roedd ysgolion wedi

[23] Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm - Hwb (gov.wales)

cysoni eu gweithgareddau Eco-Sgolion â'r Cwricwlwm i Gymru yn Adran 5.

**Thema 4: Cefnogi plant a phobl ifanc wrth adeiladu sgiliau i weithredu**

3.17 Yn ogystal, bu rhanddeiliaid yn trafod rôl Eco-Sgolion mewn helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu eu **gwybodaeth** o'r amgylchedd a newid hinsawdd, a hefyd i ddatblygu'r **sgiliau** i weithredu ymhellach.

3.18 Yn ôl rhanddeiliaid, er bod cynnwys pwnc Eco-Sgolion yn bwysig, yr hyn sy'n arwain at newid gwirioneddol yw beth mae dysgwyr yn ei wneud gyda'r wybodaeth honno. Mae hyblygrwydd y rhaglen yn cynnig y cyfle i blant a phobl ifanc adeiladu ar eu sgiliau, gan gynnwys rhifedd a llythrennedd, trwy weithredu prosiectau yn unol â phroses saith-cam Eco-Sgolion a'r naw pwnc. Un enghraifft a nodwyd yn ystod gwaith maes oedd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau mathemategol trwy gyfrif y nifer o rywogaethau pryfed ar dir eu hysgol a phwyso'r swm o sbwriel a gesglir ar gyfer eu hadolygiadau amgylcheddol.

3.19 Ym marn rhanddeiliaid, mae'r rhaglen yn helpu plant a phobl ifanc i gamu ymlaen wedi trwy eu bywyd ysgol wedi eu harfogi â'r wybodaeth a'r sgiliau i helpu gwneud gwahaniaeth, y gallant eu rhannu gyda ffrindiau a theulu ac y gallant ddysgu oddi wrth ei gilydd ac ysbrydoli ei gilydd.

**Thema 5: Darparu cyfrwng i ymwreiddio blaenoriaethau perthnasol Llywodraeth Cymru**

3.20 Roedd rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru'n nodi pwysigrwydd ystyried sut y gellir ymwreiddio blaenoriaethau strategol **trwy gydol** profiad dysgu plant a phobl ifanc yng Nghymru.

3.21 Trwy gynnig rhaglen hyblyg o waith i ysgolion a'r gallu i ganolbwyntio ar bynciau sy'n adddas i'w hanghenion/ethos cyffredinol (ond hefyd ymwneud â themâu cyffredinol sawl polisi strategol), mae Eco-Sgolion

yn cynnig cyfrwng y gall Llywodraeth Cymru gynnwys plant a phobl ifanc yn anuniongyrchol drwyddo mewn polisïau a blaenoriaethau perthnasol. Trwy gydweithio'n agos â Cadwch Gymru'n Daclus, gan y rhaglen 'symud ymlaen gyda'r oes' a phwysleisio pynciau penodol a gweithgareddau peilot, yn unol â'r Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddir bob tymor Senedd.

3.22 Yn ogystal, teimlai rhanddeiliaid fod Eco-Sgolion yn gyfrwng effeithiol ar gyfer ei ddefnyddio gan arweinwyr polisi **ar draws** Llywodraeth Cymru, i helpu ymwreiddio blaenoriaethau trawslywodraethol allweddol o fewn lleoliadau addysgol. Un enghraifft a grybwyllwyd oedd y cyfle i ffurfio cysylltiadau rhwng Eco-Sgolion a pholisi Ansawdd Aer, er mwyn amddiffyn dysgwyr rhag peryglon i'w hiechyd. Roedd rhanddeilaid arall o Cadwch Gymru'n Daclus yn nodi bod y rhaglen, yn gyffredinol, wedi'i lleoli'n hanesyddol o fewn Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru. Y teimlad oedd y gallai'r rhaglen gryfhau ei chysylltiadau ac Addysg a Sgiliau, yn enwedig wrth gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru a gwneud addysg amgylcheddol yn rhan fwy canolog o'r cwricwlwm o safbwynt polisi strategol.

### Thema 6: Helpu mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, hyrwyddo adfer natur ac atal llygredd

3.23 Yn unol â'r datganiad argyfwng hinsawdd yn 2019, roedd hyn hefyd yn drobwynt mewn cydnabod argyfwng **natur** a oedd yn datblygu yng Nghymru a chynyddu gweithredu dros fioamrywiaeth[24]. Mae tystiolaeth gynyddol ynghylch graddfa colli bioamrywiaeth yng Nghymru a'r angen am ddull integredig i wrthdroi'r dirywiad hwn.

3.24 Pwynt allweddol a godwyd gan amryw o randdeiliaid ar sail resymegol y rhaglen oedd y gallu i weithgareddau gael eu cyflawni gan Eco-Sgolion i helpu mynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn a sicrhau bod gan unigolion o'r adeg maent yn blant bach yr **agweddau** iawn tuag

[24] Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

at natur a bioamrywiaeth. Nodwyd bod llawer o blant a phobl ifanc, yn sgil Eco-Sgolion, yn dechrau gwneud cysylltiadau rhwng cadwraeth ar lefel leol a materion ehangach megis colli bioamrywiaeth, adfer natur a llygredd. Mae hon yn thema ganolog ym mhynciau 'Bioamrywiaeth' a 'Tir Ysgol i Bobl a Byd Natur' Eco-Sgolion. Dangosodd nifer o ysgolion engheifftiau cadarnhaol o wella ansawdd yr amgylchedd lleol a chynyddu llesiant meddylion trwy ddysgu yn yr awyr agored. Mae enghreifftiau manwl o weithgareddau o'r fath i'w gweld yn Adrannau 5 a 7 o'r adroddiad hwn.

**Thema 7: Helpu ysgolion i gymryd camau ymarferol**

3.25 Roedd consensws ymysg rhanddeiliaid fod angen hefyd i helpu ysgolion i gymryd camau ymarferol i leihau eu heffaith amgylcheddol. Mae cyfleoedd ymarferol i gymryd rhan mewn gweithgareddau i gynyddu'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd, lleihau effaith carbon a gwella bioamrywiaeth yn galluogi plant a phobl ifanc i drosi gwybodaeth yn gamau cadarnhaol ac annog sgyrsiau gyda rhieni/cymheiriaid i gwella'u cymunedau lleol, Cymru a'r blaned. Mae fframwaith Eco-Sgolion a'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael i ysgolion yng Nghymru wedi eu llunio i helpu ysgolion gychwyn y daith hon a llwyddo ynddi.

**Amcanion y cytunwyd arnynt rhwng Cadwch Gymru'n Daclus a Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22**

3.26 Fel rhan o gytundeb cyllid grant y rhaglen (Ebrill 2020 – Mawrth 2023), cyflawnodd Eco-Sgolion nifer o amcanion penodol y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer pob cyfnod ariannu. Roedd yr amcanion hyn yn llywio natur gweithgareddau'r rhaglen ac yn mynd law yn llaw â set o fetrigau / targedau i fesur cynnydd[25].

3.27 Roedd cynrychiolwyr o Cadwch Gymru'n Daclus yn esbonio bod amcanion Eco-Sgolion ar gyfer 2021-22 yn canolbwyntio ar ehangu a

[25] Amgaeir dadansoddiad llawn o bob metrig a tharged ar gyfer y rhaglen (2021/22) yn Atodiad I.

chryfhau gweithgareddau'r rhaglen ac adeiladu ar sylfeini cryf a oedd wedi cael eu sefydlu. Daeth yr amcanion yn fwy penodol, gan adlewyrchu ymdrech wedi eu thargedu at oresgyn bylchau yn y gwaith a sicrhau canlyniadau ystyrlon.

3.28 Roedd mwy o bwyslais ar gyfer cyfnod 2021/22 ar gefnogi ysgolion a oedd wedi ymddieithrio. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y rheini a oedd wedi cofrestru i'r rhaglen yn cael eu hannog a'u symbylu i wneud cynnydd ar y saith cam a chwarae rhan fwy gweithgar. Mesurwyd yr allbwn hwn trwy gofnodi ysgolion nad oedd yn rhai Baner Werdd a oedd wedi ymuno â hyfforddiant athrawon neu weithdai dysgwyr rhithiol yn ystod y flwyddyn. Yr ysgolion hyn oedd y rheini a oedd wedi cofrestru i'r rhaglen ond nad oedd efallai wedi cael gwobr neu bod eu gwobr wedi dod i ben, neu eu bod wedi cael gwobr ond heb symud ymlaen i lefel dyfarniad Baner Werdd. Ar ddiwedd 2021/22, roedd Eco-Sgolion wedi ailgynnwys 93 o ysgolion yn y rhaglen, gan gyrraedd ei darged o 75 o ysgolion.

3.29 Mae'r tabl isod yn crynhoi cynnydd Eco-Sgolion wrth gyflawni'r amcanion a osodwyd gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22, gan gynnwys cynnydd tuag at y targedau sy'n gysylltiedig â phob amcan.

**Tabl 3.1: Cynnydd rhaglen Eco-Sgolion tuag at amcanion ar gyfer 2021/22, gan gynnwys metrigau targed**

| **Amcanion Eco-Sgolion ar gyfer 2021/22** | | |
|---|---|---|
| **Amcan** | **Gweithgareddau a gyflawnwyd** | **Cynnydd tuag at darged(au)** |
| Datblygu sesiynau hyfforddi athrawon sy'n cysylltu Eco-Sgolion â'r cwricwlwm newydd. | Cyflwynodd y rhaglen sesiynau hyfforddi 'cysylltu â'r cwricwlwm' a gynigiwyd i **staff addysgu** a **staff nad ydynt yn addysgu** o fewn ysgolion. Roedd y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar helpu athrawon i gyflawni **dull ysgol-gyfan** o ymdrin ac Eco-Sgolion, sydd wedi ei integreiddio â gwaith ystafell | Ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22, roedd gan y rhaglen dargedau cysylltiedig â'r amcan hwn ar gyfer y nifer o athrawon sy'n cymryd rhan mewn dyddiau hyfforddi. |



MILLER
Research Evaluation Consulting

| | | |
|---|---|---|
| | ddosbarth dysgwr. Datblygwyd yr hyfforddiant oherwydd bod rhai ysgolion yn ddibynnol ar un aelod o staff i arwain rhaglen Eco-Sgolion, a all effeithio ar gynaliadwyedd y rhaglen mewn ysgol dros yr hirdymor.<br><br>Roedd cynnwys yr hyfforddiant yn cynnwys modelu sut i gysylltu pob un o saith cam Eco-Sgolion â gwaith ystafell ddosbarth, er mwyn cyflawni dull ysgol-gyfan gwirioneddol. | Y targed ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 oedd 420 o athrawon yn cymryd rhan mewn hyfforddiant athrawon. Cyrhaeddodd y rhaglen y targed hwn, gyda chyfanswm o 453 o athrawon yn cymryd rhan mewn dyddiau hyfforddi. |
| Cyflwyno rhaglen hyfforddiant Newid Hinsawdd i rieni i helpu hwyluso gweithredu gan yr ysgol gyfan. | Cynigiwyd Hyfforddiant Newid Hinsawdd yn llwyddiannus i addysgwyr er mwyn rhoi'r cyfle iddynt i gynyddu eu dealltwriaeth o wyddoniaeth newid hinsawdd a'i effaith ar y blaned, ac yn sylfaenol, i ddysgu cyfleu hyn i bobl ifanc.<br><br>Roedd y sesiynau hyfforddi'n pwysleisio'r hyn y gellir ei wneud gan unigolion, ysgolion a chymunedau i helpu mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac fe'u cyflwynwyd mewn cydweithrediad â Maint Cymru. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei achredu gan yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Carbon, gan helpu i roi cydnabyddiaeth bellach i ysgolion wrth hwyluso gweithredu ysgol gyfan ar yr hinsawdd. | Nid oedd metrig uniongyrchol yn gysylltiedig â'r amcan hwn. |
| Cyflwyno sesiynau Newid Hinsawdd i 20 o Ysgolion Cynradd a oedd wedi ymddieithrio. | Yn 2021/22 cyflwynodd y rhaglen sesiynau Newid Hinsawdd i ysgolion a oedd wedi ymddieithrio ledled Cymru, a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â COP26 a COP Cymru. Cynhaliwyd | Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/22, nod Eco-Sgolion oedd i 20 o ysgolion cynradd a oedd wedi ymddieithrio |

| | | |
|---|---|---|
| | gweithdai dros wythnos gyda sesiynau byw, gweithgareddau ac adnoddau i'w defnyddio gan ysgolion. Roedd y sesiynau hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â dysgwyr i ddangos beth yw'r argyfwng hinsawdd, a syniadau am gamau gweithredu i wneud gwahaniaeth. | fynychu sesiwn Newid Hinsawdd. Cyrhaeddodd y rhaglen y targed hwn, gan gyflwyno sesiynau i gyfanswm o 82 o ysgolion a oedd wedi ymddieithrio. |
| Cryfhau cysylltiadau â'r fenter Ysgolion Iach. | Cynllun yw'r fenter Ysgolion Iach[26] a weithredir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, i hyrwyddo dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a llesiant. Mae'n gweithio ar draws 22 o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae wedi ei lunio i ddatblygu arferion da o ran iechyd a llesiant pawb sy'n dysgu, gweithio a chwarae o fewn yr ysgol.<br><br>Mae ysgolion yn gweithio tuag at saith o agweddau iechyd:<br><br>• Bwyd a Ffitrwydd<br>• Amgylchedd<br>• Datblygiad Personol a Chydberthynas<br>• Diogelwch<br>• Iechyd Meddwl ac Emosiynol a Llesiant –<br>• Hylendid<br>• Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau<br><br>Mae ysgolion sy'n cyrraedd y safonau uchaf ym mhob un o'r saith agwedd o iechyd a llesiant yn gallu ymgeisio am Wobr Ansawdd Genedlaethol. | Nid oedd metrig uniongyrchol yn gysylltiedig â'r amcan hwn. |

[26] Gweler mwy o fanylion trwy wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru

| | | |
|---|---|---|
| | Mae gan raglen Eco-Sgolion berthynas sy'n mynd yn ôl ymhell gydag Ysgolion Iach. Mae Ysgolion Iach yn cefnogi Eco-Sgolion yn eu gwaith mewn ysgolion gan hefyd recriwtio ysgolion sy'n ymwneud ag Eco-Sgolion i'w cynllun hwy. Caiff y berthynas rhwng Eco-Sgolion ac Ysgolion Iach ei rheoli'n effeithiol trwy ryngweithio rhanbarthol rhwng swyddogion lleol. Roedd enghreifftiau o weithgareddau ar y cyd yn ystod 2021/22 yn cynnwys*:*<br><br>• Bu Ysgolion Iach Caerffili a swyddog rhanbarthol Eco-Sgolion De Cymru yn mapio'r cysylltiadau rhwng y ddwy raglen, er mwyn helpu ysgolion i symud ymlaen gyda'r ddau ddyfarfnad. Er enghraifft, mae'n ofynnol i ysgolion fodloni dangosyddion penodol er mwyn ennill eu Gwobr Ansawdd Genedlaethol o dan Biler Amgylcheddol Ysgolion Iach – dangosyddion sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithgareddau a gyflawnir gan ysgolion fel rhan o'u gwaith Eco-Sgolion.<br>• Ymwneud ag ysgolion yng Nghwm Taf gyda gwaith sbwriel ac iechyd cysylltiedig â Diwrnod Dim Baco y Byd.<br>• Rhedeg digwyddiadau clwstwr ar y cyd i ysgolion ym Mro Morgannwg. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Rhannu gwaith asesu i gefnogi ei gilydd ym Mhowys.<br><br>Nodwyd gan gynrychiolwyr Ysgolion Iach fod y ddau sefydliad wedi gweithio gyda'i gilydd yn fwy rheolaidd mewn blynyddoedd a fu, pan oedd Swyddog Eco-Sgolion i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Ar adeg y gwaith maes, roedd Swyddogion Eco-Sgolion rhanbarthol ar gyfer ysgolion, ac roedd y cyfleoedd am gysylltu gwaith wedi lleihau rhywfaint, ond roedd y symudiad at gyflwyno ar-lein wedi ei gwneud yn haws cydweithio. | |
| Cyflawni gwaith mwy penodol mewn Ysgolion Uwchradd. | Ceisiodd Eco-Sgolion roi mwy o bwyslais ar eu gweithgarwch gydag ysgolion uwchradd yn 2021/22, a oedd yn aml â lefel is o statws dyfarniad yn sgil fod ganddynt fwy o flaenoriaethau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Er mwyn helpu Cydlynwyr Eco ysgolion uwchradd i godi amlygrwydd Eco-Sgolion, a hysbysu a chynnwys staff ar draws yr ysgol, cynlluniodd Cadwch Gymru'n Daclus **'Adnodd Ysgolion ar gyfer Cydlynwyr Eco'** i roi trosolwg o'r rhaglen. Roedd wedi ei gynllunio i gael ei ddefnyddio gan y cydgysylltwyr yn ystod dyddiau hyfforddiant mewn swydd (HMS) i staff, i godi ymwybyddiaeth o Eco-Sgolion a dangos lle gall aelodau eraill o staff gyfrannu. Roedd y gwaith penodol hwn eisoes wedi cael eu ddefnyddio gan amryw o ysgolion yn ystod sesiynau | O safbwynt y dangosydd hwn, roedd gan raglen Eco-Sgolion darged i 15 ysgol fynychu gweithdai Sgyrsiau Hinsawdd i ddisgyblion yn 2021/22. Cwblhaodd y rhaglen y gwaith hwn trwy Gyd-Bwyllgor Addysg Cymru (CBAC). |

| | | |
|---|---|---|
| | hyfforddiant mewn swydd yn nhymor yr haf 2022.<br><br>Yn ogystal, cynhaliodd y rhaglen **'Sgyrsiau Hinsawdd'** gydag ysgolion uwchradd ar lythrennedd carbon er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr hŷn mewn trafodaethau a gweithredu ar yr hinsawdd. | |
| Cyflwyno a hwyluso cynllun 'efeillio/mentora' rhwng ysgolion disglair a'r rheini nad ydynt eto wedi ennill statws Baner Werdd. | Yn 2021/22, fe wnaeth Eco-Sgolion dreialu cynllun mentora peilot, lle cynigiodd tair ysgol Platinwm gymorth anffurfiol i amryw o ysgolion nad oedd â Baner Werdd (sef y rheini ar lefelau Gwobr Efydd a/neu Arian). Roedd yr ysgolion yn cael eu hannog i rannu syniadau am yr arferion gorau ar sut i ymwreiddio'r broses Eco-Sgolion, yn ogystal â helpu gyda syniadau am gamau gweithredu. Gan ddibynnu ar lwyddiant y cynllun, a'r adborth gan ysgolion, bwriad Cadwch Gymru'n Daclus yw cyflwyno'r peilot ar raddfa fwy ar gyfer 2022/23. | Yn gysylltiedig â'r amcan hwn, roedd gan y rhaglen darged ar gyfer 2021/22 o 40 o ysgolion yn mynychu digwyddiad rhwydwaith / efeillio. Cyrhaeddodd y rhaglen y targed hwn, gyda chyfanswm o 326 o ysgolion yn mynychu digwyddiad drwy'r cynllun peilot. |
| Gwella gwefan Eco-Sgolion | Yn 2022, lansiodd Cadwch Gymru'n Daclus wefan newydd ar gyfer y rhaglen, gan roi cyfle i ysgolion gael at adnoddau Eco-Sgolion. Roedd y wefan a ddiweddarir yn gyson yn cynnwys fideos byr a ddatblygwyd yn ddiweddar ar gyfer pob un o saith cam Eco-Sgolion. Cyhoeddwyd y rhain gyda'r diben o atgoffa a darlunio pob cam yn y broses Eco-Sgolion yn fyr ac fe'u crewyd yn ddwyieithog gyda phwyslais | Yn 2021/22, roedd gan y rhaglen darged ar gyfer datblygu'r wefan i'w gwneud yn fwy defnyddiol ar gyfer cynnwys adnoddau, gan gynnwys fideos. Roedd hyn yn cynnwys postio astudiaethau achos ysgolion a ddiweddarir yn rheolaidd a gwybodaeth haws ei |

| | | |
|---|---|---|
| | ar rai llais i bobl ifanc (gyda dysgwyr yn cyflwyno pob un). | gael i ddefnyddwyr. Erbyn mis Tachwedd 2021, roedd y rhaglen wedi cwblhau'r gwelliannau hyn i'r wefan. |

Ffynhonnell: Data monitro Eco-Sgolion

3.30 O safbwynt asesu cynnydd tuag at yr amcanion a amlinellir uchod, mae'n amlwg i'r rhaglen gyflawni ei hamcanion ar gyfer 2021/22 mewn achosion lle'r oedd y gweithgarwch yn benodol a / neu bod ganddo allbwn targed cysylltiedig. Roedd hyn yn wir yn achos:

- Datblygu sesiynau hyfforddi athrawon sy'n cysylltu Eco-Sgolion â'r cwricwlwm newydd.
- Cyflwyno sesiynau Newid Hinsawdd i ysgolion cynradd a oedd wedi ymddieithrio.
- Cyflwyno a hwyluso cynllun 'efeillio/mentora' rhwng ysgolion disglair a'r rheini nad ydynt wedi ennill eu statws Baner Werdd eto.
- Cyflawni gwaith mwy penodol mewn ysgolion uwchradd.
- Gwella gwefan Eco-Sgolion.

3.31 Mewn rhai achosion, lle na osodwyd maen prawf pendant ar gyfer yr amcanion, roedd yn fwy anodd i'r adolygiad benderfynu a oedd amcanion wedi cael eu cyflawni'n llawn. Roedd hyn yn wir, er enghraifft, yn achos amcanion ar gyfer cryfhau cysylltiadau â menter Ysgolion Iach.

3.32 O safbwynt metrigau ychwanegol, amgaeir tabl o gynnydd y rhaglen mewn perthynas â phob targed ar gyfer 2021/22 yn Atodiad I. Yn gyffredinol, mae'r rhaglen wedi cyrraedd targedau, neu ragori arnynt, ym mhob maes.

**Adolygiad o'r broses ddyfarnu rhwng 2018-2022**

3.33 Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae rhaglen Eco-Sgolion wedi cael eu chyflwyno yng nghyd-destun y pandemig Covid-19, sefyllfa gythryblus sydd wedi tarfu'n sylweddol ar sefydliadau addysgol yng Nghymru ac sydd wedi peri heriau unigryw wrth gyflwyno'r rhaglen.

3.34 Un allbwn allweddol ar gyfer mesur llwyddiant Eco-Sgolion yw mesur cynnydd dyfarniadau (sef y nifer o ysgolion a gofrestrwyd sy'n codi un lefel dyfarniad), gan fod y metrig yn helpu dangos ymroddiad a chynnydd parhaus ysgolion drwy'r rhaglen.


3.35 Cyn y pandemig, roedd cynnydd dyfarniadau yng Nghymru yn tyfu ar raddfa sylweddol (Ffigur 3.2), gyda 342 allan o 1530 o ysgolion wedi codi un lefel dyfarniad erbyn diwedd 2018/19: 124 y cant o'r targed a gytunwyd o 275 o ysgolion. Arweiniodd llwyddiant y rhaglen yn 2018/19 at gynnydd mewn targedau y flwyddyn ganlynol.

3.36 Er cael blwyddyn arall o gynnydd cyson, arweiniodd ymddangosiad Covid-19 yng Nghymru yn Ch4 o 2019/20 at nifer o asesiadau Baner Werdd yn cael eu canslo yn sgil cyfyngiadau ac ysgolion yn cau ledled Cymru ar 20 Mawrth 2020. Adlewyrchwyd hyn yng nghyfanswm cynnydd dyfarniadau ysgolion ychydig is na'r targed o 300 o ysgolion, erbyn diwedd 2019/20.

3.37 Yn sgil y pandemig, cafodd targedau a osodwyd ar y nifer o ysgolion yn codi lefel dyfarniad eu newid ychydig er mwyn cynnwys cyflwyno rhithiol a rhoi ystyriaeth i ysgolion yn cau, ac adlewyrchwyd hyn trwy leihau targedau ar gyfer y cyfnodau 2020/21 a 2021/22. Yn 2020/21 roedd cwymp amlwg yn y cyflymder roedd ysgolion yn camu ymlaen trwy eu lefelau dyfarnu. Roedd hyn i raddau helaeth oherwydd heriau wrth gynnal ymroddiad ysgolion pan mai'r prif flaenoriaethau oedd cael dysgwyr i gynefino â dull newydd o ddysgu yn ystod Covid-19, a'r pwysau ychwanegol roedd ysgolion yn eu hwynebu. I lawer o ysgolion roedd hyn yn golygu llai o amser i ddatblygu Eco-Sgolion yn effeithiol.

3.38 Awgryma data fod cynnydd dyfarniadau ysgolion wedi bod yn dychwelyd yn araf at dwf graddol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22. Gwelodd Eco-Sgolion gynnydd graddol mewn ysgolion cofrestredig yn camu ymlaen trwy un lefel dyfarniad, yn enwedig dros ddau chwarter olaf 2021/22 pan oedd ysgolion yn dychwelyd fesul cam at gyflwyno wyneb yn wyneb ac effeithiau'r pandemig yn dechrau cilio. Ar ddiwedd 2021/22, roedd Eco-Sgolion wedi rhagori 138 y cant ar ei darged o 100 o ysgolion yn camu ymlaen un lefel dyfarniad.

**Ffigur 3.2: Cynnydd Dyfarniadau Eco-Sgolion (2018 - 2022) o gymharu â thargedau blynyddol**




**Ffynhonnell:** Data monitro Chwarterol Eco-Sgolion

**Tabl 3.2: Nifer o Eco-Ysgolion Cofrestredig yn codi un lefel dyfarniad (heb gynnwys adnewyddiad platinwm) 2018-22 – wedi eu nodi fesul chwarter ariannol**

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Ch1 | 44 | dd/b | dd/b | 38 |
| Ch2 | 112 | 135[27] | 63 | 75 |
| Ch3 | 134 | | 67 | 96 |
| Ch4 | 342 | 247[28] | 76 | 138 |

[27] Yn 2019/29, adroddodd y rhaglen ar y dangosydd hwn ar gyfer Ch2 a Ch3 gyda'i gilydd.
[28] yn Ch4 (2019/20) cafodd 31 o asesiadau Baner Werdd eu canslo yn sgil cyfyngiadau ac ysgolion yn cau yn sgil Covid-19 a chafodd 14 eu gwthio'n ôl i dymor yr haf gan fod angen mwy o waith ar gyfer dyfarniad Baner Werdd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Targed (blynyddol)** | **275** | **300** | **200** | **100** |

**Ffynhonnell:** Data monitro Chwarterol Eco-Sgolion



MILLER
Research Evaluation Consulting

# 4. Gweithredu a rheoli'r rhaglen

4.1 Mae'r adran hon yn cynnwys canfyddiadau'r adolygiad ynghylch gweithredu a rheoli'r rhaglen gan Cadwch Gymru'n Daclus. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar asesu effeithiolrwydd ei gweithredu rhwng 2018 a 2022, gan gan gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r canlynol:

- Cyllid ac adnoddau a ddefnyddir gan Cadwch Gymru'n Daclus i hwyluso gwaith y rhaglen yng Nghymru
- Rheoli a llywodraethu Eco-Sgolion
- Marchnata a hyrwyddo'r rhaglen
- Rôl Swyddogion Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus a'r cymorth a ddarperir i ysgolion
- Pa mor ddefnyddiol yw'r hyfforddiant a'r adnoddau ar-lein a gynhyrchir gan Cadwch Gymru'n Daclus ar gyfer y rhaglen
- Cysylltiadau rhwng Eco-Sgolion a chynlluniau a phartneriaethau rhanbarthol / cenedlaethol.

4.2 Mae'r bennod wedi ei seilio ar wybodaeth a gasglwyd yn ystod cyfweliadau gyda Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus a phartneriaid y rhaglen. Mae hefyd yn cynnwys, lle bo'n addas, ddadansoddiad o waith maes gydag ysgolion astudiaethau achos a'r arolwg ar-lein o ysgolion a gofrestrir gyda'r rhaglen.

### Cyllid ac Adnoddau

4.3 Derbyniodd y rhaglen £420,000 o gyllid fel rhan o'i chyllideb dair-blynedd flynyddol ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2020 hyd Fawrth 2023, cynnydd o £100,875 o flynyddoedd blaenorol (cyfwerth â chynnydd o 32 y cant)[29]. Defnyddiwyd bron dri chwarter y gyllideb hon i ariannu

[29] Rhwng Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2020 derbyniodd y rhaglen gyllid blynyddol o £319,125 gan Lywodraeth Cymru.

tîm hanfodol o 9.3 o swyddi cyfwerth ag amser llawn[30], wedi eu ffurfio o aelodau o staff o Adran Addysg Cadwch Gymru'n Daclus.

4.4 Cefnogwyd y rhaglen hefyd trwy adnoddau ychwanegol a ddarparwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus, i gadw'r rhaglen i redeg yn effeithlon. Ar adeg y gwaith maes, roedd Swyddogion Eco-Sgolion yn y broses o ysgrifennu ceisiadau i gyrchu cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill i dalu costau ychwanegol y rhaglen.

4.5 Erbyn 2022, roedd 1,494 wedi cofrestru ac yn cymryd rhan yn y rhaglen yng Nghymru. Er mwyn darparu'r lefelau angenrheidiol o gymorth, ariannwyd naw Swyddog Eco-Sgolion (gan gynnwys un Uwch-Swyddog Eco-Sgolion) i weithredu'r rhaglen. Roedd y Swyddogion Eco-Sgolion yn hwyluso gweithdai, yn cyflwyno sesiynau hyfforddi athrawon ac yn cynnig cymorth cyffredinol, ac roeddent yn gyfrifol am asesu cynnydd ysgolion a chyflwyno eu gwobrau.

4.6 Adroddwyd yn ystod cyfweliadau gyda Swyddogion Eco-Sgolion fod y cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2018-22 wedi bod yn ddigonol i allu cyrraedd ysgolion yn rhesymol ledled Cymru. Y teimlad oedd bod y rhaglen wedi gallu addasu a defnyddio adnoddau dynol yn fwy effeithiol yn ystod y pandemig, yn sgil y symud at gyflwyno ar-lein a newidiadau cysylltiedig mewn perthynas rithiol ag ysgolion. Roedd dau o Swyddogion Eco-Sgolion yn nodi bod Covid-19 wedi arwain at leihad sylweddol mewn costau teithio a chynhaliaeth, a oedd yn helpu cynnal gweithgarwch. Wrth i ysgolion ddychwelyd at gyflwyno wyneb yn wyneb, roedd rhai pryderon bod y costau hyn yn dechrau ailymddangos, yn sgil Swyddogion Eco-Sgolion yn ymweld ag ysgolion eto i roi mathau penodol o gymorth. Roedd hyn yn cynnwys gweithareddau fel diwrnodau asesu ar gyfer dyfarniadau, gyda'r tîm yn teimlo bod hyn yn gweithio'n fwy effeithiol wyneb yn wyneb er mwyn ennyn hynny ag sy'n bosibl o ymrwymiad ysgol. Ar adeg y gwaith maes, dywedwyd bod Cadwch Gymru'n Daclus yn edrych ar

[30] Mae hwn wedi ei ffurfio o gyfuniad o bum aelod amser llawn a saith aelod rhan-amser o staff; mae dau o'r rheini sy'n gweithio'n rhan-amser ar Eco-Sgolion yn gweithio hefyd ar brosiectau eraill o fewn Cadwch Gymru'n Daclus.

sut y gallant wneud y defnydd gorau bosibl o adnoddau wrth ddefnyddio dull cyflwyno heibrid fel y ffordd orau o gefnogi ysgolion yn dilyn codi mesurau'r pandemig.

4.7 Yn wyneb codiadau cyflog a heriau fel yr argyfwng costau byw, roedd pryderon dealladwy gan dîm Eco-Sgolion ynghylch cadw staff a chynnal gweithgarwch y rhaglen ar yr un raddfa. Her a godwyd gan un Swyddog Eco-Sgolion oedd cadw cydbwysedd rhwng mwy o ysgolion yn cofrestru â'r rhaglen, a'r graddau o gymorth roedd Cadwch Gymru'n Daclus yn gallu ei ddarparu i ysgolion. Roedd Swyddogion Eco-Sgolion a oedd yn gyfrifol am nifer llai o awdurdodau lleol yn gallu darparu mwy o gymorth i'r ysgolion yn eu rhanbarth. Er enghraifft, trwy drefnu cyfarfodydd wedi eu targedu a'u teilwra at anghenion yr ysgol unigol yn hytrach nag anfon negeseuon e-bost unffurf a darparu cymorth cyffredinol. Roedd pryder y gallai Swyddogion Eco-Sgolion gael eu hymestyn a'u gwasgaru'n rhy denau wrth i weithgarwch y rhaglen dyfu a'r nifer o ysgolion mewn gwahanol ardaloedd lleol a oedd yn cymryd rhan ynddi gynyddu. Esboniodd un Swyddog Eco-Sgolion fod ei ardal yn ymestyn dros ddau awdurdod lleol yng Nghymru lle'r oedd dros 300 o ysgolion yn ymwneud â'r rhaglen. Er bod graddau uwch o weithgarwch yn cael ei weld fel llwyddiant, y teimlad oedd mai cyfyngedig fyddai gallu'r tîm Eco-Sgolion gyda'r adnoddau dynol presennol i barhau i gryfhau a chefnogi cysylltiadau gyda phob ysgol i'r un ansawdd a graddau.

4.8 Un posibilrwydd a drafodwyd mewn gweithdy byr gyda thîm Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus oedd y cyfle i benodi Swyddog Eco-Sgolion i bob awdurdod lleol trwy fwy o gyllid grant[31]. Pe bai'r cyllid yn cynyddu, teimlai tîm Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus y byddent yn gallu cryfhau'r cymorth a'r berthynas gyda'r ysgolion a'r partneriaid awdurdodau lleol presennol, gan fynd ati hefyd i geisio ennyn

[31] Cyflog blynyddol cyfartalog Swyddog Eco-Sgolion llawn-amser yw £37,000 gyda chost ychwanegol untro i Cadwch Gymru'n Daclus o £2,400 ar gyfer cynefino. Dengys dadansoddiad o'r ffigurau hyn y byddai ar y rhaglen, o dan y senario hwn, angen £402,000 o gyllid grant ychwanegol i gyflogi deg cyfwerth ag amser llawn o aelodau staff i'r tîm a dyblu'r capasiti, er mwyn cael Swyddog Eco-Sgolion i bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

diddordeb ysgolion newydd nad ydynt efallai yn gwybod am y rhaglen, neu'n gwybod amdani ond wedi colli diddordeb. Awgrymwyd mai mantais arall cynyddu cyllid ar gyfer adnoddau Swyddogion Eco-Sgolion fyddai y gallai helpu cynyddu cysondeb ar draws ysgolion Baner Werdd. Roedd aelodau o'r tîm yn cydnabod bod problem gydag ansawdd Eco-ysgolion sydd â statws Baner Werdd. Esboniwyd bod rhai ysgolion Baner Werdd sy'n mynd ati o ddifrif i ymwreiddio gweithgareddau, tra bod eraill yn ymdrin â'r rhaglen mewn llai o ddyfnder. Yn ogystal, roedd Swyddogion Eco-Sgolion yn nodi problemau gyda Cydlynwyr Eco mewn ysgolion yn gadael eu rôl, a graddau gweithgarwch yr ysgol honno gyda'r rhaglen yn lleihau o ganlyniad. Roedd adnoddau ychwanegol ar gyfer eu neilltuo i ysgolion â newidiadau staff yn cael eu gweld fel ffordd o helpu ysgolion i gynnal eu dyfarniadau a'u cynnydd gyda'r rhaglen.

4.9 Awgrymwyd ymhellach y byddai mwy o adnoddau yn ysgafnhau pwysau ar aelodau staff Cadwch Gymru'n Daclus ac yn rhoi amser ychwanegol iddynt i weithio ar feysydd penodol o ddiddordeb megis llythrennedd newid hinsawdd, yr economi gylchol a llesiant. Gallai hyn gynnwys cymryd rhan mewn hyfforddiant ehangach, datblygu adnoddau, rhwydweithio, datblygu digwyddiadau dathlu blynyddol a chyflwyno gweithdai yn lleol mewn ysgolion.

4.10 O gymryd popeth gyda'i gilydd, roedd teimlad cyffredinol o optimisitaeth ymhlith Swyddogion Eco-Sgolion y byddai cynnal neu gynyddu cyllid gan Lywodraeth Cymru yn galluogi'r rhaglen i barhau i lwyddo. Yn benodol, gallai hwyluso gwaith ymarferol gyda'r ysgolion presennol ac ennyn diddordeb rhagor o ysgolion i gofrestru yn y dyfodol.

**Rheoli a Llywodraethu**

4.11 O ran y berthynas rhwng tîm Eco-Sgolion a Llywodraeth Cymru, roedd staff gweithredu o fewn Cadwch Gymru'n Daclus yn canmol y

cymorth roeddent wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru wrth weithredu'r rhaglen dros y blynyddoedd.

4.12 Teimlai rhanddeiliaid o Cadwch Gymru'n Daclus fod Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi eu gwybodaeth fel sefydliad gan ddweud eu bod yn mynd ati fwyfwy i geisio cysylltu Eco-Sgolion ar draws meysydd eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr adrannau Trafnidiaeth ac Addysg. Dywedodd y tîm Cadwch Gymru'n Daclus eu bod wedi ceisio gwthio a chydgysylltu gweithgareddau gyda thîm Addysg Llywodraeth Cymru, ar ôl darganfod bwlch gwybodaeth, i helpu dysgwyr ar faterion fel newid hinsawdd, bioamrywiaeth a dŵr, gan gysylltu â blaenoriaethau ar gyfer addysg yng Nghymru. Roedd Swyddogion Eco-Sgolion wedi cynnig datblygu cyfres o adnoddau ar-lein at ddatblygiad plant ac addysged i lenwi'r bwlch hwn i'r adran Addysg, ond dywedent nad oeddent wedi gallu mynd â'r gwaith hwn ymhellach oherwydd capasiti cyfyngedig.

4.13 Roedd Swyddogion Cadwch Gymru'n Daclus yn nodi cyfleoedd i adrannau eraill Llywodraeth Cymru asesu'n feirniadol gyfleoedd ar y cyd i ddysgu, fel y gellir datlbygu adnoddau ar-lein gan Eco-Sgolion yn y dyfodol a fydd yn gydnaws â blaenoriaethau sy'n gorgyffwrdd ac yn helpu cyflawni canlyniadau trawsadrannol.

**Marchnata a Hyrwyddo**

4.14 Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3, roedd un o brif amcanion rhaglen Eco-Sgolion ar gyfer 2021/22 yn canolbwyntio ar ehangu a chryfhau gweithgareddau'r rhaglen. Defnyddiodd Eco-Sgolion amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i hyrwyddo buddion y rhaglen, lledaenu'r arferion gorau a denu ysgolion newydd. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio cylchlythyr Eco-Sgolion, y wasg a sianelau cyfryngau cymdeithasol, astudiaethau achos, rhwydweithio/digwyddiadau, partneriaethau a chysylltu ag ysgolion yn unigol. Yn yr adran hon, amlinellwn sut mae gweithgarwch marchnata a hyrwyddo rhwng 2018-2022 wedi helpu'r

rhaglen i gynyddu diddordeb a chyrraedd rhwydwaith ehangach o ysgolion yng Nghymru.

4.15 Teimlai Swyddogion Eco-Sgolion fod cyflwyno cylchlythyr newyddion dwyieithog Eco-Sgolion yn 2019-20 wedi bod yn arf defnyddiol i helpu ennyn diddordeb ysgolion a'r gymuned ehangach a dangos llwyddiant y rhaglen. Awgryma dadansoddiad o'r data fod y cylchlythyr wedi cael derbyniad da yn 2022, gyda dros 2,600 o olygon o rifynnau blaenorol, gan olygu cyfartaledd o 150 o olygon i bob cylchlythyr[32]. Dywedodd un Swyddog Eco-Sgolion y gall cyrhaeddiad y cylchlythyrau fod yn ehangach hefyd, er enghraifft, mewn achosion lle mae ysgolion yn anfon y cylchlythyr ymlaen at rieni a staff trwy eu sianelau e-gyfathrebu eu hunain, a'i osod ar fyrddau du o fewn yr ysgol i staff eraill ei ddarllen.

4.16 Arf pwysig arall ar gyfer hyrwyddo'r rhaglen ac ymwneud â mwy o ysgolion, a nodwyd gan ddau Swyddog Eco-Sgolion, oedd cymorth a chefnogaeth gan yr awdurdodau lleol. Teimlad y Swyddogion Eco-Sgolion hyn oedd y byddai'r gweithgarwch gydag ysgolion yn fwy llwyddiannus mewn awdurdodau lleol lle'r roedd cysylltiadau o fewn yr awdurdod lleol yn gallu cyfleu gwybodaeth am y rhaglen eu hunain a defnyddio rhwydweithiau o gysylltiadau i sicrhau cyrhaeddiad ehangach o ysgolion. Yn ogystal, roedd canfyddiadau'r arolwg yn amlygu'r rôl y gall awdurdodau lleol ei chwarae wrth hyrwyddo Eco-Sgolion. Dywedodd cyfran nodedig o staff ysgolion a arolygwyd (32 allan o 80) eu bod wedi clywed am y rhaglen am y tro cyntaf trwy eu hawdurdod lleol.

4.17 O ran hyrwyddo buddion y rhaglen, teimlai un swyddog Eco-Sgolion fod rhwydweithio yn ffurf mae farchnata ar raddfa eang mae pobl yn ymddiried ynddi. Roedd yn amlygu'r pwysigrwydd o gryfhau a sefydlu cysylltiadau gydag ysgolion trwy ddigwyddiadau rhwydweithio, atgyfeiriadau, y Consortia a chyswllt cyson un-i-un rhwng Swyddogion Eco-Sgolion a Cydlynwyr Eco. Roedd ymatebion i'r arolwg ar-lein yn

[32] Ffigurau sy'n deillio o ddata monitro Eco-Sgolion.

amlygu llwyddiant y dulliau hyn gyda 13 allan o'r 80 o ymatebwyr wedi cael gwybod am y rhagen trwy Cadwch Gymru'n Daclus yn cysylltu'n uniongyrchol â nhw, deg allan o 80 o ymatebwyr wedi cael gwybod trwy ysgol arall, a chwech arall o'r 80 o ymatebwyr wedi clywed am Eco-Sgolion trwy ddigwyddiad rhwydweithio a phedwar allan o 80 o ymatebwyr wedi dod i gymryd rhan trwy eu Consortia.

4.18 Strategaeth farchnata arall a amlygwyd gan ymatebydd arall fel un a fu'n arbennig o effeithiol oedd defnyddio'r wasg a chyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo digwyddiadau a rhannu anecdotau, straeon, gweithgareddau a diweddariadau eraill cysylltiedig ag Eco-Sgolion. Roedd un Swyddog Eco-Sgolion yn nodi bod y rhaglen wedi denu ymateb da trwy gyfryngau cymdeithasol, gyda chyfanswm o 65,693 o argraffiadau (pob a oedd wedi gweld postiad, hyd yn oed os nad oeddent wedi clicio, rhoi sylw, nac ymwneud fel arall â'r postiad) wedi eu derbyn rhwng Facebook, Instagram a Twitter rhwng misoedd Ebrill a Mehefin 2022. Yn ogystal, crybwyllwyd Eco-Sgolion 23 o weithiau yn y wasg dros yr un cyfnod, gan gynnwys straeon o'r ymgyrch i rwystro baw cŵn[33]. Teimlad Cydlynydd Eco o un ysgol uwchradd oedd, er bod dulliau marchnata presennol Eco-Sgolion wedi bod yn ddefnyddiol, gallai'r rhaglen elwa o geisio cysylltu â dysgwyr ysgolion uwchradd trwy sianelau cyfryngau cymdeithasol mwy newydd, fel TikTok.

### Swyddogion Eco-Sgolion

4.19 Un thema gyffredin a amlygwyd yn ystod cyfweliadau gyda Swyddogion Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus oedd y berthynas bosibl rhwng ysgolion sy'n ennill statws Baner Werdd a'r nifer o staff sy'n cyflwyno'r rhaglen. Teimlai Swyddogion Eco-Sgolion mai'r cysylltiadau unigol a ffurfiwyd rhwng Swyddogion Eco-Sgolion a'r Cydlynydd Eco o fewn ysgolion oedd yr allwedd i lwyddiant ac o

[33] Ymgyrch fel rhan o Caru Cymru i helpu mynd i'r afael â chŵn yn maeddu, gan annog perchnogion i godi baw ar ôl eu hanifeiliaid anwes.

gynnal ymrwymiad â'r rhaglen. Roedd hyn oherwydd po fwyaf y staff oedd yn ymwneud â chyflwyno'r rhaglen, y mwyaf penodol ac addas oedd y cymorth y gallent ei ddarparu i ysgolion.

4.20 Ymhlith yr holl ysgolion astudiaethau achos a gyfwelwyd a'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein, adroddwyd am werthfawrogiad o'r cymorth a'r canllawiau a ddarparwyd gan eu Swyddog Ysgolion Cadwch Gymru'n Daclus a ganmolwyd am fod yn effeithlon, creadigol a chadarnhaol:

*"Mae ein Swyddog Eco-Sgolion yn agored iawn, yn rhagweithiol ac yn bresennol."*

Cydlynydd Eco, ysgol gynradd astudiaeth achos, 2022

4.21 Cafodd y cymorth a ddarparwyd gan Swyddogion Eco-Sgolion ei ganmol yn fawr gan ysgolion yr astudiaethau achos, lle dywedodd staff fod y cymorth hwn yn ddigonol o ran cwmpas ac yn cael ei addasu ar gyfer anghenion pob ysgol. Roedd un ysgol astudiaeth achos yn canmol y berthynas rhwng Swyddogion Eco-Sgolion, Cydlynwyr Eco, dysgwyr, rhieni, ac aelodau o'r gymuned ehangach. Esboniai'r Cydlynydd Eco fod dyddiau asesu wyneb-yn-wyneb yn cynnwys yr holl ysgol, ac y byddai dysgwyr yn edrych ymlaen at ddangos eu cynnydd gyda'u Swyddog Eco-Sgolion.

4.22 Roedd cyfanswm o 51 allan o 80 o ymatebwyr yn cytuno'n gryf a 24 allan o 80 o ymatebwyr yn cytuno bod Swyddogion Eco-Sgolion yn darparu cymorth digonol pan fo angen. Roedd 51 pellach o'r 80 o ymatebwyr yn cytuno'n gryf a 22 allan o 80 o ymatebwyr yn cytuno bod cyfathrebu da rhwng Swyddogion Eco-Sgolion a'u hysgol.

4.23 Roedd blwch testun agored yn yr arolwg ar-lein yn gwahodd ymatebwyr i gyflwyno sylwadau ychwanegol ar effeithiolrwydd cymorth Eco-Sgolion. Denodd hyn bump allan o 80 o ymatebwyr i rannu enghreifftiau cadarnhaol penodol o gymorth a roddwyd gan Swyddogion Eco-Sgolion.

*"Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gymorth anhygoel ac maen nhw yno bob amser os oes arnoch angen unrhyw help. [Enw] yw ein*

*Swyddog Eco-Sgolion ers llawer blwyddyn ac mae bob amser mor frwdfrydig ynghylch popeth mae'r ysgol a'r disgybion wedi ei wneud."*

Ymatebydd Holiadur Eco-Sgolion, 2022

4.24 Adroddwyd hefyd gan rai Swyddogion Eco-Sgolion a gyfwelwyd fod ysgolion weithiau, wrth iddynt ddatblygu a chynyddu eu rhan yn y rhaglen, yn canfod eu bod yn elwa o gael cymorth llai dwys. Roedd cynhyrchu gweithgarwch, cyflwyno cynnwys, a rhan dysgwyr yn y rhaglen yn dod yn ail natur i'r fath raddau iddynt fel bod ysgolion yn dod yn llai dibynnol ar geisio canllawiau a chymorth allanol. Y teimlad gan Swyddogion Eco-Sgolion oedd bod hyn yn arwydd o sut roedd cymorth wedi llwyddo i alluogi ysgolion i gael y cyfle a'r wybodaeth i barhau â'u taith Eco-Sgolion yn annibynnol.

**Gweithgarwch gydag ysgolion Cynradd ac Uwchradd**

4.25 O ran ymwneud ag ysgolion cynradd ac uwchradd, roedd cyfweliadau gyda staff Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus ac ysgolion astudiaethau achos, yn arwain y tîm ymchwil at ddod i'r casgliad bod ymwneud â'r rhaglen yn fwy anodd ar y lefel uwchradd. O ganlyniad, roedd y tîm Eco-Sgolion wedi dewis yn fwriadol i ddod â swyddogion â phrofiad o ysgolion uwchradd i'r tîm, er mwyn helpu pontio'r bwlch mewn ysgolion newydd.

4.26 Roedd Swyddogion Eco-Sgolion yn nodi nifer o heriau wrth ennyn diddordeb ysgolion uwchradd yn y rhaglen. Yn gyntaf, y teimlad oedd bod ysgolion mawr, yn enwedig ysgolion uwchradd mwy, yn ei chanfod yn fwy anodd deall a gweithredu gwaith trawsgwricwlaidd ac ysgol-gyfan, oherwydd pwysau amser ar staff i gael eu rhyddhau o'r ystafell ddosbarth ac ymwreiddio gwaith Eco-Sgolion mewn cynllunio gwersi ar draws y cwricwlwm. Yn ail, dywedodd Swyddogion Eco-Sgolion fod ysgolion uwchradd yn profi blaenoriaethau a oedd yn cystadlu yn eu herbyn o ran arholiadau ac adolygu, yn enwedig gyda dysgwyr hŷn, a all ei gwneud yn anodd ymrwymo amser i'r rhaglen. Yn ogystal, mewn rhai achosion, roedd llwyddiant ysgol yn y rhaglen

yn ddibynnol ar un athro, gan olygu bod parhad yn cael ei golli os a phryd oedd y person hwnnw'n gadael yr ysgol. Cafodd yr her hon ei chadarnhau yn ystod gwaith maes ar gyfer yr adolygiad hwn, lle mai'r bwriad oedd cynnwys ysgolion uwchradd a oedd wedi ymddieithrio yn y sampl, ond nid oedd hyn yn bosibl lle'r oedd Cydlynwyr Eco wedi gadael yr ysgol, wedi rhoi'r gorau i swydd Cydlynydd Eco a/neu nad oedd cymryd rhan yn cael ei hystyried yn flaenoriaeth i'r ysgol.

4.27 O gymharu, ar y lefel gynradd, teimlai Swyddogion Eco-Sgolion fod y cwricwlwm yn cynnig mwy o amser i ddysgwyr iau gymryd rhan yn yr amrywiol fathau o weithgareddau ar gyfer y rhaglen a'i fod yn hwy hyblyg ar gyfer caniatáu dull ysgol-gyfan.

**Adnoddau ar-lein, hyfforddiant a digwyddiadau i ysgolion**

4.28 Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3, roedd rhaglen Eco-Sgolion wedi cyflwyno amrywiaeth o gymorth i ysgolion erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22, gan gynnwys datblygu ac amlygu offer ac adnoddau defnyddiol, cyflwyno hyfforddiant i athrawon a chynnig cyfleoedd rhwydweithio a dysgu i ysgolion trwy weithdai a digwyddiadau.

4.29 Mae'r adran hon yn amlinellu adborth gan Swyddogion Eco-Sgolion, ysgolion astudiaethau achos ac ymatebwyr i'r arolwg ar effeithiolrwydd a llwyddiant y gweithgareddau hyn, yn ogystal â gwelliannau posibl.

*Adnoddau ar-lein*

4.30 Mae cyrhaeddiad a phoblogrwydd y rhaglen yn golygu bod Cadwch Gymru'n Daclus wedi datblygu nifer o adnoddau sydd ar gael am ddim ar-lein i ysgolion, i'w helpu i hwyluso'r gwaith o'i chyflwyno yn eu hysgol. Roedd yr adnoddau hyn yn cynnwys gwybodaeth ar brosesau Eco-Sgolion fel yr adolygiad amgylcheddol, cynllun gweithredu, pecyn cymorth sbwriel, adnodd diwrnod gweithredu a chanllawiau ar amrywiol welliannau amgylcheddol ar draws naw pwnc Eco-Sgolion.

Mae'r adnoddau megis yr adolygiad amgylcheddol a'r cynllun gweithredu yn helpu gyda phroses graidd Eco-Sgolion, sy'n hanfodol ar gyfer rhedeg y rhaglen yn llwyddiannus, tra bod y pecynnau cymorth, yr adnoddau a'r canllawiau yn helpu gyda'r gweithgareddau ymarferol a gaiff eu rhedeg gan ysgolion a sicrhau bod cysondeb gyda phrif amcanion y rhaglen.

4.31 Fe wnaeth y tîm Eco-Sgolion o fewn Cadwch Gymru'n Daclus hefyd gynhyrchu adnoddau ar bynciau perthnasol ar ran Llywodraeth Cymru fel yr Adnodd Mislif i ysgolion, yr ymgynghoriad Hawdd ei Ddarllen ar y Cynllun Dychwelyd Ernes, y gystadleuaeth Ein Cymru Ni 2050 a hyrwyddo Dreigiau Ifanc.

4.32 Yn ysgolion yr astudiaethau achos, dywedodd Cydlynwyr Eco a gyfwelwyd fod adnoddau ar-lein Eco-Sgolion wedi cael eu defnyddio fel ffynhonnell o ysbrydoliaeth am syniadau ar hwyluso gwaith y rhaglen o fewn eu hysgol. Dywedodd un Cydlynydd Eco eu bod wedi defnyddio fideos penodol ar lygredd môr wrth gynnal sesiynau ar leihau sbwriel, tra bod un arall wedi defnyddio canllawiau a oedd yn canolbwyntio ar wylio adar i helpu cychwyn gweithgareddau bioamrywiaeth. Soniodd un prifathro ysgol uwchradd a holwyd am sut roeddent wedi cael eu cyfeirio gan eu Swyddog Eco-Sgolion tuag at adnoddau ar Hwb ar gyfer ymwreiddio Eco-Sgolion i'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

4.33 O staff ysgolion a ymatebodd i'r arolwg ar-lein, roedd 22 allan o 80 o ymatebwyr yn cytuno'n gryf a 46 o ymatebwyr yn cytuno bod ganddynt y pecynnau cymorth, canllawiau a'r adnoddau roedd arnynt eu hangen i weithredu rhaglen Eco-Sgolion yn effeithlon ac effeithiol yn eu hysgol. Roedd un ymatebydd yn nodi bod adnoddau ar-lein o ansawdd uchel ac yn symbylu gweithgareddau dysgwyr ac athrawon.

*Hyfforddiant*

4.34 Mae darparu hyfforddiant yn un o'r ffyrdd allweddol mae Eco-Sgolion yn ceisio helpu Cydlynwyr Eco i weithredu rhaglen Eco-Sgolion yn

effeithiol o fewn eu hysgol. Cafodd digwyddiadau hyfforddi i athrawon eu cynnal drwy gydol y flwyddyn gan Cadwch Gymru'n Daclus ar nifer o themâu gan gynnwys meysydd fel 'yn ôl at yr hanfodion', sy'n cysylltu â'r cwricwlwm a newid hinsawdd.

4.35 Roedd nifer bach o Gydlynwyr Eco o fewn ysgolion astudiaethau achos wedi mynychu hyfforddiant i athrawon a oedd yn cael ei redeg gan Cadwch Gymru'n Daclus ac yn teimlo bod y sesiynau wedi gwella a chyfoethogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen o fewn eu hysgolion. Dywedodd un Cydlynydd Eco fod digwyddiadau hyfforddi yn cynnig cyfle iddynt gyfarfod ag athrawon eraill sy'n cyflwyno'r rhaglen i rannau gwybodaeth, profiadau sy'n gyffredin iddynt, a syniadau. Yn wyneb y symudiad at gyflwyno o bell yn ystod Covid-19, dywedodd un Cydlynydd Ecod fod sesiynau rhithiol yn fwy hygyrch ac effeithlon o ran amser i ysgolion, gan ei fod yn cael gwared ar yr angen i deithio er mwyn eu dilyn. Mewn achosion lle nad oedd Cydlynydd Eco ar gael ar gyfer amserau hyfforddi a drefnwyd, argymhellwyd fod Cadwch Cymru'n Daclus yn recordio sesiynau hyfforddi fel y gallai'r rheini nad oedd yn gallu bod yn bresennol ddal i fyny yn eu hamser eu hunain.

4.36 Roedd ymatebwyr i'r arolwg ar-lein hefyd yn rhannu teimladau cadarnhaol ynghylch yr hyfforddiant a gynigid i ysgolion. Roedd cyfanswm o 35 o 80 o ymatebwyr yn cytuno'n gryf a 29 allan o 80 o ymatebwyr yn cytuno bod hyfforddiant Eco-Sgolion i athrawon yn ddefnyddiol ar gyfer cyflwyno'r rhaglen. Yn ogystal, awgrymwyd nifer o gyfleoedd am hyfforddiant pellach i athrawon, gan gynnwys hyfforddiant wedi ei deilwra ar gyfer cyflwyno'r rhaglen o fewn ysgolion arbennig.

4.37 Roedd awydd gan ddau o ymatebydd i'r arolwg a oedd yn gweithio mewn ysgolion arbennig i weld cymorth pellach gan Eco-Sgolion yn ffurf adnoddau ar-lein a hyfforddiant wedi ei addasu'n benodol ar gyfer ysgolion arbennig, ar sail cyd-drafod ag ysgolion arbennig er mwyn deall eu hanghenion. Roedd un ymatebydd i'r arolwg, er enghraifft, yn esbonio ei fod yn gweithio mewn ysgol arbennig Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth gyda 75 y cant o ddysgwyr dieiriau,

sy'n golygu eu bod yn gorfod addasu gweithgareddau Eco-Sgolion ar gyfer anghenion dysgwyr. Roedd ymatebydd arall o ysgol arbennig yn nodi eu bod yn cael anhawster wrth weithredu'r model dan arweiniad dysgwyr a eiriolir gan Eco-Sgolion gan fod eu hysgol yn darparu ar gyfer cyfran uchel blant a oedd ag anableddau dysgu difrifol, gan ei gwneud yn anodd gweithredu hyn mewn ffordd ystyrlon. Roedd yn esbonio nad oedd mwyafrif y dysgwyr yn eu hysgol yn gallu gwneud archwiliad, ac yn lle hynny, y gorau y gallent ei wneud yw grymuso/dangos y ffordd orau o ymddwyn mewn ffordd sy'n gyfrifol yn amgylcheddol. Am y rhesymau hyn, roedd y ddwy ysgol wedi bod yn gyndyn o ymgeisio am Ddyfarniad Baner Werdd.

4.38 Roedd pwyslais hefyd gan un rhanddeiliad a oedd yn gweithio ar y Cwricwlwm i Gymru ynghylch y pwysigrwydd a'r posibiliadau i Eco-Sgolion ymestyn hyfforddiant y tu hwnt i athrawon i gynnwys gwirfoddolwyr. Mewn ysgolion ffydd, er enghraifft, esboniwyd bod Eco-Bwyllgorau yn ymwneud yn aml â'r gymuned leol trwy weithio gyda chynrychiolwyr a gwirfoddolwyr yr eglwys i gyflawni gweithredoedd amgylcheddol ar dir yr eglwys. Cydnabuwyd fod rhai ysgolion yn brin o adnoddau ac amser i gyflwyno'r rhaglen, a bod llawer o wirfoddolwyr eglwysi wedi ymddeol a bod ganddynt fwy o amser rhydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau. O'r herwydd, roeddent yn gweld cyfle i sefydlu rhwydweithiau gwirfoddolwyr i ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen. Gallai'r rhwydweithiau hyn gynnwys gwirfoddolwyr a hyfforddir gan Eco-Sgolion yng nghynnwys a gwaith y rhaglen, y gallai ysgolion bartneriaethu â hwy wedyn i gynnal sesiynau penodol ac wedi eu cynllunio'n dda i ddysgwyr.

*Gweithdai a digwyddiadau i ysgolion*

4.39 Yn ogystal â darparu hyfforddiant, cynhaliodd Eco-Sgolion amrywiaeth o gyfleoedd rhwydweithio a dysgu hefyd i ysgolion trwy weithdai a digwyddiadau lleol a chenedlaethol. Gofynnwyd i ysgolion yr astudiaethau achos ac ymatebwyr i'r arolwg am effaith

gweithgarwch y rhaglen gyda dysgwyr trwy'r rhain, gyda themâu cyffredin yn cynnwys gwell cyfleoedd i rannu gwybodaeth a chynhyrchu syniadau.

4.40 Roedd cyfanswm o 33 allan o 80 o ymatebwyr yn cytuno'n gryf a 25 allan o 80 o ymatebwyr yn cytuno bod gweithdai a digwyddiadau ar gyfer dysgwyr a gyflwynwyd gan y rhaglen wedi bod yn ddiddorol ac ysbrydoledig. Roedd ymatebion i'r arolwg ar-lein yn cynnwys amrywiaeth o enghreifftiau cadarnhaol o lwyddiant y cynlluniau hyn, a'u buddion i'r ysgol.

*"Rydym wedi gwir fwynhau'r gweithdai ar-lein eleni. Mae wedi galluogi'r ysgol i gynnwys pob dosbarth yng Nghyfnod Allweddol 2 ac uwchsgilio'r staff."*

Ymatebydd i Holiadur Eco-Sgolion, 2022

*"Rydym yn bwriadu ailgynnal y gweithgareddau sydd yn y gweithdai ar-lein yn rheolaidd gyda phob dosbarth fel bod pob plentyn yn eu profi yn ystod eu hamser yn ein hysgol."*

Ymatebydd i Holiadur Eco-Sgolion, 2022

4.41 Pan ofynnwyd am effaith y gweithdai ar-lein ar weithgarwch dysgwyr gyda'r rhaglen, dywedodd yr Cydlynydd Eco o un o ysgolion yr astudiaethau achos:

*"Mae'r gweithdai ar-lein mae Eco-Sgolion wedi eu harwain eleni wedi ysbrydoli cyfleoedd dysgu rhagorol yn yr ystafell ddosbarth ac wedi helpu athrawon i gyflwyno dysg pwrpasol sy'n gysylltiedig â rhaglen Eco-Sgolion. Mae hefyd wedi helpu datblygu eu hyder wrth drafod Eco-Sgolion gyda'u dosbarth."*

Ymatebydd i Holiadur Eco-Sgolion, 2022

4.42 Yn ogystal, amlygwyd nifer o gyfleoedd am weithdai a digwyddiadau pellach i ysgolion, gan gynnwys sesiynau i'r Cyfnod Sylfaen[34] yn y dyfodol. Teimlai un ysgol, er enghraifft, fod y gweithdai digidol a

[34] Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn tair i saith oed yng Nghymru, a gyflwynwyd ym mis Medi 2010.

fynychwyd ganddynt y flwyddyn gynt, er eu bod wedi eu mwynhau, wedi eu targedu'n fwy tuag at ddysgwyr ym Mlwyddyn 3 ac uwch. Roedd ymatebydd arall i'r arolwg hefyd yn rhannu'r farn hon, gyda'r awgrymu yr hoffent weld gweithdai clwstwr ar draws grwpiau blynyddoedd iau. Cafodd y cysyniad o ymwneud â blynyddoedd cynnar neu oedrannau cyn ysgol ei nodi gan dîm gweithredu Eco-Sgolion hefyd, a oedd ag awydd i ymestyn rhai gweithgareddau i gynnwys "Eco-Tots".

4.43 Er bod rhaglen Eco-Sgolion yn cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb cyn Covid-19, cydnabuwyd gan Swyddogion Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus fod cyflwyno rhithiol yn ystod y pandemig wedi cynnig cyfleoedd i ymwneud â dysgwyr o gyrhaeddiad ehangach o ysgolion. Er enghraifft, adroddwyd bod dros 300 o ddysgwyr o ddeg gwahanol ysgol yng Nghymru wedi mynychu un gweithdy yn ystod y cyfnod clo. Teimlai un ymatebydd i'r arolwg fod y sesiynau hyn yn ddefnyddiol fel ffordd o gymryd lle'r gefnogaeth wyneb yn wyneb nad oeddent wedi gallu ei chael yn ystod anterth y pandemig gan gynnwys ymweliadau gan eu Swyddog Eco-Sgolion ac asesiadau.

4.44 Ar adeg y gwaith maes, roedd Swyddogion Eco-Sgolion yn nodi bod y rhaglen yn pontio at ddulliau heibrid, ar ôl cynnal ei ddigwyddiad wyneb yn wyneb cyntaf ers cychwyn y pandemig ar gyfer yr Eco-Bwyllgor Cenedlaethol ym mis Mehefin 2022.

**Partneriaethau**

4.45 Mae cydweithio rhwng Eco-Sgolion a phartneriaid ehangach yn cynnig cyfle a fydd o fantais i'r ddwy ochr i bob mathau o fudiadau ac ymgyrchoedd amgylcheddol. O fewn Cymru, mae rhaglen Eco-Sgolion wedi sefydlu cysylltiadau partneriaeth â sawl sefydliad allweddol mewn gwahanol sectorau gan gynnwys:

- Maint Cymru: elusen sy'n gweithio i amddiffyn coedwigoedd trofannol a chodi ymwybyddiaeth ynghylch dadgoedwigo.
- WWF Cymru: ymladd i adfer ac amddiffyn natur Cymru.

- Dŵr Cymru: mae'n gyfrifol am gyflenw dŵr yfed yng Nghymru a chael gwared ar ddŵr gwastraff a gynhyrchir.
- Plantlife: gweithio i dynnu sylw at flodau gwyllt, planhigion a ffyngau Cymru a diogelu eu dyfodol
- Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
- Cyfeillion y Ddaear
- Caffi Trwsio Cymru
- Cynllun Ysgolion Iach.

4.46 Ar lefel ysgol, roedd amryw o enghreifftiau a adroddwyd gan Cydlynwyr Eco o ysgolion yr astudiaethau achos o Eco-Bwyllgorau, athrawon a rheini, a oedd yn ysgogi cynllunio i bartneriaethu gyda'u hawdurdod lleol, grwpiau lleol a / neu busnesau i gydweithio ar weithgareddau Eco-Sgolion. Mewn rhai achosion, roedd ysgolion yn mynd at sefydliadau a dargedwyd i ymgeisio am grantiau, cyfraniadau neu fathau eraill o gymorth ac adnoddau ganddynt. Dywedodd un Cydlynydd Eco o ysgol astudiaeth achos fod hyn yn cynnwys gweithio gyda chwmni trafnidiaeth rhiant, a oedd yn cynnig gwasanaethau trafnidiaeth i ddysgwyr yn ystod gweithgareddau Eco-Sgolion. Caiff manylion pellach o sut roedd ysgolion yn integreiddio gweithgareddau gyda phartneriaid ehangach a'r gymuned eu trafod yn Adran 5.

4.47 Mae'r adrannau isod yn amlinellu adborth gan sefydliadau partner ar berthnasedd ac effaith eu partneriaeth ag Eco-Sgolion.

*Canlyniadau partneriaethau*

4.48 Oherwydd y ffordd mae rhaglen Eco-Sgolion wedi hen sefydlu ei hun ledled Cymru, a'r berthynas gadarnhaol mae wedi ei meithrin gydag ysgolion, gellir gweld Eco-Sgolion fel partner dibynadwy i sefydliadau sy'n ymwneud â newid hinsawddd. O ran themâu allweddol o bwysigrwydd, dangosodd cyfweliadau â phartneriaid Eco-Sgolion y gellir cysylltu perthnasedd Eco-Sgolion â'r meysydd craidd canlynol o ddiddordeb:

- Ymwybyddiaeth

- Addysg
- Cydweithio
- Gweithio tuag at nodau cyffredin

4.49 O ran yr hyn mae'r rhaglen yn ei gynnig i randdeiliaid ehangach, mae amrywiaeth pynciau Eco-Sgolion yn galluogi nifer o bwyntiau mynediad y gall sefydliadau allanol gydweithio trwyddynt a chynyddu eu cyfleoedd gweithgarwch eu hunain gyda phobl ifanc a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i sefydliadau fel Dŵr Cymru, sydd â rhwymedigaeth fel cwmni dŵr dielw i gyflwyno rhaglen i ysgolion sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a chynaliadwyedd i ysgolion a hyrwyddo negeseuon ymgyrchoedd Dŵr Cymru ar effeithlonrwydd dŵr, lleihau camddefnyddio carthffosydd a'r cylch dŵr. Er enghraifft, yn 2022 roedd yn ofynnol i Dŵr Cymru gysylltu â 73,000 o ddysgwyr. Yn gyffredinol, mae'r sefydliad yn targedu 95 y cant o'r gwaith cyflwyno cynnwys i ysgolion ar y lefel gynradd, gan eu bod yn credu mai dyma lle y gellir cyflawni fwyaf o newid a dylanwadu ar ymddygiad dros yr amgylchedd:

*"Mewn gwirionedd credwn mai yng Nghyfnod Allweddol 2 y gallwn gael y mwyaf o effaith, fel bod dysgwyr yn ddigon hen i ddeall rhai o'r negeseuon mwy cymhleth ond yn ddigon ifanc i ddal i gael eu cyffroi ganddynt a mynd adref i siarad gyda rhieni amdanynt."*

Un o Randdeiliaid Dŵr Cymru, 2022

4.50 Roedd y sawl a gyfwelwyd o Dŵr Cymru yn sylweddoli bod un o bynciau Eco-Sgolion yn canolbwyntio'n benodol ar ddŵr – gan roi cyfle i gyflawni gwaith ar y cyd â dysgwyr ysgolion cynradd a fyddai'n ategu ac yn gorgyffwrdd â'u blaenoriaethau ac amcanion eu hunain. Fel sefydliad, roeddent yn gweld y gwaith partneriaeth roeddent wedi'i gyflawni gyda rhaglen Eco-Sgolion fel rhan allweddol o'u strategaeth wrth edrych tua'r dyfodol.

4.51 Yn ogystal â helpu i ennyn diddordeb, roedd cyfle hefyd i sefydliadau'n ymwneud â hinsawdd i helpu cyflwyno elfennau ymarferol y rhaglen. Mae ysgolion sy'n gweithio tuag at y saith cam yn

creu mwy o ofyn am arbenigedd technegol er mwyn cyflawni eu huchelgeisiau am brosiectau. Er enghraifft, mae ysgolion sy'n ceisio lleihau eu gwastraff a'u defnydd o ddŵr yn creu cynnydd yn y galw am allgymorth addysgol gan Dŵr Cymru. Yn yr un modd, mae ysgolion sy'n dymuno ennill gwybodaeth fwy ymarferol ar gynaliadwyedd a'r economi gylchol yn creu angen am gyfnewid gwybodaeth trwy bartneriaeth â Chaffi Trwsio Cymru. Wrth i ysgolion sy'n gweithio tuag at eu gwobrau ddechrau gweithredu newidiadau, caiff cyfle naturiol ei greu i ddefnyddio gwasanaethau partneriaid allanol.

4.52 Adroddwyd yn helaeth gan sefydliadau partner mai un o fanteision penodol y rhaglen oedd y gallu i gydweithio a defnyddio cysylltiadau a rhwydwaith Eco-Sgolion i hwyluso eu gwaith eu hunain. Dywedodd Maint Cymru, er enghraifft, y byddent wedi gwneud llai o gynnydd heb Eco-Sgolion, ac y byddent wedi treulio mwy o amser yn datblygu cysylltiadau, a llai o amser yn cyflawni eu gweithgareddau. Roeddent, o ganlyniad, yn gallu gweithio gyda chyllideb farchnata fach iawn. Yn yr un modd, roedd rhanddeiliaid o'r Rhaglen Ysgolion Iach yn esbonio y byddai'n rhaid iddynt, heb Eco-Sgolion, dreulio mwy o amser yn addysgu am yr agweddau amgylcheddol sy'n ymwneud â'u cylch gwaith. Roedd hyn yn galluogi Ysgolion Iach i ganolbwyntio ar amrywiaeth o bynciau mwy penodol gyda dysgwyr. Dywedodd Plantlife na fyddai ganddynt yr un math o gyrhaeddiad na chynulleidfa heb Eco-Sgolion, a bod y rhaglen yn "amhrisiadwy a hanfodol" i'w llwyddiant.

# 5. Gweithredu'r rhaglen mewn ysgolion

5.1 Mae'r adran hon yn cynnwys canfyddiadau ar **sut** roedd rhaglen Eco-Sgolion wedi cael ei gweithredu a'i chyflwyno mewn ysgolion ledled Cymru ar gyfer y cyfnod 2018 i 2022, gan gynnwys gwybodaeth benodol ynghylch:

- Cymhellion ysgolion dros ymuno â'r rhaglen
- Eco-weithgareddau allweddol a gyflawnwyd
- Effaith Eco-Sgolion ar adnoddau ysgolion
- Integreiddio Eco-Sgolion â'r Cwricwlwm newydd i Gymru
- Rhwystrau a heriau a brofwyd gan ysgolion wrth weithredu'r rhaglen.

5.2 Mae'r bennod hon wedi ei seilio ar wybodaeth a gasglwyd o gyfweliadau gyda rhanddeiliaid o ysgolion yr astudiaethau achos[35], yn ogystal â dadansoddiad o'r arolwg ar-lein o ysgolion a gofrestrwyd i'r rhaglen.

5.3 Roedd gweithredu rhaglen Eco-Sgolion yn amrywio rhwng ysgolion a'i gilydd ar sail nifer o ffactorau, gan gynnwys y math o ysgol, ei maint a'i lleoliad, materion a drafodir ymhellach yn y bennod hon. Roedd gan Gydlynwyr Eco amrywiaeth o rolau penodol o fewn eu hysgol law yn llaw â'u cyfrifoldeb dros hwyluso'r rhaglen, gan gynnwys athrawon dosbarth, cynorthwywyr addysgu ac aelodau'r tîm uwch-reolwyr; roeddent hefyd yn cael cymorth a chefnogaeth llywodraethwyr ysgol, rheini a chynrychiolwyr cymunedol.

### Cymhellion dros ymuno ag Eco-Sgolion


5.4 Gofynnwyd i ysgolion a arolygwyd am eu cymhellion dros ymrwymo i raglen Eco-Sgolion[36], gyda'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigure 5.1 isod.

---

[35] Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys Cydlynwyr Eco, prifathrawon, staff addysgu a staff eraill, rhieni a chynrychiolwyr cymuned ehangach yr ysgol

[36] Roedd ymatebwyr yn cael y dewis i roi atebion sawl-rhan, felly nid yw nifer yr ymatebion yn adio i 80.

**Ffigur 5.1: Cymhellion dros ymuno â rhaglen Eco-Sgolion**




Ffynhonnell: Miller Research, Arolwg Gwerthuso Eco-Sgolion, n=80. Gofynnwyd i ymatebwyr ‘Beth oedd eich prif gymhelliad/gymhellion dros ymuno â rhaglen Eco-Sgolion? Gallwch ddewis sawl opsiwn.’

5.5 Y prif gymhellion dros ymuno â’r rhaglen i 72 allan o 80 o’r ymatebwyr oedd y cyfle i fod yn rhan o newid amgylcheddol cadarnhaol, wedyn galluodi dysgwyr i fod yn rhan o fudiad amgylcheddol ystyrlon (67 allan o 80 o ymatebwyr).

5.6 Mymryd o dan hanner yr ymatebwyr, 39 allan o 80, a fynegoidd fod eu cymhelliad yn dod o awydd i fod yn rhan o raglen amgylcheddol a oedd wedi ei hachredu’n rhyngwladol. Roedd cymhellion eraill yn cynnwys:

- Yr anogaeth gan athrawon a rheolwyr yr ysgol (27 allan o 80)

- Y cyfle i gysoni gwaith â'r Cwricwlwm newydd i Gymru (21 allan o 80 o ymatebwyr).
- Anogaeth gan eu myfyrwyr (13 allan o 80)
- Ysgolion cyfagos yn ymuno â'r rhaglen (wyth allan o 80)
- Anogaeth gan rieni (pump allan o 80)

5.7 Soniodd ysgolion yr astudiaethau achos hefyd am nifer o gymhellion o ran pam eu bod wedi dewis gweithredu rhaglen Eco-Sgolion, gyda ffactorau cryf yn cynnwys cydnawsedd ag ethos cyffredinol yr ysgol, codi ymwybyddiaeth o faterion cymdeithasol ac amgylcheddol, a bod yn rhan o fudiad amgylcheddol byd-eang.

5.8 I amryw o ysgolion y cysylltwyd â hwy yn ystod yr adolygiad, ysgogiad allweddol dros ymuno â'r rhaglen oedd bod Eco-Sgolion yn gydnaws â gwerthoedd a datganiad cenhadaeth eu hysgol. Roedd un Cydlynydd Eco yn disgrifio sut mae'r rhaglen yn gweddu gydag agenda cynaliadwyedd cyffredinol eu hysgol, gan nodi bod y rhaglen yn help i asio ac ymwreiddio eu gweithgareddau amgylcheddol blaenorol yn ddysgu cyffredinol yn yr ystafell ddosbarth. I ysgol arall, un atyniad sylweddol i'r rhaglen oedd y gorgyffwrdd rhwng gwaith parhaus yr ysgol ynghylch dinasyddiaeth fyd-eang: un o naw pwnc Eco-Sgolion.

5.9 Yn yr un modd, roedd y ddwy ysgol ffydd y cyfwelwyd â hwy yn nodi sut roedd Eco-Sgolion wedi ategu eu credoau. Dywedodd un Cydlynydd Eco o ysgol Gatholig, er enghraifft, fod y rhaglen yn gyson iawn â'r ethos Cristnogol o ddyletswydd o ofal dros greadigaeth Duw a byd natur. Teimlent fod Eco-Sgolion yn cynnig fframwaith y gallai'r ysgol ei ddefnyddio i addysgu dysgwyr o werth bod yn ystyriol o'u heffaith ar y blaned.

5.10 Mewn un achos, roedd ysgol wedi ymuno â'r rhaglen yn dilyn anogaeth gan aelodau o staff a gweld sut roedd y rhaglen yn cael ei gweithredu mewn ysgolion eraill yn eu hardal leol. Disgrifiodd un Cydlynydd Eco sut nad oedd eu hysgol, cyn ymuno ag Eco-Sgolion,

ond yn cyflwyno gweithgareddau amgylcheddol ar hap trwy gysylltiadau â'r cwricwlwm ac integreiddio'r cynllun Ysgolion Iach. Roedd yn esbonio bod penodi prifathro newydd a oedd yn cefnogi Eco-Sgolion wedi gweithredu fel sbardun i'w ysgol gymryd rhan yn y rhaglen. Yn eu camau cynnar ar ôl cofrestru, roedd yr ysgol yn gallu ennill syniadau a dysgu arferion gan ysgolion eraill cyfagos a oedd wedi integreiddio fframwaith Eco-Sgolion yn llwyddiannus i'w gweithgareddau.

5.11 I ysgolion eraill, roedd y rhaglen yn cynnig cyfle i hyrwyddo lleisiau dysgwyr a bod yn rhan o fudiad ystyrlon. Yn ôl un Cydlynydd Eco, roedd yr ysgol, trwy weithredu'r rhaglen, wedi elwa o broses ddyfarniadau Eco-Sgolion, a oedd yn rhoi teimlad o gyflawni ac o rymuso i ddysgwyr. Ar yr un pryd, yn eu barn hwy, roedd y rhaglen hefyd wedi helpu codi ymwybyddiaeth o faterion byd-eang i ddysgwyr ac i gymuned ehangach yr ysgol. Cafodd y teimlad hwn ei adleisio gan gynrychiolydd rhieni ar Eco-Bwyllgor mewn ysgol arall, y crewyd argraff arno gan ddull Eco-Sgolion o fod dan arweiniad disgyblion a sut yr anogwyd i'r hyn a ddysgwyd dreiddio'n ôl i fywyd cartref y dysgwr, y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

5.12 Roedd dysgwyr yn rhannu amrywiaeth o deimladau a rhesymau cadarnhaol pam eu bod yn teimlo bod Eco-Sgolion yn bwysig. Roedd enghreifftiau'n cynnwys bod arnynt eisiau cymryd gwell gofal o'r amgylchedd, cydnabod pwysigrwydd gwella a chynnal iechyd y blaned a mwynau bod mewn amgylchedd glân. Darlunir hyn yn yr astudiaeth achos isod.

**Astudiaeth Achos: Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Bryncoch –** sylwadau gan aelodau Eco-Bwyllgor yr ysgol (sef dysgwyr)

**Mae Eco-Sgolion yn bwysig oherwydd …**

*"Mae'n ein haddysgu ni y gallwch wneud gwahaniaeth, waeth pa mor fychan, gyda'r amgylchedd. Mae'n dangos bod pob ychydig yn helpu."*

*"Gallwch wneud gwahaniaeth nid i'r ysgol yn unig, ond i'r byd yn ogystal."*

*"Mae'n helpu sicrhau bod pobl yn ofalus yn y goedwig a'r coed, ac nad ydyn nhw'n dinistrio cartrefi anifeiliaid trwy daflu sbwriel."*

5.13 Roedd dysgwyr ysgolion uwchradd yn disgrifio pwysigrwydd ac effaith eu gwaith i'r **dyfodol**, trwy greu ysgol well, fwy cyfeillgar â'r amgylchedd i ddysgwyr a'r gymuned ehangach yn y dyfodol.

*"Mae [Eco-sgolion] yn bwysig oherwydd mae arnom eisiau gwneud yr ysgol yn lle gwell ar gyfer pan fyddwn ni'n hŷn, ac i ddisgyblion eraill mewn blynyddoedd i ddod."*

Dysgwr Uwchradd, Ysgol Uwchradd Crughywel, 2022

**Gweithgareddau a gyflawnwyd**


*Pynciau Eco-Sgolion*

5.14 Fel rhan o'r adolygiad, gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ar-lein ac ysgolion yr astudiaethau achos i ba raddau y llwyddasant i ymwreiddio pob un o naw pwnc Eco-Sgolion o fewn eu lleoliad. Cafwyd gwybodaeth ar enghreifftiau o'r gwahanol fathau o weithgareddau a gyflawnwyd ar gyfer pob pwnc o gyfweliadau rhanddeiliaid gyda Cydlynwyr Eco a gweithdai gyda dysgwyr ar draws y deg o ysgolion astudiaethau achos yr ymgynghorwyd â hwy. Adborth cyffredin gan yr ysgol a holwyd oedd bod gweithgareddau o

dan arweiniad dysgwyr yn bennaf, gan olygu bod llawer o syniadau a chynlluniau'n dod yn uniongyrchol gan yr Eco-Bwyllgor eu hunain.

5.15 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg pa bynciau Eco-Sgolion roeddent wedi gallu ymdrin â hwy fwyaf llwyddiannus o fewn eu lleoliad trwy ddewis rhif i osod pob maes mewn trefn – gydag 1 y mwyaf llwyddiannus a 9 y lleiaf llwyddiannus. Dadansoddwyd yr ymatebion trwy gyfrifo sgôr wedi'i bwysoli ar gyfer pob pwnc. Rhoddir gwerth uwch i bynciau a gafodd eu gosod ar y brig nag i'r rhai sy'n eu dilyn; y sgôr yw cyfanswm pob rhif trefn a bwysolwyd. Cyflwynir y canfyddiadau yn y graff isod.

**Ffigur 5.2: Pynciau Eco-Sgolion wedi eu gosod mewn trefn yn ôl llwyddiant ysgol wrth eu gweithredu**




Ffynhonnell: Miller Research, arolwg ar-lein o ysgolion cofrestredig, n=80. Gofynnwyd i ymatebwyr 'Pa bynciau Eco-Sgolion ydych chi wedi ymdrin â hwy fwyaf llwyddiannus o fewn eich lleoliad yn eich barn chii? Trwy ddewis rhif, gydag 1 y mwyaf llwyddiannus a 9 y lleiaf llwyddiannus, nodwch y drefn/safle priodol yn y blwch.'

5.16 Sbwriel a gweithgareddau cysylltiedig oedd y pwnc a osodwyd uchaf o ran trefn gan ymatebwyr i'r arolwg fel y maes roeddent wedi gallu gweithredu'r rhaglen fwyaf llwyddiannus. Dywedodd un ymatebydd i'r arolwg o ysgol gynradd fod hyn oherwydd bod sbwriel fel pwnc yn haws i ddysgwyr iau ei ddeall, lle caiff yr effaith ei weld ar unwaith, o gymharu â phynciau eraill lle mae cysyniadau yn fwy haniaethol ac felly'n gallu bod yn fwy o her i ddysgwyr eu deall.

5.17 Drwy holl ysgolion yr astudiaethau achos, roedd codi sbwriel yn weithgarwch cyffredin i ddysgwyr, ac mewn llawer o achosion, roedd yn cynnwys cydweithio â'r gymuned leol. Roedd un ysgol a holwyd yn disgrifio sut roeddent wedi cynnal ymgyrch baw cŵn mewn cydweithrediad â swyddogion troseddau gwastraff lleol, i helpu lleihau sbwriel a chasglu baw cŵn o amgylch yr ysgol. Disgrifiodd yr Cydlynydd Eco sut roedd swyddogion wedi rhoi sgyrsiau i'r Eco-Bwyllgor a chynnal teithiau cerdded mewn llecynnau gwyrdd lleol i ddysgwyr helpu i godi unrhyw wastraff cŵn a chael gwared arno mewn modd priodol. Law yn llaw â'u teithiau cerdded lleihau gwastraff, anogwyd dysgwyr i gynhyrchu posteri i ddangos i unigolion eu heffaith ar yr amgylchedd ac i helpu lleihau'r broblem yn yr hirdymor.

5.18 Ar ôl sbwriel, byw iach oedd y pwnc a gafodd ei nodi fel yr ail mwyaf llwyddiannus y teimlai ymatebwyr i'r arolwg eu bod wedi gallu ei weithredu o fewn eu gwaith Eco-Sgolion. Roedd un ymatebydd i'r arolwg yn nodi bod hyn oherwydd cysylltiadau roedd gan eu hysgol eisoes â'r cynllun Ysgolion Iach, gan olygu bod gwaith yn y maes hwn yn cael sylw cynhwysfawr drwy'r cwricwlwm. Fe wnaeth ysgolion yr astudiaethau achos rannu sawl enghraifft o amrywiaeth helaeth o weithgareddau garddio a thyfu a oedd yn galluogi dysgwyr i gael profiad o fyd natur, gwella eu llesiant, dysgu am bwysigrwydd pridd a dibyniaeth bodau dynol ar fwyd yn wyneb newid hinsawdd. Roedd rhai ysoglion yn annog dysgwyr i blannu blodau a pherlysiau a phlannu a chynnal lleiniau llysiau.

5.19 Roedd gwella tir yr ysgol hefyd yn cael ei osod yn uchel mewn trefn ymysg ymatebwyr yr arolwg (trydydd allan o naw pwnc Eco-Sgolion). Roedd dau ymatebydd yn nodi bod hyn oherwydd mai cyfyngedig oedd y llecynnau gwyrdd ehangach a oedd ar gael iddynt a'u bod yn dewis yn lle hynny i ganolbwyntio eu gweithgareddau ar brosiectau ar dir yr ysgol.

5.20 Roedd yr enghreifftiau o ysgolion yr astudiaethau achos ar welliannau'n cael eu gwneud i dir yr ysgol yn amrywiol. Disgrifiodd yr Cydlynydd Eco o un ysgol gynradd sut roeddent wedi derbyn cyfraniad o goed y gwnaethant eu plannu ar dir yr ysgol. Roedd yn esbonio bod pob coeden wedi cael ei phlannu gan garfan o ddysgwyr o'r Eco-Bwyllgor, a oedd yn plannu, enwi a dal cyfrifoldeb personol dros y goeden. Roedd ysgol uwchradd yn archwilio'r posibilrwydd o adeiladu ystafelloedd dosbarth awyr agored ar gyfer yr ysgol gyfan, i helpu hyrwyddo llesiant dysgwyr. Cafodd dysgwyr y cyfle i hefyd i gynnal a chadw gardd a thir yr ysgol trwy chwynnu a gofalu'n gyffredinol am y safle.

5.21 Ymhlith pynciau mwy anodd i'w cyflwyno, roedd trafnidiaeth (a osodwyd yn bumed allan o'r naw pwnc gan ymatebwyr i'r arolwg) yn cael ei ystyried yn bwnc mwy cymhleth i'w integreiddio trwy waith Eco-Sgolion, oherwydd amrywiol ffactorau cyd-destunol. Roedd un ymatebydd i'r arolwg, er enghraifft, yn esbonio bod pob dysgwr yn cael cynnig trafnidiaeth bws am ddim i'r ysgol, ac er eu bod wedi bod yn gweithio i ddatblygu gwell dulliau teithio llesol, roeddent yn ei chael yn anodd cael cefnogaeth yr awdurdod lleol oherwydd pryderon am ddiogelwch. Ar y llaw arall, roedd yr Eco-Lywodraethwr o un o ysgolion eraill yr astudiaethau achos yn disgrifio sut roedd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon eu hysgol wedi datblygu tîm diogelwch ffyrdd a beicio i hyrwyddo beicio a cherdded ond nad oedd hyn ond yn bosib oherwydd eu bod eisoes yn elwa ar lwybrau diogel a oedd yn bod eisoes o gwmpas yr ysgol.

5.22 O safbwynt gweithgareddau'n ymwneud â phwnc bioamrywiaeth (a osodwyd yn chweched allan o'r naw pwnc Eco-Sgolion gan

ymatebwyr i'r arolwg), roedd dysgwyr o amrywo o ysgolion cynradd a gymerodd ran yn yr arolwg wedi dewis monitro rhywogaethau adar a phryfed ar dir yr ysgol ac yn yr ardal o gwmpas. Cyflawnwyd hyn trwy adeiladu cuddfannau adar, teclynnau bwydo adar neu fwydo pryfetach a fyddai'n caniatáu rhywogaethau i bori ar y tir ac yn rhoi cyfle i aelodau'r Eco-Bwyllgor eu deall a'u holrhain. Roedd sawl agwedd i'r gweithgarwch hwn gan fod dysgwyr yn ymwneud â sgiliau ymarferol, ac ar lefel fwy cysyniadol, yn gallu arsylwi ar natur yn barchus ac o bell.

5.23 Roedd pynciau a osodwyd fel y rhai **lleiaf llwyddiannus** o ran trefn gan ymatebwyr i'r arolwg yn cynnwys dinasyddiaeth fyd-eang, ynni a dŵr. Roedd un ymatebydd i'r arolwg yn nodi ei bod yn anodd arbed dŵr ac ynni dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf oherwydd y pandemig Covid-19 a'r angen ychwanegol am fwy o olchi dwylo ac awyru mewn ysgolion. Dywedodd ymatebydd arall o ysgol uwchradd fod newidiadau mewn ynni yn fwy anodd eu gweithredu yn yr ysgol gan fod hyn yn cael ei reoli gan drydydd parti allanol a bod goleuadau/ffenestri o fewn yr ysgol yn awtomatig.

5.24 O safbwynt y dysgwr, ar draws pob un o naw pwnc Eco-Sgolion, gweithgareddau Eco-Bwyllgorau oedd uchafbwynt y rhaglen ac roeddent yn cael effaith sylweddol ar eu profiad dysgu. Yn ystod gweithdai gyda dysgwyr o ysgolion yr astudiaethau achos, roedd yn amlwg fod cyffro pendant ynghylch y gweithgareddau roedd dysgwyr yn cymryd rhan ynddynt, a bod hyn yn arwain at ymddygiadau cadarnhaol at yr amgylchedd. Amlygir enghreifftiau o'r fath weithgareddau yn yr astudiaeth achos isod.

**Astudiaeth Achos: Ysgol Gynradd y Graig –** sylwadau gan dri o aelodau Eco-Bwyllgor yr ysgol (sef dysgwyr)

**Beth ydych chi wedi'i ddysgu wrth ymwneud ag Eco-Sgolion …**

*"Fe wnaethon ni gynllunio llwybr o amgylch y goedwig a defnyddio ffyn i wneud saethau, fel nad ydych yn mynd ar goll. Roedd y llwybr yn amlygu lleoedd o ddiddordeb arbennig, fel clychau'r gog."*

*"Aethom ar draws yr afon gyda welis. Roedd yn hwyl, fe wnes i wir fwynhau hyn. Fe wnaethon ni adnabod gwahanol greaduriaid a phryfetach sydd i'w gweld yn yr afon, ac anifeiliaid fel llyffantod."*

*"Rydym wedi gwneud llawer o weithgareddau y tu allan. Mae'r [ysgol] wedi plannu, rydym wedi tyfu tatws a thomatos. Rydym hefyd wedi plannu hadau blodau'r haul a'u gwylio'n tyfu, maen nhw'n dalach na ni erbyn hyn!"*

5.25 Un o agweddau allweddol Eco-Sgolion yw annog ymwybyddiaeth amgylcheddol mewn dysgwyr, ac roedd tystiolaeth o'r adolygiad yn dangos bod gweithgareddau a gyflwynwyd mewn ysgolion fel rhan o'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus wrth wneud hyn. Enghraifft a rannwyd gan ddysgwyr o un ysgol gynradd oedd pan oeddent yn gwneud taflenni gwybodaeth eu hunain, yn hysbysu pobl o niwed taflu sbwriel, a chanllawiau ar gyfer ailgylchu. Mae'r gweithgareddau hyn yn dangos y camau a gymerwyd gan rai ysgolion yr astudiaethau achos i hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ymysg eu cymheiriaid.

*Fformat y cyflwyno*

5.26 O ran **fformat** cyflwyno Eco-Sgolion yng Nghymru, roedd hyblygrwydd y rhaglen a'i fframwaith saith-cam yn arwain at fod ysgolion yn gallu teilwra gwaith y rhaglen i'w lleoliad.

5.27 Ar hyd y flwyddyn ysgol, roedd mwyafrif yr ysgolion a arolygwyd (71 allan o 80 o ymatebwyr) yn cyflwyno gweithgareddau Eco-Sgolion drwy gydol y flwyddyn, gyda dim ond un allan o 80 o ysgolion yn dweud eu bod yn canolbwyntio gwaith Eco-Sgolion yn nhymor y gwanwyn. O ran y gyfran o ddysgwyr oedd yn ymwneud â'r rhaglen, dywedodd 29 allan o 79 o ymatebwyr fod rhwng 75 a 100 y cant o'r disgyblion yn ymwneud â gweithgareddau Eco-Sgolion. Dywedodd 15 arall allan o 79 o ymatebwyr fod, oherwydd natur y rhaglen, dysgwyr o'r ysgol **gyfan** yn cymryd rhan ac yn ymwneud mewn rhyw fodd neu'i gilydd, trwy weithgareddau awyr agored, prosiectau dosbarth a digwyddiadau. Yn yr un modd, dywedodd 26 allan o 80 o ymatebwyr i'r arolwg fod 75 i 100 y cant o'r staff yn ymwneud yn y rhaglen yn eu hysgol, ond yn ogystal roedd pob ymateb 'arall' (wyth allan o 80 o ymatebwyr) yn haeru bod pob aelod o staff yn ymwneud â'r rhaglen ar ryw lefel boed hynny trwy gyfrannu at y cwricwlwm neu gynllunio digwyddiadau.

5.28 Dywedodd mymryn dros hanner yr ymatebwyr eu bod yn cyflwyno Eco-Sgolion gan ddefnyddio dull cymysg wrth weithio wyneb yn wyneb ac ar-lein (44 allan o 80 o ymatebwyr), gydag amryw yn nodi bod cyflwyno ar-lein wedi cynyddu yn ystod y pandemig Covid-19. Amlinellir gwybodaeth bellach ar effaith y pandemig ar sut bu ysgolion yn cyflwyno gwaith Eco-Sgolion o adran 5.66 ymlaen.

5.29 Cafodd gweithgareddau a gwersi Eco-weithgareddau eu cynnal naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg, gan ddibynnu ar gyfrwng iaith yr ysgol benodol. O ddadansoddi'r arolwg, roedd 55 allan o 80 o ymatebwyr yn rhan o ysgolion Saesneg. Roedd ysgolion Cymraeg yn cyfrif am 20 allan o 80 o ysgolion, a gweddill yr ymatebwyr yn dod o leoliadau ysgolion dwyieithog.

5.30 O fewn pob ysgol, cymerodd yr Eco-Bwyllgor yr arweiniad ar weithgarwch yr ysgol yn y rhaglen. Ym mhob un o ddeg ysgol yr astudiaethau achos, roedd y pwyllgor yn cynnwys dysgwyr o bob grŵp blwyddyn ac yn cynnwys amrywiaeth o rolau i aelodau. Roedd rhai ysgolion yn trefnu proses ethol lawn i ddysgwyr ymuno â'r Eco-

Bwyllgor, gan gynnwys negeseuon etholiad a phapurau pleidleisio i lenwi amrywiol swyddi ar y pwyllgor[37]. Y teimlad gan Gydlynwyr Eco oedd fod hon yn lefel bwysig o ddemocratiaeth i ddysgwyr a'i bod yn helpu hyrwyddo sgiliau arwain yn gynnar trwy roi'r cyfrifoldeb iddynt dros sefydlu eu harferion eu hunain.

5.31 O safbwynt cyflwyno cynnwys, dywedodd nifer o Gydlynwyr Eco o sawl un o ysgolion yr astudiaethau achos y byddai athrawon yn dechrau trwy gyflwyno sesiwn wybodaeth i ddysgwyr ar bob pwnc Eco-Sgolion a fyddai'n cael sylw yn ystod y tymor, a fyddai wedyn yn gosod sail ar gyfer camau Eco-Weithredu'r ysgol. Adroddwyd yn helaeth gan ysgolion fod pwyslais ar gael dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth fras o faterion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, cyn cychwyn ar weithgareddau. Teimlai Cydlynwyr Eco fod y dull hwn yn helpu eu Eco-Bwyllgorau i gael teimlad o bwrpas ac i wneud dewisiadau ystyriol, bwriadol ac ystyrlon ynghylch eu camau Eco-Weithredu.

5.32 Ar draws sawl un o ysgolion yr astudiaethau achos, dywedodd Cydlynwyr Eco hefyd fod cynnwys gwaith Eco-Sgolion yn cael ei arwain gan faterion cyfoes, er mwyn adeiladu momentwm a gyrru sgyrsiau perthnasol ymlaen. Dywedodd un Cydlynydd Eco, er enghraifft, fod yr uwchgynadleddau byd-eang ar hinsawdd, sy'n fwy adnabyddus fel digwyddiadau COP, yn rhoi man cychwyn defnyddiol i ddysgwyr ac athrawon ar gyfer cynnwys Eco-Sgolion a oedd wedyn yn cael ei addasu yn ôl meysydd roedd gan ddysgwyr fwy o ddiddordeb penodol ynddynt. Yn ôl rhanddeiliad ehangach o Climate Cymru, roedd llysgenhadon hinsawdd ieuenctid COP26 yn rhoi adborth i'w hysgol ar yr hyn roeddent wedi ei ddysgu yn eu rôl ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i arwain gwaith Eco-Sgolion yn eu hysgol benodol eu hunain. Enghraifft arall a roddwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus oedd defnyddio Wythnos Gweithredu ar yr Hinsawdd fel cyfle i ddatblygu cynnwys a phynciau trafod i ysgolion sy'n cymryd rhan yn y

[37] Roedd y swyddi'n cynnwys Cadeirydd, Is-gadeirydd a Llywydd yr Eco-Bwyllgor.

rhaglen. Roeddent yn dweud bod sesiynau byw yn cael eu cynnal bob bore o'r wythnos, ac adroddwyd bod 15,000 yn eu dilyn yn 2022. Cafodd y gwersi rhyngweithiol hyn eu cynnal ar-lein gyda dysgwyr ac athrawon ac roeddent yn ymwneud â myrdd o bynciau'n ymwneud â newid hinsawdd.

5.33 Fel rhan o'r adolygiad, gofynnwyd i ymatebwyr i'r arolwg ar-lein hefyd am eu holl elfen o'r rhaglen. Thema allweddol ymysg 25 allan o 63 o ymatebwyr i'r cwestiwn oedd y brwdfrydedd heintus gan ddysgwyr am yr amgylchedd a'r gallu iddynt arwain a chymryd cyfrifoldeb eu hunain dros Eco-Sgolion. Dywedwyd bod y brwdfrydedd angerddol ymysg dysgwyr a staff yr ysgol fel ei gilydd yn gweithredu fel symbyliad i weithredu'r rhaglen ac yn cynnig hwb i hunan-barch dysgwyr. Yn ogystal, dywedodd nifer o ymatebwyr (deg allan o 63) eu bod yn mwynhau'r pwyslais ar ymwneud â chymuned ehangach yr ysgol a'r cyfle i integreiddio Eco-Sgolion â gwaith cwriclwm. Un sylw allweddol gan ymatebydd i'r arolwg (Cydlynydd Eco i'r rhaglen mewn un ysgol) oedd mai athrawon a'r Cydlynydd Eco a oedd wedi "gweld y goleuni" wrth gyflwyno'r rhaglen. Dywedodd yr ymatebydd fod oedolion yn mynd drwy eu bywyd heb gael o angenrheidrwydd gysylltiad neu ddealltwriaeth ddyfnach o rywbeth oedd yn ymwneud â'r amgylchedd, ond eu bod bellach yn cael profiad o'r cysyniadau hyn, ac yn "dysgu lawn cymaint â'r dysgwyr". Roedd hyn yn dangos yr effaith ddyfnach y gall y rhaglen ei gael ar y rheini sy'n hwyluso'r rhaglen o fewn yr ysgol ei hun, yn ogystal ag ar y dysgwyr yn unig.

**Effaith ar adnoddau'r ysgol**

5.34 Fel rhan o'r adolygiad, gofynnwyd i ysgolion a oedd yn cymryd rhan am effaith rhaglen Eco-Sgolion ar adnoddau ysgol, megis cyllid, staff, lle ffisegol, offer ac amser. Roedd yr adnoddau a oedd **ar gael** i ysgolion i gyflwyno'r rhaglen yn effeithiol yn amrywio'n sylweddol yn ôl math o ysgol, maint a lleoliad.

*Cyllid ar gyfer gwaith Eco-Sgolion*

5.35 Un o'r heriau allweddol roedd llawer o Eco-Bwyllgorau yn eu hwynebu oedd cael ffyrdd o ariannu eu gwaith a'u prosiectau Eco-Sgolion. O safbwynt adnoddau ariannol, roedd amryw o ysgolion yr astudiaethau achos yn cynnwys elfennau codi arian yn eu Cynllun Gweithredu i ariannu eu gweithgareddau. Roedd un Cydlynydd Eco, er enghraifft, yn nodi bod eu Eco-Bwyllgor wedi rhedeg stondinau ailgylchu hen deganau mewn digwyddiadau ysgol ac wedi cynnal stondin Diwrnod y Mamau yn gwerthu eitemau o emwaith a gyfrannwyd. Cafodd yr arian a gasglwyd ei ddefnyddio gan yr ysgol i brynu eitemau i'w defnyddio yn eu gardd gymunedol, gan gynnwys hadau, blychau plannu ac offer garddio.

5.36 Y tu allan i weithgareddau codi arian, fe wnaeth ysgolion eraill sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer Eco-Weithredoedd pwysig trwy brosiectau lleol, eu Cymdeithas Rhieni ac Athrawon neu gwmnïau sector preifat. Fe wnaeth un ysgol, er enghraifft, ennill cyllid gan gynghorwyr cymuned i brynu teclynnau codi sbwriel ac offer arall yn ystod prosiect Lleihau Sbwriel Cadwch Gymru'n Daclus[38], lle'r oedd yr Eco-Bwyllgor wedi defnyddio sbwriel plastig roeddent wedi'i godi o ganol y dref i greu cerflun ar gyfer yr ysgol. Roedd ysgol arall wedi derbyn cyfraniad gan un o'u partneriaid sector preifat i gefnogi Eco-Weithredoedd yr ysgol.

5.37 Mewn rhai achosion, roedd ysgolion yn chwilio am fuddsoddiad ar raddfa fawr trwy ymgeisio am grantiau neu fenthyciadau penodol, i gyflawni eco-brosiectau mwy a fyddai'n arwain at wneud newidiadau a fyddai'n cael effaith i'r ysgol. Ceisiodd un ysgol, er enghraifft, am gyllid ychwanegol trwy fenthyciad i osod paneli solar PV ar do'r ysgol. Roedd yr Cydlynydd Eco yn nodi nad oeddent wedi gallu cael cyllid ar gyfer y prosiect trwy eu hawdurdod lleol a'u bod yn teimlo'n betrusgar o gyflawni gweithgareddau codi arian o fewn y gymuned leol gan fod

---

[38] Ymgyrch yw Lleihau Sbwriel sy'n cael ei rhedeg gan Cadwch Gymru'n Daclus i gefnogi 20 o ysgolion i gyflawni adolygiad sbwriel bob blwyddyn a phenderfynu ar gamau i godi ymwybyddiaeth o faterion sbwriel a datblygu atebion.

yr ysgol wedi ei lleol mewn dalgylch amrywiol ac iddo lefelau uchel o amddifadedd.

5.38 Mewn un achos, roedd cynrychiolydd rhieni ar Eco-Bwyllgor yn nodi bod Cydlynydd Eco eu hysgol wedi cyfrannu rhywfaint o’i gyllid ei hun i helpu prynu eitemau i gefnogi gweithgareddau’r rhaglen. Er bod hyn yn ddigwyddiad prin ymysg ysgolion a holwyd, roedd yn dangos pwysigrwydd gwaith Eco-Sgolion i’r rheini sy’n hwyluso’r rhaglen o fewn yr ysgol.

5.39 Thema gyffredin ymysg ysgolion yr astudiaethau achos ac ymatebwyr i’r arolwg oedd awydd am gefnogaeth gan Eco-Sgolion ar ddarganfod ffyrdd o ariannu eu gwaith a’u prosiectau. Dywedodd un ymatebydd i’r arolwg fod diffyg deunyddiau i ysgolion eu defnyddio i adnabod ffynonellau addas o gyllid ychwanegol (gan gynnwys grantiau a chynlluniau) y tu allan i weithgareddau codi arian. Y teimlad oedd y byddai ysgolion yn elwa o astudiaethau achos ar sut roedd gwahanol ysgolion a lleoliadau wedi ariannu eu Eco-Weithredoedd, neu trwy fapio a dangos y ffordd at wahanol lwybrau y gallai ysgolion ddewis.

*Adnoddau ffisegol*

5.40 O safbwynt **adnoddau ffisegol**, roedd gan bob un o ddeg ysgol yr astudiaethau achos o leiaf ystafell ddosbarth neu le penodol o fewn yr ysgol i gyflwyno gwaith Eco-Sgolion. Roedd rhai o ysgolion yr astudiaethau achos wedi eu lleoli mewn ardaloedd gwledig, mwy anghysbell, lle’r oedd llecynnau gwyrdd ar gael iddynt ar garreg eu drws. Roedd un ysgol, er enghraifft, a oedd wedi ei lleoli o fewn parc cenedlaethol, yn cael cyfleoedd mynych i gyflawni gweithgareddau dysgu awyr agored (gan gynnwys plannu coed a gosod blychau adar) yn y warchodfa natur gerllaw eu hysgol a thrwy ddefnyddio eu bws mini eu hunain i deithio i leoliadau eraill.

5.41 Er y gallai hyn fod wedi bod yn fwy anodd i ysgolion sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd trefol, nid oedd mynediad at ofod ffisegol, yn enwedig y tu allan i’r ysgol ei hun, yn broblem sylweddol i’r mwyafrif o

ysgolion a holwyd. Yn lle hynny, roedd ysgolion trefol yn cyflawni digonedd o weithgareddau ar eu tir eu hunain, ac mewn achosion lle'r oeddent yn dymuno ymwneud â dysgu pellach yn yr awyr agored, roeddent yn manteisio ar gyfleoedd i weithio gyda'u cymunedau lleol. Esboniai un ysgol ffydd, er enghraifft, sut roeddent wedi gweithio o'r blaen gyda'u heglwys leol i roi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio llecynnau yn y fynwent ar gyfer plannu hadau.

*Amser*

5.42 Adnodd arall a grybwyllwyd yn aml gan ysgolion yr astudiaethau achos ac ymatebwyr i'r arolwg ar-lein oedd yr **amser** roedd ei angen i gyflwyno'r rhaglen yn effeithiol, yn enwedig lle'r oedd prinder staff, neu staff o dan bwysau i drefnu'r rhaglen y tu allan i amser addysgu. I rai Cydlynwyr Eco, roedd heriau pellach o ran cael amser rheolaidd i siarad gydag aelodau eraill o staff ac ymwreiddio arferion drwy'r holl ysgol.

5.43 Ar gyfartaledd, roedd ysgolion a arolygwyd yn treulio llai nag awr (21 allan o 79 o ymatebwyr) neu rhwng 1 a 3 awr yr wythnos (28 allan o 79 o ymatebwyr) ar waith Eco-Sgolion. Roedd ychydig o ymatebwyr yr arolwg yn nodi ei bod yn anodd mesur amser a dreuliwyd ar y rhaglen oherwydd bod Eco-Sgolion wedi ymwreiddio i'w cwricwlwm ac yn amrywio ar sail adeg y flwyddyn a'r pwnc a oedd o dan sylw pob tymor. Esboniodd un ymatebydd i'r arolwg, er enghraifft, mai eu pwnc Tymor y Gwanwyn 2022 ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 oedd 'Gwylio'r Gwanwyn' fel bod dysgu yn yr awyr agored yn digwydd yn fwy rheolaidd, hyd at unwaith yr wythnos. O gymharu, eu pwnc yn Nhymor yr Hydref oedd "Siocled", felly roedd dysgu yn yr awyr agored tua unwaith y mis.

5.44 Roedd mwyafrif yr ysgolion yn cyflwyno'r rhaglen yn ystod oriau ystafell ddosbarth (69 allan o 80 o ymatebwyr), gan fod cynnwys Eco-Sgolion yn mynd law yn llaw â'r cwricwlwm, gan alluogi athrawon i gyfuno gwersi a gweithgareddau yn fwy di-dor. Un her a grybwyllwyd

gan un Cydlynydd Eco o un o ysgolion yr astudiaethau achos oedd er eu bod yn integreiddio gwaith Eco-Sgolion i oriau addysgu yn bennaf, ei bod yn anodd cael amser dros ben i ehangu'r gwaith y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth oni bai bod gwaith paratoi'n cael ei wneud y tu allan i'w hamser cynllunio, paratoi ac asesu eu hunain. Roedd ysgolion eraill yn cyflawni gwaith Eco-Sgolion yn ystod oriau amser cinio ac mewn amser rhydd arall (47 allan o 80 o ymatebwyr) gan gynnwys clybiau ar ôl cinio, neu ar benwythnosau.

5.45 Roedd un o ysgolion yr astudiaethau achos yn nodi bod rhoi tystiolaeth at ei gilydd ar gyfer y broses asesu yn cymryd llawer o amser i'w gwblhau. Er eu bod yn casglu swm mawr o dystiolaeth ffotograffig o'u gwaith Eco-Sgolion, meddent, roedd paratoi tystiolaeth ysgrifenedig yn cymryd llawer mwy o amser. Dywedodd ysgol arall eu bod wedi goresgyn problemau tebyg trwy gasglu gwybodaeth ar bod gweithgarwch roeddent yn ei gyflawni ar ffeil Microsoft One Note, wrth iddo ddigwydd. Cynhwysir rhagor o wybodaeth ynghylch rhwystrau i'r broses asesu yn 5.65.

**Integreiddio a gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru**

5.46 Roedd llawer o ysgolion ledled Cymru wedi ystyried a chysoni eu gweithgareddau Eco-Sgolion â chanlyniadau'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Fel rhan o'r rhaglen, datblygodd Cadwch Gymru'n Daclus ddeunyddiau penodol Eco-Sgolion ar gyfer cysylltu pynciau Eco-Sgolion â'r cwricwlwm mewn lleoliadau addysgol. Cafodd yr adnoddau hyn eu creu trwy broses ymgynghori gydag athrawon ar draws amrywiaeth o bynciau i weld lle gallai fod gorgyffwrdd rhwng y rhaglen a gwaith dosbarth arferol yr ysgol.

5.47 Ymysg deg ysgol yr astudiaethau achos y cyd-drafodwyd â hwy, roedd consensws fod rhaglen Eco-Sgolion yn gydnaws iawn ag ethos cyffredinol a phob un o bedwar diben y Cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd llawer o'r adborth a dderbyniwyd gan ysgolion a rhanddeiliaid ehangach yn nodi eu perthynas a oedd o fudd i'r ddwy ochr, gydag un

ysgol yn nodi sut mae Eco-Sgolion yn cydweddu'n "wych" â "bod yn ddinesydd gweithredol da"[39]. Rhannodd ysgolion amrywiaeth helaeth o enghreifftiau o sut caiff gweithgareddau Eco-Sgolion eu hymwreiddio i'w gwaith cwricwlwm ar draws cyfnodau allweddol, er mwyn sicrhau dull **ysgol-gyfan** lle'r oedd pob dysgwr yn cymryd rhan yn y broses.

5.48 Adroddwyd yn helaeth gan Gydlynwyr Eco fod syniadau ar sut i gysylltu eu gwaith Eco-Sgolion gyda phynciau wedi dod trwy drafodaethau gyda staff addysgu eraill ar draws adrannau ac wrth gynllunio gwersi. Roedd hyn yn galluogi ysgolion yr astudiaethau achos i lenwi bylchau a chreu cysylltiadau rhwng pynciau Eco-Sgolion a meysydd dysgu a phrofiad, gan alluogi dysgwyr i gaffael gwybodaeth trwy enghreifftiau o'r byd go-iawn. Yn achos dwy o ysgolion yr astudiaethau achos, helpodd y rhaglen hefyd i dynnu sylw at feysydd ychwanegol yn y cwricwlwm na chafodd eu cynllunio'n wreiddiol, gan gynnwys dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol a lleihau gwastraff. Mae'r rhain yn enghreifftiau o sut yr effeithiodd y rhaglen ar sut y gweithredwyd y cwricwlwm, yn ogystal ag o'r cwricwlwm yn ysgogi gwaith Eco-Sgolion. Mae enghreifftiau o weithgareddau o'r fath wedi eu darlunio yn yr astudiaeth achos isod.

[39] Mae'r sylw hwn yn cyfeirio at Ddatganiad yr Hyn sy'n Bwysig: "Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol."

5.49

**Astudiaeth Achos: Ysgol Uwchradd Crughywel** – sylwadau gan aelodau Eco-Bwyllgor yr ysgol ar sut mae Eco-Sgolion yn cysylltu â'u pynciau

**Ym mha bynciau ydych chi'n dysgu am Eco-Sgolion …**

*"Rydym yn dysgu mewn Daearyddiaeth am y cylch dŵr a phwysigrwydd cylchrediad byd-eang dŵr"*

*"Diffeithdiro mewn daearyddiaeth a chysylltiadau hyn â newid hinsawdd"*

*"Fe wnaethon ni ddysgu am hanes amgylcheddol y byd a masnach deg. Buom yn edrych ar ddefnydd, masnach a llif adnoddau. Fe wnaethon ni wedyn gynnal stondinau masnach deg gan bobi'n gynaliadwy gyda siocled masnach deg."*

5.50 Roedd canfyddiadau o'r arolwg ar-lein yn adleisio barn ysgolion yr astudiaethau achos, gydag ymatebwyr yn rhannu sawl enghraifft o agweddau o'r cwricwlwm roeddent wedi gallu eu cysylltu â phynciau a gweithgarwch Eco-Sgolion. Allan o gyfanswm o 80 o ymatebion, roedd 63 o ysgolion yn cytuno'n gryf neu'n cytuno, eu bod wedi gallu ymwreiddio Eco-Sgolion ar draws eu haddysgu a'u dysgu yn eu cyfanrwydd. Mae'r tabl isod yn amlygu lle'r oedd yr ysgolion a arolygwyd yn dangos eu bod yn gallu gwneud cysylltiadau rhwng Eco-Sgolion ar Cwricwlwm i Gymru.

**Tabl 5.1: Cysylltiadau rhwng pynciau a gweithgareddau Eco-Sgolion ymysg ysgolion a arolygwyd**

| Math o ysgol | Pwnc | Pwnc / Gweithgareddau | Pwnc Eco-Sgolion |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Fabanod**<br>(Pump allan o 80 o ymatebwyr) | Dyniaethau | • Llygredd plastig / llygredd môr<br>• Cynefinoedd trwy ysgolion coedwig | Sbwriel<br>Bioamrywiaeth<br>Dŵr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Iechyd a Llesiant | • Cysylltiadau ag Ysgolion Iach<br>• Annog teitho llesol | Byw'n iach<br>Trafnidiaeth |
| | Celfyddydau Mynegiannol (dylunio a thechnoleg) | • Cysylltu â dylunio a gwella tir yr ysgol<br>• Ailgylchu trwy wneud modelau allan o ddeunyddiau wedi eu hailgylchu. | Tir yr Ysgol<br>Gwastraff |
| **Ysgol Gynradd** (65 allan o 80 o ymatebwyr) | Gwyddoniaeth | • Ynni adnewyddadwy<br>• Eco-systemau, cynefinoedd a bioamrywiaeth – cysylltiadau ag ysgolion coedwig<br>• Rheoli gwastraff | Ynni<br>Bioamrywiaeth<br>Gwastraff<br>Sbwriel |
| | Iechyd a Llesiant | • Cysylltiadau ag ysgolion iach<br>• Dietau cynaliadwy<br>• Gwastraff bwyd | Byw Iach<br>Gwastraff |
| | Daearyddiaeth | • Newid hinsawdd<br>• Nodau byd-eang<br>• Cyfeiriadu / dysgu awyr agored<br>• Mapio tir yr ysgol<br>• Effeithiau plastigau<br>• Ffermio | Dinasyddiaeth Fyd-eang<br>Sbwriel<br>Dŵr<br>Gwastraff |
| | Celf a Dylunio | • Dylunio nythod adar<br>• Darlunio coed<br>• Uwchgylchu cynhyrchion | Bioamrywiaeth<br>Sbwriel |
| | Mathemateg | • Arolygon traffig<br>• Graffiau byw<br>• Casglu data (sbwriel, ynni) | Trafnidiaeth<br>Sbwriel<br>Ynni |
| | Llythrennedd | • Ysgrifennu barddoniaeth<br>• Creu posteri sy'n hyrwyddo lleihau sbwriel<br>• Ysgrifennu at awdurdodau lleol / ymgyrchoedd | Dinasyddiaeth fyd-eang<br>Sbwriel |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ysgol Uwchradd**<br>(Pedwar allan o 80 o ymatebwyr) | Daearyddiaeth | • Datblygu cynaliadwy<br>• Cyflenwadau dŵr ac ynni<br>• Newid Hinsawdd a thwf poblogaeth<br>• Ecosystemau a bioamrywiaeth | Dinasyddiaeth fyd-eang<br>Dŵr<br>Ynni<br>Bioamrywiaeth |
| | Gwyddoniaeth | • Gwaith ccosystemau a bioamrywiaeth yn edrych ar oedran coed<br>• Dietau cynaliadwy | Bioamrywiaeth<br>Byw'n Iach |
| **Ysgol Arbennig**<br>(Pedwar allan o 80 o ymatebwyr) | Iechyd a Llesiant | • Cysylltiadau ag ysgolion coedwig<br>• Garddio a chynnal a chadw tir yr ysgol | Bioamrywiaeth<br>Tir yr Ysgol |
| | Dyniaethau | • Cysylltu â Daearyddiaeth trwy edrych ar lygredd plastig / rheoli gwastraff<br>• Astudio rhywogaethau mewn perygl. | Dŵr<br>Bioamrywiaeth |

Ffynhonnell: Miller Research, Arolwg Ar-lein Eco-Sgolion, n=66. Gofynnwyd i ymatebwyr 'Pa agweddau o'r cwricwlwm ydych chi wedi gallu eu cysylltu â phynciau / gweithgarwch Eco-Sgolion? Rhowch wybodaeth isod ar feysydd o'r cwricwlwm mae gweithgarwch Eco-Sgolion wedi eu cefnogi.' Cafodd yr atebion eu dadansoddi'n thematig.

5.51 Er bod gwaith yn cael ei wneud gan ysgolion i ymwreiddio gwaith Eco-Sgolion i'r cwricwlwm, cydnabuwyd gan gynrychiolwyr o ysgolion yr astudiaethau achos fod cyfleoedd i greu cysylltiadau pellach. Yn gyntaf, o fewn ysgolion cynradd mwy, nodwyd gan Gydlynwyr Eco fod heriau wrth geisio amser i ryddhau athrawon o waith ystafell ddosbarth i fapio lle gellid cyfosod gweithgareddau Eco-Sgolion a'u hymgorffori i waith arferol cynllunio cwricwlwm. I fynd i'r afael â'r broblem hon, fe wnaeth un ysgol wahanol cyfnodau allweddol yn ôl gwahanol bynciau Eco-Sgolion ac annog 'Diwrnod Gwyrdd' i'r ysgol

gyfan bob tymor, i gronni a rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws pob maes.

5.52 Rhwystrau eraill a amlygwyd gan ysgolion oedd gwahanol raddau o gefnogaeth gan aelodau staff. Nodwyd gan Gydlynwyr Eco fod rhai aelodau o staff yn gadarn y tu ôl i'r rhaglen, a bod eraill heb gynefino â'r cwricwlwm. O fewn ysgolion uwchradd yn benodol, dywedodd un prifathro fod aelodau o staff yn wynebu blaenoriaethau eraill sy'n cystadlu, yn ymwneud ag arholiadau, amrywiaeth eu gwersi a chysylltiadau trawsgwricwlaidd. Er eu bod yn teimlo bod Eco-Sgolion a'r Cwricwlwm i Gymru yn cydweddu'n naturiol â'i gilydd, roeddent o'r farn fod angen cymhellion mwy i athrawon wneud cysylltiadau a chynllunio gweithgareddau, fel nad oeddent yn cael eu gweld fel ychwanegiadau. Un argymhelliad oedd y posibilrwydd o greu mwy o adnoddau parod wedi eu targedu'n benodol at ysgolion uwchradd ar gyfer gwneud Eco-Sgolion yn rhan fwy amlwg o'r cwricwlwm newydd. Yn ogystal, rhaid i gynigion i gysoni cymwysterau â'r Cwricwlwm newydd i Gymru gael eu hystyried hefyd yn y ffordd y caiff Eco-Sgolion eu cyflwyno. Roedd Cymwysterau Cymru yn bwriadu diweddaru cymwysterau i gefnogi'r cwricwlwm newydd a gyflwynwyd o fis Medi 2022[40]. Roedd hyn yn cynnwys gwneud cymwysterau yn fwy hyblyg, gyda chynnwys pwnc mwy diddorol, a gosod llesiant dysgwyr yn gyntaf. Pan wnaed yr adroddiad hwn, roedd yr ymgynghoriad yn mynd ymlaen gyda disgwyl iddo gael ei gyhoeddi'n fuan.

5.53 Wrth baratoi datblygu cymwysterau, roedd potensial ar gyfer creu cysylltiadau pellach â phresenoldeb Eco-Sgolion. Yn benodol, roedd awydd gan dîm Cadwch Gymru'n Daclus i ddatblygu adnoddau'n cysylltu Eco-Sgolion â chymwysterau arholiad ar gyfer TGAU a chymwysterau pellach i gefnogi ysgolion uwchradd. Byddai hyn yn gydnaws â'r cynnig am gynnwys pwnc mwy diddorol ac amrywiol.

[40] Cymwysterau Cymru. Cymwys ar gyfer y Dyfodol. 2021

**Monitro a Gwerthuso cynnydd**

5.54 Fel rhan o broses Saith Cam Eco-Sgolion, mae Cam Pedwar: Monitro a Gwerthuso yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion werthuso effaith y gwaith pwnc yn eu cynllun gweithredud, asesu beth a weithiodd yn dda a sut y gall yr Eco-Bwyllgor ddatblygu eu Eco-Weithredoedd yn y dyfodol. Caiff data a gesglir drwy'r broses hon i ddefnyddio hefyd mewn rhai achosion i ddangos tystiolaeth o gynnydd tuag at bedair lefel ddyfarniadau Eco-Sgolion.

5.55 Datgelodd cyfweliadau gydag ysgolion yr astudiaethau achos fod monitro a gwerthuso wedi cael ei gyflawni'n wahanol rhwng ysgolion, ar sail eu cyd-destun a'u lleoliad. O fewn rhai o ysgolion yr astudiaethau achos, cyflawnwyd monitro fel rhan o waith dosbarth a gweithgareddau wythnosol. Dywedodd un ysgol uwchradd, er enghraifft, eu bod wedi cyflawni adolygiad o ailgylchu wythnosol yn ystod gwersi mathemateg, a ddefnyddiwyd ers hynny fel rhan o'u harchwiliad adnewyddu statws Platinwm bob blwyddyn. Esboniodd yr Cydlynydd Eco fod dysgwyr yn treulio cryn dipyn o amser yn cyfrif poteli plastig a phapur o finiau olwynion ac yn creu cyfrifiad ar gyfer symiau bras o ailgylchu. Mewn ysgol gynradd arall, roedd dysgwyr yn monitro'r swm o fwyd a gwastraff arall trwy bwyso sbwriel a bwyd a oedd ar ôl o blatiau yn y ffreutur bob wythnos.

5.56 Yn un arall o ysgolion yr astudiaethau achos, fe wnaeth yr Eco-Bwyllgor grybwyll pa mor ddefnyddiol oedd eu hadolygiad amgylcheddol roeddent yn ei gyflawni ar ddechrau pob blwyddyn, i'w ddefnyddio fel arf monitro blynyddol. Esboniodd yr Cydlynydd Eco fod yr adolygiad amgylcheddol cael ei arwain gan y dysgwyr, wrth i un o bynciau Eco-Sgolion gael ei ddynodi i bob grŵp blwyddyn, a oedd yn rhoi adborth ar feysydd gweithredu allweddol ac yn datblygu Cynllun Gweithredu ar y cyd. Roedd hyn yn amlinellu amcanion ar gyfer lle'r oedd bylchau yng nghynnydd yr ysgol roedd angen gweithredu arnynt gan ddefnyddio targedau ar gyfer pob blwyddyn/tymor.

5.57 Ymysg holl ysgolion yr astudiaethau achos, roedd cynnydd Cynllun Gweithredu'r ysgolion yn cael ei drafod gan yr holl ysgol, yn hytrach na chan yr Eco-Bwyllgor yn unig. Dywedodd yr Cydlynydd Eco mewn un ysgol ffydd, er enghraifft, fod cynrychiolydd o bob grŵp blwyddyn yn rhoi adborth i'r holl ysgol yn ystod amser gweithdai bob wythnos, i ddangos cynnydd a chynnal diddordeb pawb o'r dysgwyr.

*Dyfarniadau Eco-Sgolion: proses asesu*

5.58 Cafodd y defnydd o gynllun dyfarnu Eco-Sgolion ei amlygu fel elfen hanfodol o'r rhaglen i ddysgwyr, rhanddeiliaid ysgolion a chymuned ehangach yr ysgol. Roedd yr Eco-Bwyllgorau o fewn ysgolion yr astudiaethau achos yn rhannu teimlad llethol o falchder ynghylch y broses ddyfarnu, a oedd yn rhoi teimlad o lwyddo a symbyliad. Yn achosion ysgolion Baner Werdd a Phlatinwm, roedd yr ymweliad gan Swyddogion Eco-Sgolion i gyflawni'r asesiad yn gyfle cyffrous i ddangos y gwaith roedd dysgwyr wedi bod yn ei wneud dros y flwyddyn. Darlunir uchafbwyntiau o brofiadau dysgwyr wrth ennill eu dyfarniad Eco-Sgolion yn yr astudiaeth achos isod.

**Astudiaeth Achos: Ysgol Gynradd Bodnant –** sylwadau gan Eco-Bwyllgor yr ysgol ar eu dyfarniad Eco-Sgolion

**Sut oeddech chi'n teimlo pan gawsoch chi'ch gwobr ddiwethaf? Sut wnaethoch chi ddathlu …**

*"Fe [wnaethon ni] ddangos yr Eco-Asesydd o gwmpas yr ysgol. Roedd o'n gwir hoffi tir ein hysgol a sut mae gennym lawer o finiau felly os oes gennych chi sbwriel, gallwch ei roi yn y bin."*

*"Falch ohonom ein hunain yn ennill yr anrhydedd. Dim llawer o ysgolion o gwmpas Cymru fyddai'n cael hynny. Hapus oherwydd bod mwy o bobl yn cymryd rhan, a dw i wrth fy modd o weld pobl yn gwybod mwy [am Eco-Sgolion]."*

*"Fe wnaethon ni gymeradwyo a phethau yn y gwasanaeth."*

5.59 Roedd Cydlynwyr Eco o fewn ysgolion yr astudiaethau achos hefyd yn nodi pwysigrwydd yr **achredu** am ddyfarniadau ar lefelau Baner Werdd a Phlatinwm, a oedd yn gweithredu fel nod a llinyn mesur clir o lwyddiant i ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen. Roedd cynrychiolwyr o Cadwch Gymru'n Daclus yn pwysleisio mai un o brif nodau ac uchelgeisiau'r rhaglen oedd i fwy o ysgolion gyrraedd statws Baner Werdd, er mwyn galluogi twf a datblygiad pellach ysgolion. Mae'r Faner Werdd yn gweithredu hefyd fel mesur o gynnydd Cadwch Gymru'n Daclus gan ei fod yn dangos bod ysgolion wedi cael eu cefnogi'n ddigonol i dderbyn y dyfarniad.

5.60 Drwy gydol y gwaith maes gydag ysgolion yr astudiaethau achos, roedd Cydlynwyr Eco ac athrawon yn gadarn eu cefnogaeth i'r system asesu a ddefnyddir gan Eco-Sgolion a'r meini prawf dyfarnu ar gyfer archwilio cynnydd yn y rhaglen. Roedd consensws ymysg staff yr ysgol fod y broses yn ffordd deg a chefnogol i gyflawni asesiadau, er bod rhai yn nodi sawl cyfle i'r broses ddod yn fwy effeithlon fyth a haws fyth ei defnyddio i ysgolion.

5.61 Er enghraifft, teimlai nifer bach o ysgolion yr astudiaethau achos fod ffyrdd gwell o ymgeisio am ddyfarniad na thrwy ddefnyddio ffurflen ar-lein. Yn ôl yr Cydlynydd Eco o un ysgol, wrth i asesiad ddynesu, roedd yn cymryd cryn dipyn o amser o gasglu'r holl ddogfennaeth a'r lluniau a oedd eu hangen i ddangos tystiolaeth o gynnydd, a oedd yn her neilltuol yn ystod cyfnodau prysur. Mae hyn wedi arwain at un ysgol yn monitro cynnydd mewn 'dogfen fyw' dros y flwyddyn, er mwyn sicrhau bod yr holl dystiolaeth yn cael ei storio mewn un lle. Roedd awydd gan yr ysgolion hyn o'r astudiaethau achos i'r rhaglen gynnig mwy o hyblygrwydd i adrodd mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, trwy allu uwchlwytho copi o'u dogfen eu hunain, yn hytrach na llenwi'r ffurflen, neu trwy adrodd 'wrth fynd' cyn gynted ag roedd gwybod yn cael ei chasglu drwy gydol y flwyddyn.

5.62 Teimlai un arall o ysgolion yr astudiaethau achos fod cyfleoedd pellach i ystyried y **mathau** o ddata a gesglir ac yr adroddir arno ar gyfer asesiadau. Dywedodd yr Cydlynydd Eco o un astudiaeth achos

mai'r effeithiau pwysicaf a mwyaf trawsffurfiannol oedd y rheini a welid yn ystod gweithareddau'n ymwneud ag agweddau dysgwyr yn newid ac addasu. Dywedodd ysgolion fod y dystiolaeth hon yn anodd ei chasglu, ei mesur a'i chyfleu.

5.63 Roedd gan Swyddogion Eco-Sgolion syniadau i leihau rhai o'r problemau hyn trwy ddatblygu ap Eco-Sgolion Cymru sy'n ymgorffori'r Adolygiad Amgylcheddol ym mhob ysgol, eu Cynllun Gweithredu a'r cais am ddyfarniadau. Byddai'r ap yn galluogi Eco-Sgolion i gasglu data ar y nifer o ysgolion yn cymryd camau penodol, gan hefyd symleiddio'r broses asesu a chasglu tystiolaeth i'r ysgolion eu hunain.

5.64 O ran ysgolion Platinwm, her a godwyd gan un ysgol astudiaeth achos oedd y gallu i gynnal gweithgareddau i adnewyddu statws Platinwm bob blwyddyn. Teimlai'r Cydlynydd Eco mai dim ond hyn a hyn y gallai'r ysgol ei wneud yn y flwyddyn rhwng pob cyfnod asesu ac awgrymodd y gallai'r rhaglen wella trwy ymestyn y ffrâm amser rhwng asesiadau. Teimlent y byddai hyn yn caniatáu mwy o amser i'r ysgol ddatblygu syniadau newydd a chyflawni prosiectau mwy, o bosibl mewn cydweithrediad ag ysgolion eraill yn eu hardal, i helpu gyda llwyddiant parhaus, ar y cyd. Roedd nifer bach o ymatebwyr i'r arolwg hefyd yn rhannu'r safbwyntiau hyn, gyda chwech allan o 54 o ymatebwyr yn nodi eu bod wedi ei chael yn anodd cynnal gweithgarwch Platinwm.

*"Mae ein hysgol bellach yn dynesu at ein 3ydd neu 4ydd adnewyddiad. Fel Cydlynydd Eco, dw i'n ei chael yn anodd cyflwyno cynlluniau, syniadau a thystiolaeth newydd bob blwyddyn."*

Ymatebydd i Holiadur Eco-Sgolion, 2022

5.65 Mewn achosion eraill, teimlai ysgolion Platinwm fod y broses asesu wedi dod yn llawer haws unwaith roedd ysgolion wedi cyrraedd y lefel hon, gan fod eu gweithgareddau wedi eu mireinio'n fwy a systemau casglu data eisoes yn eu lle. Yn yr achosion hyn, roedd awydd gan ddwy o ysgolion yr astudiaethau achos i'r rhaglen gynnig lefelau

ychwanegol o ddyfarnu y tu hwnt i'r Platinwm, gyda meini prawf newydd, i helpu cynnal momentwm a'u hymrwymiad i'r rhaglen.

**Rhwystrau a heriau i ysgolion**

5.66 Yn ogystal â'r rhwystrau a amlinellir eisoes yn y bennod hon, cyfeiriodd ysgolion hefyd at sawl her arall i'w goresgyn i allu cymryd rhan yn llwyddiannus a chamu ymlaen drwy'r rhaglen.

*Pandemig Covid-19*

5.67 O ran Covid-19, roedd nifer o Gydlynwyr Eco a'u Eco-Bwyllgorau wedi parhau i gyflwyno'r rhaglen er gwaethaf gweithio o dan amodau cyfyngedig yn yr ysgol neu ddysgu o gartref. Roedd ysgolion yr astudiaethau achos yn rhannu amrywiaeth o enghreifftiau o sut roedd y pandemig wedi effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar eu gwaith Eco-Sgolion.

5.68 Un o effeithiau mwyaf y pandemig i Gydlynwyr Eco a dysgwyr ar draws ysgolion astudiaethau achos oedd y symudiad o gyflwyno wyneb yn wyneb i ar-lein, a'r effeithiau canlyniadol mae hyn wedi eu cael ar y raddfa a'r math o weithgareddau roedd ysgolion yn gallu eu cyflawni. Er bod Eco-Bwyllgorau yn dal i allu cyfarfod yn rhithiol, nodwyd gan rai ysgolion fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn llai rheolaidd na'r hyn oedd arferol yn sgil blaenoriaethau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd a staff mwy cyfyngedig. Yn yr un modd, mater arall a godwyd gan ddwy o ysgolion yr astudiaethau achos oedd goblygiadau amodau cyfyngedig yn eu hysgol yn ystod dychweliad graddol dysgwyr. Er enghraifft, dywedodd un ysgol nad oedd dysgwyr ar yr Eco-Bwyllgor wedi gallu croesi swigod a chymysgu gyda grwpiau blynyddoedd eraill. Roedd hyn wedi arwain at ddiffyg gwybodaeth dysgwyr o ddisgwyliad blaenorol yr Eco-Bwyllgor a'u rolau penodol.

5.69 Oherwydd cyfnodau clo, roedd mwyafrif ysgolion yr astudiaethau achos yn nodi bod dysgwyr hefyd wedi profi lleihad mewn cyfleoedd dysgu awyr agored gyda'u cymheiriaid, a gweithio gyda'r gymuned leol. Er gwaethaf hyn, roedd ysgolion yn gallu teilwra eu Eco-

Weithredoedd fel eu bod yn cael eu cyflwyno o gartref ac felly'n ymestyn y gweithgarwch i deuluoedd dysgwyr. Dywedodd yr Cydlynydd Eco o un ysgol, er enghraifft, eu bod wedi gallu trefnu prynhawn o gasglu sbwriel gan gadw pellter cymdeithasol mewn coetiroedd gerllaw'r ysgol, gydag aelodau o'u Eco-Bwyllgor o Gyfnod Allweddol 2. Roedd y gweithgarwch yn cynnwys rhieni a'u plant yn tynnu lluniau o faint o sbwriel oeddent wedi ei gasglu, i'w rhannu gyda'u cymheiriaid. Roedd Cydlynydd Eco arall wedi datblygu arolwg trydan gyda'u Eco-Bwyllgor a anfonwyd allan i bob disgybl yn yr ysgol; a oedd yn annog rhieni i asesu eu defnydd o ynni gartref.

5.70 Sylw diddorol arall a wnaed gan un ysgol astudiaeth achos oedd eu bod wedi gallu defnyddio adnoddau'r ysgol yn well yn ystod y pandemig, o ganlyniad i'r symudiad at gyflwyno rhithiol. Roedd hyn oherwydd eu bod yn gallu arbed cryn dipyn o amser a chyllid trwy gyflwyno a dysgu rhithiol. Esboniodd Cydlynydd Eco yr ysgol fod eu hysgol yn gallu ailddyrannu cyllid a ddefnyddiwyd gynt i gyflwyno gweithgareddau ystafell ddosbarth, tuag at waith Eco-Sgolion. O ganlyniad, roeddent yn gallu adolygu eu cynlluniau a phrynu offer ychwanegol i'r Eco-Bwyllgor a'r ysgol eu defnyddio, pan oeddent yn dychwelyd at gyflwyno wyneb yn wyneb.

*Rhwystrau eraill*

5.71 Rhwystr i nifer o ysgolion mewn ardaloedd mwy trefol oedd y diffyg lle ar gyfer dysgu awyr agored, yn enwedig pan nad oedd ganddynt lecynnau gwyrdd na thir coedwig yn agos at yr ysgol.

5.72 Roedd diffyg cefnogaeth i'r rhaglen gan aelodau eraill o staff ymysg rhwystrau eraill a godwyd gan nifer o ymatebwyr i'r arolwg. Y teimlad oedd bod, mewn rhai achosion, cydweithwyr yn gwbl gefnogol i hwyluso'r rhaglen o fewn eu hysgol, lle bo eraill yn dangos difaterwch tuag at yr Eco-Bwyllgor ac Eco-Weithredoedd. Roedd hyn yn creu rhwystrau i ysgolion rhag sicrhau dull ysgol-gyfan o weithredu'r rhaglen ac anawsterau wrth ymwreiddio Eco-Sgolion ar draws y

cwricwlwm. Yn ogystal, roedd maint yr ysgol weithiau'n effeithio ar y gallu i weithredu dull trawsgwricwlaidd, ysgol-gyfan.

5.73 Yn olaf, rhwystr a grybwyllwyd gan ysgolion yr astudiaethau achos, ac ymatebwyr i'r arolwg ar-lein oedd yr anallu i gyflawni prosiectau mwy Eco-Sgolion lle'r oedd adnoddau'n gyfyngedg a/neu eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer Eco-Weithredoedd eraill. Teimlai un o ysgolion yr astudiaethau achos, er enghraifft, fod mwy o gyfleoedd i weithio mewn clystyrau gydag ysgolion eraill yn eu hardal leol i gyflawni canlyniadau mwy trwy ddarnau cydweithredol o waith. Un enghraifft a ddefnyddiwyd yma oedd awydd i osod ffynonellau ynni adnewyddadwy i'w hysgol, ond nad oeddent yn gallu cyflawni'r prosiect hwn heb adnoddau sylweddol a chefnogaeth gan yr awdurdod lleol. Y teimlad oedd bod cyfle i gydweithio ag ysgolion eraill cyfagos sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, i rannu syniadau a chydgysylltu prosiect ar y cyd lle gallai pob ysgol gael ei phweru gan ynni adnewyddadwy lleol. Un o fanteision y dull hwn oedd y posibilrwydd hefyd o ddarganfod gwybodaeth newydd ar gysylltiadau proffesiynol ledled y sir y gellir eu defnyddio ar gyfer Eco-Weithredoedd pellach.

# 6. Cymhariaeth ryngwladol o’r arferion gorau

6.1 Er mwyn dysgu mwy am waith y rhaglen mewn cyd-destunau rhyngwladol ac i roi cipolwg o feysydd posibl i’w harchwilio yng nghyd-destun Cymru, bu tîm y prosiect yn cyd-drafod â chynrychiolwyr cenedlaethol o FEE, Eco-Sgolion Lloegr (a gaiff ei redeg gan Keep Britain Tidy), Eco-Sgolion yr Alban (a gaiff ei redeg gan Keep Scotland Beautiful), a Nature’s Trust Malta.

6.2 Rhoddodd y trafodaethau ddealltwriaeth inni o nifer o themâu perthnasol a chyffredin, gan gynnwys:

- Gwahaniaethau mewn strwythur dyfarniadau
- Gwahaniaethau rhwng lleoliadau ysgolion gwledig a threfol
- Heriau wrth ennyn diddordeb ysgolion uwchradd.

### Elfen ryngwladol y rhaglen

*Rôl FEE*

6.3 Bu tîm y prosiect yn cyd-drafod â rhai o’r prif randdeiliaid o fewn FEE i helpu’r tîm i ddeall mwy am elfen ryngwladol y rhaglen, yn ogystal â chyd-destunau amrywiol y gwaith rmewn gwahanol wledydd.

6.4 Roedd dehongliad FEE ynghylch yr hyn oedd yn ysgogi gwahanol wledydd i chwarae rhan mewn hwyluso gwaith Eco-Sgolion yn ymwneud yn bennaf â chefnogi pobl ifanc i ddod yn ddinasyddion byd-eang gwybodus. Gan bwysleisio newid hinsawdd fel her fyd-eang, roedd y rhanddeiliaid FEE y siaradwyd â hwy yn cyflwyno rhaglen Eco-Sgolion fel llwyfan amlwg ar gyfer deall hyn ac i feddwl ynghylch beth ellid ei wneud yn eu gwlad eu hunain i fynd i’r afael â hyn. Yn ogystal, roedd FEE yn gweld Eco-Sgolion fel cyfrwng i alluogi newid diwylliannol hanfodol yn y ffordd y câi addysg ei chyflwyno.

6.5 Trwy roi mwy o bwyslais ar gymryd rhan a grymuso pobl ifanc i lywio eu taith Eco-Sgolion eu hunain o’r tu mewn, dywedodd y rhanddeiliaid

FEE fod y rhaglen yn creu buddion o ran cefnogi gweithgarwch a photensial pobl ifanc. Law yn llaw â hyn, gwelwyd ei bod yn meithrin a hyrwyddo'r gallu i feddwl yn feirniadol – gan annog dysgwyr i fod yn fwy rhagweithiol a bod yn well am ddatrys problemau. Yn gyffredinol, roedd yn werth amlygu bod gwerthoedd ac uchelgeisiau FEE yn cynrychioli cydnawsedd clir â gweithredoedd Llywodraeth Cymru, sydd wedi canolbwyntio'n gryf ar bwysigrwydd grymuso pobl ifanc. Fel y manylwyd yn y dadansoddiad polisi yn Adran 1, mae datblygu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, diogelu Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith, a datblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn adlewyrchu ymdrechion bwriadol i werthfawrogi pobl ifanc a'u harfogi hwy ar gyfer eu dyfodol.

6.6 I raglen Eco-Sgolion, y ffordd orau o ddeall gwerth yr elfen ryngwladol oedd trwy ei phwyslais ar ddinasyddiaeth fyd-eang – a luniwyd i helpu dysgwyr i ddeall y cysylltiadau rhwng materion lleol a byd-eang. Trwy hyn, caiff dysgwyr eu hannog i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu hysgolion, a hefyd i ddeall sut y gellir gweithredu newidiadau yn y gymdeithas yn ehangach. Mae hyn yn cynnig man cychwyn allweddol ar gyfer helpu pobl ifanc i ddysgu am feysydd polisi perthnasol a'r materion strwythurol ehangach a all lesteirio neu alluogi cynnydd amgylcheddol yn eu gwlad.

6.7 Yn allweddol, mae gosod pwyslais ar gysylltu gweithgareddau'n fyd-eang hefyd yn atgyfnerthu'r neges fod yn rhaid mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd mewn ffordd sy'n unedig a theg. Gan y bydd yr argyfwng yn effeithio ar wahanol wledydd mewn gwahanol ffyrdd, mae hefyd yn cynnig cyfle dilys ac ymarferol i ddysgwyr gael dysgu am gyd-destunau a diwylliannau'r tu allan i Gymru.

6.8 Gyda'r Cwricwlwm newydd i Gymru'n rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd datblygu 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus o Gymru a'r byd', roedd ymwneud ag Eco-Sgolion yn un o'r ffyrdd amlycaf a mwyaf effeithiol o hwyluso ymwybyddiaeth ryngwladol mewn lleoliad ysgol. Mae'r sgiliau a gaffaelir trwy Eco-Sgolion (arwain,

ymwybyddiaeth fyd-eang, gweithredu, atebolrwydd) i gyd yn rhai trosglwyddadwy ac yn fuddiol ar gyfer creu dinasyddion cyfrifol.

*Ffactorau llwyddiant allweddol*

6.9 O ran llywio llwyddiant y rhaglen mewn unrhyw wlad, roedd FEE yn crybwyll pwysigrwydd cyllid Llywodraeth wrth esblygu Eco-Sgolion yn y Deyrnas Unedig. Yn allweddol, mae FEE yn pwysleisio cyswllt allweddol o ran ansawdd rhwng rhaglenni llwyddiannus sydd â chefnogaeth y Llywodraeth o safbwynt gweledigaeth a gwerthoedd cyffredin. Yn enwedig, roedd hyn yn fwyaf gwerthfawr pan oedd y system addysg o fewn gwlad gyfan yn mynd ati'n fwriadol i gefnogi'r rhaglen. I FEE, mae ennill cefnogaeth y cyhoedd wedi helpu rhoi mandad cryfach ar gyfer integreiddio'r rhaglen fel rhan ganolog o weithgareddau ysgol.

*Themâu sy'n dod i'r amlwg*

6.10 Pan ofynnwyd iddynt ynghylch esblygiad themâu penodol, dywedodd FEE fod arbed ynni wedi dod yn thema allweddol mewn ysgolion ledled y byd – gydag ysgolion yn archwilio ffyrdd o leihau treuliant neu bontio i ynni adnewyddadwy. Yn unol â hyn, roedd thema trafnidiaeth i'w gweld yn 'dal i fyny'n araf' – gyda thueddiad cynyddol yn dod i'r amlwg o ysgolion yn mynd i'r afael â'r pwnc.

6.11 Yn ogystal, cyfeiriodd FEE at gynllun peilot ddwy flynedd yn ôl a oedd yn dangos awydd clir ysgolion i weithio ar egwyddorion Economi Gylchol – gan gychwyn gyda chynlluniau gwersi ac iddynt y nod o gynyddu gweithredu cylchol o fewn amgylchedd yr ysgol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd amrywiaeth o brosiectau'n digwydd ym maes yr economi gylchol yng Nghymru, sy'n rhoi cyfleoedd helaeth i ddysgwyr gymryd rhan.

6.12 O ran themâu yn y dyfodol, crybwyllodd FEE hefyd botensial Eco-Gampysau fel pwnc trafod. Awgrymwyd y byddai angen tîm adnoddau

dynol ychwanegol i gyflwyno'r rhaglen ar lefel addysg uwch fodd bynnag, ar gyfer graddfa'r gweithgarwch gyda champysau colegau a phrifysgolion. Er bod Eco-Gampysau yn cynnig nifer o gyfleoedd (yn benodol mewn ymchwil), byddai cynyddu capasiti ar bob lefel yn hanfodol ar gyfer ei lwyddiant.

**Astudiaethau achos**

**Yr Alban**

6.13 Yn yr Alban, caiff Eco-Sgolion ei reoli gan Keep Scotland Beautiful (KSB) a'i gyllido gan y Cyfarwyddiaethau Addysg a Newid Hinsawdd o fewn Llywodraeth yr Alban. O'r herwydd, mae mecanweithiau adrodd yn bwydo i'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar yr Hinsawdd, ac yn fwy diweddar, y Cynllun Gweithredu Sgiliau Argyfwng Hinsawdd.

6.14 Dywedodd rhanddeiliaid o KSB fod yr elusen yn 2018 wedi dathlu 25 mlynedd o waith Eco-Sgolion yn yr Alban, gan drafod sut roedd y rhaglen wedi esblygu dros amser. Roedd y prif anghenion dros y rhaglen a nodwyd gan KSB yn ymwneud â datblygu gweithredu cadarnhaol a newid ymddygiad ehangach ymysg pobl ifanc a'u cymunedau. Roedd natur a strwythur y rhaglen yn cael eu gweld fel galluogydd ar gyfer ymwreiddio cynaliadwyedd ac ymddygiadau cadarnhaol i ddysgwyr, yn ogystal â gwella safonau proffesiynol i athrawon.

6.15 O ran gweithredu, roedd KSB yn cydnabod newid mewn pwyslais a oedd wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf, a oedd yn adlewyrchu brys cynyddol yr angen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Fel y sylwyd gan ysgolion sy'n ymwneud â'r gwaith yng Nghymru, mae'r ysgogwyr wedi symud y tu hwnt i ystyriaethau amgylcheddol arwynebol, ee rhwystro sbwriel a gwastraff, gwella tir yr ysgol, ac annog cerdded/beicio i'r ysgol. Bellach, roedd ysgolion wedi cael eu symbylu'n llawer mwy i ystyried *effaith* ehangach eu gweithredoedd dros yr hirdymor. Roedd hyn yn cael ei weld hefyd fel

rhywbeth sy'n cynnig cyfleoedd i gysylltu pynciau a themâu mewn modd mwy cyfannol ar draws y cwriclwm.

6.16 O ran y cyfyngiadau ar y gwaith, esboniodd KSB fod eu model staffio wedi achosi cyfyngiadau gan ei fod yn gweithredu ar sail tîm o staff craidd a oedd cyflawni ar lefel genedlaethol, yn ogystal â chael cyfrifoldebau dros raglenni eraill. Dewis a oedd yn cael ei ffafrio gan KSB fyddai symud at fodel rhanbarthol, fodd bynnag mae lleihad cyson mewn cyllid sector cyhoeddus wedi gwneud y senario hon yn annhebygol. O ganlyniad, roedd rhanddeiliaid yn gweld y ffordd y cynhaliwyd cyllid flwyddyn ar flwyddyn fel rhywbeth cadarnhaol, yn wyneb heriau ehangach ar draws y tirwedd ariannu.

*Strwythur y gwaith*

6.17 Roedd rhanddeiliaid o KSB yn nodi eu bod wedi cael gwared ar y lefelau cynnydd dyfarniadau efydd/arian/aur i Eco-Sgolion yn yr Alban, gan gadw'r Faner Werdd gydnabyddedig yn ei lle fel gwobr. Roedd y pwyslais yn lle hynny ynghylch ennill statws Baner Werdd fel 'taith' a pharhau i adnewyddu a chynnal hyn gan ysgolion flwyddyn ar flwyddyn. Roedd ysgolion yn cael eu helpu wedyn gydag adnewyddu eu cynnydd, er mwyn adnabod camau gweithredu newydd i weithio tuag at y cyfnod dwy-flynedd newydd, wrth ymgeisio i adnewyddu eu statws.

6.18 Roedd KSB yn rhoi pwyslais ar y niferoedd o ysgolion yn ymwneud â'r rhaglen, ac adroddwyd bod y ffigurau'n sefyll ar tua 50 y cant, yn 2022. Ar un cyfnod, dywedodd y mudiad fod yr Alban wedi cyrraedd cofrestru o 95 y cant, ond er bod hyn yn hynod gadarnhaol, fe wnaeth ysgogi'r tîm hefyd i gael gwared ar ddyfarniadau ac edrych yn agosach at chwarae rhan gweithredol.

*Gweithgarwch*

6.19 Wrth edrych yn fanylach ar rwystrau, cyfeiriodd KSB at sawl her i ysgolion yn yr Alban sydd wedi eu cofrestru i'r rhaglen, gan gynnwys lleoliad daearyddol a'r gwahaniaethau rhwng lleoliadau ysgolion. Pwysleisiwyd bod gan ysgolion mewn lleoliadau trefol / y tu mewn i ddinasoedd lawer mwy o ffactorau i ddygymod â hwy a bod angen iddynt yn aml fod yn fwy creadigol i integreiddio gweithgareddau Eco-Sgolion o fewn yr ysgol. Ar begwn arall y raddfa, roedd gan ysgolion mewn lleoliadau ysgolion gwledig sydd â thir naturiol fantais yn aml wrth weithredu gweithgareddau fel plannu, tyfu bwyd, a gwella bioamrywiaeth. Y farn oedd bod lleoliad yn cael effaith ganlyniadol hefyd o ran hygyrchedd a'r realiti ymarferol o wella trafnidiaeth yn ôl ac ymlaen i ysgolion.

6.20 Ar thema manteision ac anfanteision naturiol, nodwyd bod gwahaniaethau amlwg o ran graddfa lleoliadau ysgol hefyd yn cael effaith. Er enghraifft, roedd ysgolion pentref mewn sefyllfa lawer gwell i weithredu'r rhaglen ar lefel yr ysgol gyfan (o fewn llinell amser fyrrach) nag ysgolion cyfun y tu mewn i ddinasoedd, rhai roedd angen iddynt ddylanwadu ar gymuned ysgol sylweddol fwy. I grynhoi, teimlai KSB nad oedd y system ddyfarnu efydd/arian/aur yn cymharu tebyg at ei debyg, gan fod lleoliad pob ysgol yn unigryw.

6.21 Yn olaf, y rhwystr cyffredin arall a nodwyd gan KSB oedd amser – gan nad oedd cymryd rhan mewn Eco-Sgolion yn weithgaredd orfodol. Y teimlad oedd y gall blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd olygu bod ysgolion sydd eisoes yn gwneud gwaith da fel rhan o'u gweithgareddau rheolaidd ond nad oedd yn cymryd rhan yn y broses asesu i gael eu cydnabod yn swyddogol. Golygai hyn fod KSB yn ymwybodol o'r angen i symleiddio'r broses gymaint â phosibl, gan gynnal dilysrwydd a gwerth y rhaglen yr un pryd heb gyfaddawdu.

6.22 Roedd pob her a godwyd gan KSB yr un mor wir yng nghyd-destun Cymru. O ran gwersi a ddysgwyd i oresgyn yr anfanteision cyffredin, naturiol, mae rhai ysgolion yn eu hwynebu, gall fod angen

ystyriaethau eraill yng Nghymru, er mwyn 'gwastadhau'r cae chwarae' a sicrhau bod ysgolion mwy, trefol, yn ennill cymorth arbenigol.

*Heriau wrth ennyn diddordeb ysgolion uwchradd*

6.23 Roedd KSB hefyd yn crybwyll heriau tebyg i Gymru wrth ennyn diddordeb ysgolion ar y lefel uwchradd. Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod ei bod yn haws yn aml i gychwyn gweithgarwch ar lefel y blynyddoedd cynnar, yn wyneb y cynnydd naturiol yn rhan rhieni yn ystod blynyddoedd ysgol gynradd. O'r herwydd, y teimlad oedd ei bod yn haws hefyd ymwneud â'r ysgol fel 'cymuned' oherwydd cyfraniad a brwdfrydedd rhieni. Y tu hwnt i Gyfnod Allweddol 3 fodd bynnag, ar y lefel uwchradd, roedd y canolbwyntio sydyn gan athrawon a dysgwyr ar gylchoedd arholiadau yn gorfodi blaenoriaeth ac yn gosod cyfyngiad ychwanegol ar amser.

6.24 Er mwyn mynd i'r afael â hyn, roedd KSB yn ystyried pwyslais o'r newydd ar osod pobl ifanc i arwain gwaith Eco-Sgolion. Roedd nifer o randdeiliaid y siaradwyd â hwy dros gwrs yr adolygiad yn pwysleisio cynnydd amlwg yn awydd pobl ifanc i ddysgu am wir effaith newid hinsawdd, wrth gael eu hysbrydoli gan fudiadau pobl ifanc ledled y byd. O'r herwydd, roedd KSB yn adolygu'r system asesu, i ymchwilio a allai pobl ifanc arwain wrth gydgysylltu gweithgareddau ac adrodd ar gynnydd, yn lle athrawon a Cydlynwyr Eco. Gallai hyn leihau'n sylweddol raddau'r baich y gall athrawon gredu sy'n ymwneud â gweithredu Eco-Sgolion, yn enwedig ar lefel ysgol uwchradd.

6.25 Yn ogystal, er mwyn hybu gweithgarwch pellach, nodwyd bod KSB yn chwilio'n barhaus am ffyrdd ychwanegol o ennyn diddordeb dysgwyr ysgolion uwchradd, gan ystyried beth sy'n gweithio i ysgolion uwchradd sydd wedi ymwneud â'r rhaglen ers sawl blwyddyn. Dywedodd KSB fod rhai ysgolion sydd ar eu 12$^{fed}$ Dyfarniad Baner Werdd wedi bod gyda'r rhaglen ers iddi gael ei chyflwyno yn yr Alban ac sy'n dal i fod yn ysgolion arloesol a gweithgar oherwydd y gweithredu cadarnhaol a gyflawnir gan ddysgwyr yn cymryd

cyfrifoldeb dros adnewyddu dyfarniadau. Yn ogystal, bu KSB yn gweithio gyda Skills Development Scotland er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar y ffyrdd y gallai rhaglen Eco-Sgolion arfogi pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau gwyrdd sydd eu hangen ar gyfer marchnadoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

**Lloegr**

6.26 Keep Britain Tidy (KBT) sy'n cydgysylltu rhaglen Eco-Sgolion yn Lloegr ac mae'n cynnwys tîm o 3.5 cyfwerth ag amser llawn sy'n rheoli adnoddau a'r gweithredu. Teimlai rhanddeiliaid KBT mai eu diben cyffredinol oedd galluogi pobl ifanc i feddwl yn amgylcheddol, ac erbyn 2022, roeddent wedi mynd trwy newid dramatig yng ngwaith y rhaglen oherwydd adnoddau cyfyngedig.

*Strwythur y gweithredu*

6.27 Mae'r gweithredu gan KBT yn wahanol i'r ffordd y caiff y rhaglen ei gweithredu yng Nghymru, yn yr ystyr nad yw KBT yn cyflwyno unrhyw ddigwyddiadau Eco-Sgolion nag yn ymweld ag ysgolion ar gyfer asesiadau. Yn lle hynny, mae KBT wedi dibynnu ar gyfathrebu â'u 11,000 o ysgolion trwy gylchlythyrau newyddion, negeseuon e-bost wedi eu targedu a hyfforddiant.

6.28 Yn 2022, symudodd y rhaglen at system ar-lein heb weithdrefnau gweithredu. Mae'r system ar-lein yn cynnwys proses 7-cam, sy'n costio £200 + TAW i ysgolion gyflwyno cais am gael eu hystyried ar gyfer dyfarniad, sy'n gofyn am dystiolaeth i'w cefnogi. Ar adeg y cyfweliad, roedd 1,736 o gyflwyniadau wedi cael eu derbyn ers i'r system gael ei gweithredu. Nodwyd bod staff Eco-Sgolion yn Lloegr yn darllen ac yn adolygu pob cais cyn ardystio'r ysgol gan ddefnyddio system haenog o lefelau Baner Werdd, Teilyngdod a Rhagoriaeth.

6.29 Dywedodd KBT fod cyswllt uniongyrchol ag ysgolion yn cael ei ddirprwyo i gynrychiolwyr awdurdodau lleol sy'n amlygu digwyddiadau

a gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen yn haearnaidd, gan y gall ysgolion gymryd y fframwaith cyffredinol a diwygio hyn i fod yn addas ar gyfer eu nodau eu hunain. Mae'r cylchlythyr newyddion yn amlygu gweithgareddau sy'n ymwneud ag Eco-Sgolion er mwyn helpu eu ceisiadau.

*Gweithgarwch*

6.30 Gwelodd KBT gynnydd mewn gweithgarwch gydag ysgolion yn 2022 ac roeddent yn priodoli hyn i lwyddiant COP26 yn Glasgow. Dywedwyd bod unrhyw ddigwyddiad neu gysylltiad wyneb yn wyneb ag ysgolion wedi ei gyfyngu gan gwmpas diwygiedig Eco-Sgolion yn Lloegr ar adeg y gwaith maes.

**Malta**

6.31 Caiff Eco-Sgolion ym Malta ei reoli a'i weithredu gan Nature's Trust – ac yn 2022, roedd yn cynnwys tua 84 y cant o boblogaeth plant y wlad (o gyn-ysgol i ôl-uwchradd). Caiff y rhaglen ei gweithredu yn ysgolion y wladwriaeth, ysgolion eglwys ac ysgolion annibynnol, ac mae Nature's Trust ar hyn o bryd yn ystyried y posibilrwydd o ehangu i eco-gynghorau ar lefel prifysgol.

6.32 Roedd sefydlu'r rhaglen ym Malta yn cyd-ddigwydd â thrafodaethau i gyflwyno a hyrwyddo'r Faner Las[41], cynllun sydd â Nature's Trust yn weithredwr cenedlaethol iddo ym Malta. Oherwydd y cysylltiad rhwng Eco-Sgolion a'r Faner Las, gwnaed y penderfyniad i weithredu a rhedeg y rhaglenni mewn modd cydlynol. O ran ffactorau llwyddiant, roedd rhanddeiliaid hefyd yn amlygu pwysigrwydd cefnogaeth wleidyddol o safbwynt gyrru'r rhaglen ymlaen. Y farn oedd bod Eco-Sgolion, wrth gael ei gyflwyno ym Malta yn 2002, wedi cyrraedd ar yr

[41] Dyfarniad rhyngwladol a roddir i draethau, porthladdoedd, angorfeydd a chychod twristiaeth cynaliadwy yw'r Faner Las. Mae'r Faner Las yn gweithio tuag at ddatblygu cynaliadwy ar draethau, angorfeydd trwy feini prawf llym sy'n ymwneud ag ansawdd dwr, addysg a gwybodaeth amgylcheddol, rheolaeth amgylcheddol, diogelwch a gwasanaethau eraill. Mae rhaglen y Faner Las yn un o'r pum rhaglen a gaiff ei rhedeg gan FEE.

'adeg iawn', o ystyried y trafodaethau gwleidyddol ar y pryd, newidiadau diwylliannol ym Malta ynghylch gwahanu gwastraff a diweddaru polisi amgylcheddol.

6.33 Roedd i'r hyn oedd yn ysgogi'r rhaglen ym Malta lawer yn gyffredin â chyd-destun Cymru, gyda rhanddeiliaid yn pwysleisio pwysigrwydd cyfiawnder cymdeithasol a grymuso – o ran cynnwys pobl ifanc yn uniongyrchol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu dyfodol. Yn ogystal, roedd pwyslais allweddol mewn polisi ar gyflwyno lle i blant a phobl ifanc, sy'n cael eu hallgáu a'u hanwybyddu mor aml. Ar adeg y gwaith maes, esboniodd Nature's Trust fod trafodaethau ar waith i sefydlu cyfarfodydd rheolaidd rhwng pobl ifanc o Eco-Sgolion a phwyllgor parhaol o'r senedd ar gynnydd amgylcheddol a datblygu cynaliadwy.

*Effaith ehangach*

6.34 Fel yng Nghymru, mae gwaith Eco-Sgolion ym Malta yn gwneud ymdrech ystyriol i gysylltu â rhaglenni eraill perthnasol. Fel enghraifft, dywedodd Nature's Trust fod y rhaglen wedi defnyddio misoedd yr hag ar gyfer addysg amserol, cael pobl ifanc i ymwneud â dysgu am draethau a gweithio tuag at y Faner Las. Roeddent hefyd yn cael 'gohebwyr ifanc' i annog rhannu gwybodaeth ac atebolrwydd (gan lywodraeth leol) – a oedd yn cael eu hannog i ymwneud â chwestiynau gweinidogion etc. Yn ogystal, roedd gwaith Eco-Sgolion yn cael ei werthfawrogi gyda'r asiantaeth amgylcheddol ac adnoddau ym Malt yn crybwyll eu perfformiad fel y dangosydd uchaf yn eu hadroddiadau ar gyflwr yr amgylchedd.

*Strwythur cyllido*

6.35 Caiff Eco-Sgolion ym Malta ei gyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Malta, trwy'r Weinyddiaeth Addysg. Fodd bynnag, mae'r rhaglen wedi sicrhau ffrydiau ychwanegol gan adrannau trawslywodraethol sy'n rhedeg eu rhaglenni eu hunain o dan ambarél Eco-Sgolion. Mae hyn

yn wir am y Weinyddiaeth Drafndidiaeth a Gweinyddiaeth yr Amgylchedd.

6.36 Yn ogystal â hyn, mae banciau a phartneriaid sector preifat hefyd wedi ymrwymo cronfeydd blynyddol i Nature's Trust i barhau eu gwaith i Eco-Sgolion, gan ddefnyddio cymysgedd o gyllid llywodraeth a busnesau preifat i weithredu'r rhaglen. Un enghraifft o fuddsoddiad sector preifat yn y rhaglen ym Malta oedd gan y HSBC Malta Foundation, a gyfrannodd hyd at €10,000 i hyrwyddo'r rhaglen mewn ysgolion yn 2020.

6.37 Yn olaf, nodwyd y codwyd tâl enwol o 15 Ewro ar ysgolion ym Malta sy'n helpu bwydo i mewn i gronfa ehangach i dalu am ddeunyddiau, hyfforddiant ac ymweliadau cyfnewid ysgol. Er nad oedd ysgolion yn cael eu cosbi am beidio â thalu nac yn cael eu dal yn gyfrifol am eu tâl, mae'r tâl yn cynrychioli cyfraniad am y gwasanaethau mae ysgolion yn eu hennill wrth gymryd rhan ac yn darparu ffynhonnell ychwanegol o fuddsoddiad i'r rhaglen.

*Gweithgarwch*

6.38 Roedd heriau'n ymwneud â chynnal diddordeb ym Malta yn ymwneud yn bennaf â pha mor hir roedd ysgolion yn ymrwymo i'r rhaglen. Er y nodwyd bod prosiectau sy'n berthnasol i ddigwyddiadau cyd-destunol yn cael eu hystyried yn addas i amgylchedd yr ysgol yn y tymor byr, roedd y syniad o ddatblygu rhaglen sydd angen ei integreiddio fel rhan o ethos yr ysgol yn fwy o her. Yn benodol, roedd Nature's Trust yn amlygu anwadalwch athrawon yn newid rolau / symud o gwmpas mewn ysgolion gwladwriaethol – a oedd yn cael ei deimlo fel colled wirioneddol pan oedd y rhaglen yn cael ei gyrru (fel oedd yn digwydd yn aml) gan un athro craidd yng nghymuned yr ysgol. Mae'n werth nodi i broblemau tebyg gael eu crybwyll mewn ymgeisiau a wnaed gyda'r tîm adolygu i gysylltu ag ysgolion yng Nghymru a oedd wedi ymddieithrio ar adeg y gwaith maes. Ar y thema hon, rhannwyd enghraifft gan Nature's Trust o ysgol a oedd wedi ennill statws Baner Werdd chwe gwaith (ysgol Baner Werdd am 12 mlynedd) ond wedi

colli eu dyfarniad oherwydd newid mewn staff. Mae profiadau o'r fath yn dangos pwysigrwydd ymwreiddio Eco-Sgolion yng nghymuned yr ysgol gyfan.

*Themâu sy'n dod i'r amlwg*

6.39 O ran cynnydd yn y dyfodol a phynciau sy'n datblygu, roedd Nature's Trust yn rhoi pwyslais ar ymdrechion i godi graddau'r dylanwad sydd gan y rhaglen, gan gynnwys menter bosibl ar y cyd â'r Gweinidog Amgylchedd i greu canolfan addysg ar ddatblygu cynaliadwy. Y teimlad oedd y byddai hyn yn sicrhau lle ar gyfer trefnu gweithgareddau a sesiynau hyfforddi i athrawon. Nod arall allweddol oedd sicrhau gwell atebolrwydd a galluogi lleisiau pobl ifanc i ddylanwadu ar benderfyniadau.

6.40 Er y cydnabuwyd bod gwerth hanfodol i'r gweithgareddau sy'n digwydd fel rhan o waith y rhaglen, roedd Nature's Trust yn pwysleisio pwysigrwydd adeiladu elfen eirioli gwaith Eco-Sgolion, yn enwedig ar y lefel ryngwladol. Roedd rhanddeiliaid yn nodi:

*"Y gwleidyddion yw'r rheini sydd ar fai. Os nad oes newid gwirioneddol mewn polisi, y diwedd fydd y byddwn ni'n creu'r llanast a'r plant yn glanhau ar eu hôl."*

Un o randdeiliaid Nature's Trust Malta, 2022

6.41 O ran Nature's Trust, eu barn hwy oedd y dylai eu pwyslais fod ar arfogi pobl ifanc â gwell grym trafod a bargeinio a galluogi sesiynau seneddol ar Eco-Sgolion er mwyn dylanwadu ar bolisi.

**Gwersi a ddysgwyd o'r arferion gorau mewn lleoedd eraill**

6.42 Mae'r cipolwg a gafwyd o'r enghreifftiau uchod yn dangos nifer o heriau cyffredin rhwng gwaith y rhaglen yng Nghymru a gweithredu Eco-Sgolion mewn gwledydd eraill. Roedd y rhwystrau cyffredin hyn yn cynnwys:

- Anawsterau wrth ennyn ymrwymiad ysgolion uwchradd oherwydd cylchoedd arholiadau sy'n gorfodi blaenoriaeth ac sy'n rhoi cyfyngiad pellach ar amser i weithredu'r rhaglen.
- Gwahaniaethau rhwng ysgolion a'i gilydd yn eu gallu i gyflawni rhai gweithgareddau penodol yn sgil ffactorau fel maint, math o sefydliad a lleoliad. Er enghraifft, roedd gan rai ysgolion sydd wedi eu lleoliad mewn ardaloedd gwledig y fantais o fod yn agos at lecynnau gwyrdd a'r gallu i weithredu gweithgareddau'n haws, fel plannu, tyfu bwyd, a gwella bioamrywiaeth.
- Y ddibyniaeth ar un aelod neilltuol o frwdfrydig o staff yr ysgol i hyrwyddo cynnydd, a'r perygl o golli ymrwymiad gyda'r rhaglen os ydynt yn newid swydd neu adael.
- Heriau o gael adnoddau i'r rhaglen o dan y cyfyngiadau presennol ar gyllidebau a chynnydd mewn costau.

6.43 Er mwyn goresgyn y problemau hyn, rhoddir crynodeb isod o'r awgrymiadau y gellid eu trosglwyddo ar gyfer cyflawni Eco-Sgolion yng Nghymru yn y dyfodol i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru a Cadwch Gymru'n Daclus:

- Ystyried adolygu'r strwythur asesu fel bod dysgwyr ysgolion uwchradd (fel arweinwyr ifanc) yn gallu cymryd cyfrifoldeb o gydgysylltu'r rhaglen ac adrodd ar gynnydd yn eu hysgolion. Gall hyn leihau'r canfyddiad o fwy o faich ar athrawon sy'n gysylltiedig â'r rhaglen y tu hwnt i Gyfnod Allweddol 3.
- Oherwydd heriau cyffredin wrth gynnal ymrwymiad gydag ysgolion trefol uwchradd / mwy – gallai system raddedig o gymorth helpu i wastadhau'r cae chwarae a chyrraedd ysgolion sydd o dan anfantais. Gellid cyflwyno strategaeth gymorth, ar sail nodweddion a meini prawf ysgolion, er mwyn sicrhau bod ysgolion sydd dan anfantais yn derbyn lefel uwch o gyfathrebu wedi'i dargedu, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gymryd rhan.

- Wrth ystyried sut y gellir defnyddio’r rhaglen i ymwreiddio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru (gan gynnwys targedau ar gyfer Cymru Diwastraff 2050 a’r Strategaeth Mwy nag Ailgylchu) mae cyfle i adeiladu ar lwyddiant ehangach FEE wrth hyrwyddo’r economi gylchol fel maes o ddiddordeb i ysgolion ledled Cymru. Yn 2021/22, cyflawnwyd gwaith gan Cadwch Gymru’n Daclus i ddatblygu adnoddau penodol gyda’r nod o hyrwyddo dealltwriaeth myfyrwyr o’r economi gylchol, ac mae cyfle i gryfhau’r cysylltiadau hyn â pholisi Llywodraeth Cymru trwy fynd ati o ddifrif i chwilio am bartneriaid posibl a gweithgareddau ehangach yn y maes hwn. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cyd-drafod â chwmnïau yng Nghymru sy’n arwain y pontio at economi gylchol, fel Riversimple.
- Ystyried gwahodd ffrydiau cyllid gan fusnesau preifat – er y gallai fod yn fwy addas i fod yn ddethol / penderfynu ar lefel o feini prawf cynaliadwyedd sy’n rhaid eu cyrraedd i annog partneriaid addas. Yng Nghymru mae nifer cynyddol o sefydliadau a busnesau sydd wedi eu ardystio B-Corp, neu aelodau o ymgyrchoedd amgylcheddol fel Climate Cymru, a allai fod â diddordeb mewn cefnogi’r rhaglen yn ariannol.
- Mae cyfle i geisio annog adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru, yn enwedig trwy Addysg / y Cwricwlwm newydd i Gymru i redeg rhaglenni o dan ambarél Eco-Sgolion, er mwyn helpu cynyddu cyllid Llywodraeth Cymru i Eco-Sgolion fel cyfanrwydd.

# 7. Canlyniadau ac Effeithiau Eco-Sgolion yng Nghymru

7.1 Mae'r adran hon yn nodi'r canlyniadau a'r effeithiau a gododd o'r adolygiad.

**Canlyniadau Eco-Sgolion**

7.2 Bydd canlyniadau'n cael eu hystyried ar gyfer y canlynol: ysgolion, dysgwyr, amgylcheddau lleol a'r gymuned ehangach.

*Canlyniadau i Ysgolion*

7.3 Mae'r darlun o'r adborth a dderbyniwyd yn darlunio rhaglen sydd wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol i ysgolion, gyda phob ysgol a gyfwelwyd wedi adrodd canlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i ymwneud â rhaglen Eco-Sgolion.

7.4 Mae Eco-Sgolion wedi rhoi canllawiau, syniadau a map trywydd i ysgolion ar sut i weithredu rhaglen addysgiadol am yr amgylchedd. Fel y dywedwyd gan Cydlynydd Eco o un o ysgolion yr astudiaethau achos, fe wnaeth y rhaglen helpu i dynnu sylw at feysydd i edrych arnynt a rhoi fframwaith neu strwythur i ysgolion a Chydlynwyr Eco i gychwyn a datblygu arno. Rhoddodd un set werthfawr o ddewisiadau – er bod hyn gydag ymreolaeth ddigonol i ysgolion ddewis eu llwybr eu hunain a chynnwys dysgwyr mewn gwahanol ffyrdd. Dangosodd adborth o gyfweliadau y gall cymorth Eco-Sgolion roi symbyliad i roi cychwyn arni, yn ogystal â theimlad o sicrwydd i weinyddwyr ysgol y gellir gweithredu'n llwyddiannus brosiectau ysgol sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd.

7.5 Un canlyniad nodedig i ysgolion y trafodwyd â hwy oedd amlygu proffil yr amgylchedd o fewn y cwricwlwm a blaenoriaethau ysgolion a rhoi dilysrwydd i osod pwyslais ar y pwnc.

*"Mae Eco-Sgolion wedi codi statws yr angen i fynd i'r afael â newid hinsawdd."*

Ymatebydd i Holiadur Eco-Sgolion, 2022

7.6 Roedd eraill yn nodi'r effaith mae'r rhaglen wedi ei chael ar ymwreiddio dysgu a gweithredu amgylcheddol yn ethos yr ysgol.

Roedd hyn yn fwyaf amlwg mewn ysgolion cynradd, lle’r oedd adborth yn disgrifio disgyblion brwdfrydig a oedd wedi datblygu dealltwriaeth o broblemau amgylcheddol, a’u rôl a’u cyfrifoldebau wrth ymdrin â hwy.

7.7 Mae tystiolaeth o’r adolygiad yn dangos ymhellach fod Eco-Sgolion wedi helpu ysgolion i rannu adnoddau a syniadau, sy’n fudd ychwanegol o’r gwaith craidd a gyflawnwyd fel rhan o’r rhaglen. Roedd un o ysgolion yr astudiaethau achos, er enghraifft, yn esbonio eu bod wedi rhannu arferion a syniadau gydag ysgolion eraill trwy’r rhaglen. Fodd bynnag, mae cyfran fach o adborth ansoddol o ysgolion trwy’r arolwg (tua phump allan o 80 o ymatebion) yn awgrymu yr hoffai ysgolion gael mwy o gyfleoedd i rannu adnoddau, syniadau, ac arferion da gydag eraill.

*Canlyniadau i ddysgwyr*

7.8 Mae tystiolaeth o’r adolygiad yn dangos nifer o fuddion i ddysgwyr, gyda’r rhaglen yn ymddangos fel pe bai wedi cyflawni’r canlyniadau a fwriadwyd o ran ysbrydoli a grymuso dysgwyr, ennyn eu diddordeb mewn dysgu am yr amgylchedd a darparu sgiliau newydd ar sut i fynd i’r afael â materion newid hinsawdd.

7.9 Gellir gweld canlyniadau Eco-Sgolion ar deimlad dysgwyr eu bod yn cael eu grymuso. Thema gyson ymhlith ymatebwyr yr arolwg a Chydlynwyr Eco a gyfwelwyr yr oedd yr effaith yr adroddwyd bod y rhaglen wedi’i chael ar ddealltwriaeth dysgwyr o **rym** eu gweithredoedd, a’u teimlad o gyfrifoldeb o ofalu am yr amgylchedd. Roedd llawer o ymatebwyr yn nodi bod dysgwyr wedi dod i ddeall y newid cadarnhaol maent yn gallu ei wneud.

*“Mae plant yn gwybod y gallant wneud newidiadau bach i gael effaith fawr”*


Ymatebydd i Holiadur Eco-Sgolion, 2022

*"Fe wnaethom gynnal arolwg yn ein hysgol gyda'n disgyblion yn ddiweddar, a ganfu eu bod yn credu y gallant gael effaith ar y byd a'u cymuned."*

Ymatebydd i Holiadur Eco-Sgolion, 2022

7.10 Canlyniad cysylltiedig oedd rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio eu llais a gweithredu ar faterion amgylcheddol a chymdeithasol. Er enghraifft, roedd 53 allan o 80 o ymatebwyr yn cytuno bod eu dysgwyr wedi cael llais i weithredu ar Newid Hinsawdd (gweler Ffigur 7.1 isod). Roedd rhai o ymatebwyr yr arolwg ysgolion yn disgrifio rôl yr Eco-gyngor fel un pwysig wrth ddarparu fforwm i aelodau bleidleisio ar dasgau o gwmpas yr ysgol. Roedd un Cydlynydd Eco a holwyd yn disgrifio sut roedd yr Eco-Bwyllgor yn rhoi teimlad o berchnogaeth i ddysgwyr o waith Eco-Sgolion, tra bod un arall yn ei ddisgrifio fel cyfle i ddysgwyr arwain y newid o fewn yr ysgol. Yn ogystal, roedd canlyniadau i ddysgwyr yn cynnwys dysgu sgiliau newydd hefyd, gyda 51 allan o 80 o ymatebwyr yn cytuno bod eu dysgwyr wedi datblygu sgiliau newydd i ymdrin â materion Hinsawdd a Natur.

**Ffigur 7.1: Effaith Eco-Sgolion ar lais y dysgwr a datblygu sgiliau newydd**




**Ffynhonnell:** Arolwg Gwerthuso Eco-Sgolion Miller Research, n=80. Gofynnwyd i ymatebwyr 'I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol. Trwy fod yn Eco-Ysgol …'

7.11 Derbyniwyd adborth hefyd ynghylch teimlad dysgwyr o gyfrifoldeb dros yr amgylchedd, gyda rhai Cydlynwyr Eco yn nodi bod dysgwyr, yn ogystal â chymryd mwy o ddiddordeb yn eu hamgylchedd ac ym myd natur, yn deall y rhan y gallent ei chwarae wrth ei ddiogelu. Roedd un ymatebydd yn disgrifio Eco-Sgolion fel dysgu sy'n helpu dysgwyr i ddod yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldeb eu hunain ynghylch yr amgylchedd. Cafodd y teimlad o berthyn roedd dimensiwn rhyngwladol y rhaglen yn ei roi ei grybwyll hefyd gan un rhanddeiliad fel rhywbeth o fudd, gyda dysgwyr yn gallu teimlo fel rhan o fudiad byd-eang.

7.12 Ymddengys fod Eco-Sgolion yn cyflawni'n dda o safbwynt y canlyniad bwriededig o ennyn diddordeb plant a phobl ifanc mewn dysgu am yr

amgylchedd. Canfu dadansoddiad thematig o ymatebion i'r arolwg a nodir yn Nhabl 7.1 mai ymwybyddiaeth dysgwyr am yr amgylchedd oedd y thema a grybwyllwyd yn gydradd gyntaf, gan 15 allan o 63 o ymatebwyr. Roedd gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol hefyd yn thema gyffredin a godwyd gan y rheini a gyfwelwyd fel rhan o'r gwerthusiad. Roedd un Cydlynydd Eco yn nodi bod dysgwyr eu hysgol gynradd yn sylweddoli y bydd cynhesu byd-eang yn effeithio ar eu dyfodol, tra bod Cydlynydd Eco yn disgrifio'r rhaglen fel ffordd o godi ymwybyddiaeth o faterion perthnasol heb ddychryn y dysgwyr am broblemau byd-eang. Roedd un ymatebydd i'r arolwg yn nodi:

*"Mae dysgwyr yn fy synnu bob tro rydym yn cyfarfod. Mae ganddynt bryder gwirioneddol am y blaned."*

Ymatebydd i Holiadur Eco-Sgolion, 2022

**Tabl 7.1: Dadansoddiad thematig[42] o ymatebion i gwestiwn yr arolwg: Ysgrifennwch ychydig o eiriau ar sut mae rhaglen Eco-Sgolion wedi effeithio'n gadarnhaol ar ddisgyblion a / neu y gymuned ehangach**

| Thema | Cyfrif |
|---|---|
| Dysgwyr yn cael eu grymuso'n fwy | 15 |
| Mwy gwybodus ac ymwybodol o faterion amgylcheddol | 15 |
| Cymryd camau gweithredu amgylcheddol / ymddygiadau amgylcheddol mwy cadarnhaol | 8 |
| Lleihau sbwriel / gwell amgylchedd | 7 |
| Effaith cadarnhaol ar y gymuned | 2 |
| Rhan o'r Cwricwlwm | 1 |
| Wedi ennill gwobrau o ganlyniad i Eco-Sgolion | 1 |
| Eco-Bwyllgor yn gweithio'n dda gyda'i gilydd | 1 |
| Arall | 1 |

Arall: Arolwg Eco-Sgolion Miller Research, n=63.

7.13 Roedd y dysgwyr eu hunain yn ysgolion yr astudiaethau achos yn gallu dweud wrth y tîm adolygu beth roeddent wedi ei ddysgu fel rhan o'r rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Graddfa problem sbwriel, a'r ffaith ei bod yn fwy o broblem nag oeddent wedi'i feddwl
- Llygredd moroedd a choedwigoedd
- Dysgu am ddiben pob pryfetyn
- Gall cynnau tanau achosi tanau gwyllt, sy'n lledaenu i gynefinoedd anifeiliaid
- Rhew yn meirioli o ganlyniad i gynhesu byd-eang, a'r angen i rwystro cynhesu byd-eang a difodiant anifeiliaid
- Y problemau mae plastig yn ei achosi a'r angen i leihau gwastraff.

[42] Cafodd y sylwadau eu dadansoddi'n themâu, gyda'r brif thema allweddol o bob sylw'n cael ei chyfrif.

7.14 Y tu hwnt i ddysgu am yr amgylchedd, roedd nifer bach o ymatebwyr i'r arolwg a Chydlynwyr Eco yn nodi buddion dysgu ehangach hefyd. Roedd un ymatebydd yn disgrifio sut roedd dysgwyr yn fwy gwydn ac yn ymrwymo i ddatrys problemau trwy gweithgareddau Eco-Sgolion. Roeddent yn nodi hefyd fod dysgwyr yn gweithio'n well fel timau. Roedd rhoi teimlad o gyflawni a llwyddo i ddysgwyr hefyd yn cael ei nodi fel cyfraniad gwerthfawr a wnaed gan y rhaglen, gan olygu bod y broses yn rhoi boddhad i ddysgwyr.

7.15 Yn ogystal, roedd rhai dysgwyr o fewn ysgolion uwchradd yn adrodd ar Eco-Sgolion yn eu hysbrydoli i archwilio materion amgylcheddol yn ehangach pan oeddent yn gadael yr ysgol. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys mwy o ddiddordeb mewn gwyddoniaeth amgylcheddol fel pwnc y gallent ei archwilio mewn addysg bellach a chyflogaeth. Yma, roedd awydd gan Swyddogion Eco-Sgolion i ddod â chyfleoedd am gyflogaeth yn y dyfodol i'r rhaglen i ysgolion uwchradd mewn ffordd wybodus a diddorol, i gysylltu â'r cwricwlwm a chlymu â meysydd sy'n datblygu yn strategaeth Llywodraeth Cymru, fel y cynllun newydd, Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau yng Nghymru[43]. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth o swyddi gwyrdd i ddysgwyr hŷn a chreu partneriaethau sy'n cynyddu cyfleoedd profiad gwaith.

7.16 Mae'n bwysig nodi ei bod yn ymddangos hefyd fod brwdfrydedd dysgwyr yn fuddiol i staff addysgu ehangach a staff nad ydynt yn addysgu:

*"Trwy ein gwaith Eco-Sgolion, caf fy ysbrydoli gan y dysgwyr."*

Ymatebydd i arolwg Eco-Sgolion, 2022

*"Mae addysgu am yr amgylchedd yn eich gwneud chi'n falch fel athro gan eich bod yn sefydlu hyn yn yr Ysgol Gynradd."*

Ymatebydd i arolwg Eco-Sgolion, 2022

---

[43] Mae'r cynllun newydd, Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau yng Nghymru yn dymuno blaenoriaethu a chadarnhau cymorth cyflogadwyedd cenedlaethol o dan arweiniad Llywodraeth Cymru i dargedu pobl ifanc



MILLER
Research Evaluation Consulting

7.17 Mae natur ymarferol Eco-Sgolion wedi arwain at iddo gyflawni ei ganlyniad bwriededig o alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau newydd i fynd i'r afael â phroblemau newid hinsawdd. Roedd ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn hwyluso amrywiaeth helaeth o weithgareddau a mentrau. Dengys tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad fod y gweithgareddau hyn yn rhoi sgiliau newydd i ddysgwyr a gwybodaeth o ffyrdd o fynd i'r afael â newid hinsawdd. Cafodd yr agwedd ymarferol hon o Eco-Sgolion ei disgrifio rhai fel cryfder gwirioneddol, gydag un ymatebydd o'r fath i'r arolwg yn nodi:

*"Mae rhaglen Eco-Sgolion yn annog dysgwyr i fynd i'r afael â phroblemau bywyd go-iawn ac yn cynnig ateb i wneud newid cadarnhaol. Mae hyn yn annog dinasyddiaeth fyd-eang a hyder i wneud gwahaniaeth."*

Ymatebydd i arolwg Eco-Sgolion, 2022

7.18 Roedd dysgwyr yn dysgu am ymddygiadau mwy amgylcheddol-gyfeillgar hefyd trwy Eco-Sgolion, gydag adborth gan yr oedolion a'r plant o'r ysgolion a oedd yn rhan o'r adolygiad yn disgrifio amrywiaeth o newidiadau ymddygiad, gan gynnwys:

- Defnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu i chwarae neu i wneud crefftau
- Osgoi bwyd gydag olew palmwydd
- Ailgylchu a lleihau gwastraff
- Osgoi dod â phlastigau untro i'r ysgol
- Cerdded i'r ysgol yn lle defnyddio'r car
- Diffodd goleuadau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

7.19 Dylid nodi yr ymddengys fod graddfa canlyniadau yn wahanol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd y dysgwyr mewn ysgolion uwchradd a oedd yn ymwneud ag Eco-Sgolion yn is fel cyfran o'r dysgwyr yn yr ysgol. Roedd rhai ysgolion uwchradd sydd wedi cyflwyno adborth trwy'r arolwg wedi canfod ffyrdd o gynnwys naill ai'r ysgol gyfan neu adrannau mwy o'r ysgol mewn digwyddiadau Eco-


Sgolion, naill at trwy drefnu digwyddiadau i'r ysgol gyfan, bod ag Eco-Bwyllgor mawr sy'n dod â chyfran ehangach o ddysgwyr i mewn i'r rhaglen, neu glymu Eco-Sgolion i mewn i raglenni a gweithgareddau eraill fel Bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, nid oedd graddau cyson uchel o ysgolion uwchraddd yn ymwneud â'r rhaglen, fel y dangoswyd gan ymatebwyr yr arolwg. Roedd yn ymddangos bod dysgwyr mewn ysgolion uwchradd sy'n ymwneud ag Eco-Sgolion ac Eco-Bwyllgorau yn elwa o'r rhaglen ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd roedd yn eu cynnig, fodd bynnag nid oedd buddion y rhaglen yn cael eu rhannu o angenrheidrwydd mor eang ar draws yr ysgol ac maent mewn ysgolion cynradd.

*Canlyniadau i'r byd natur o gwmpas*

7.20 Un thema o'r adborth a dderbyniwyd oedd mwy o ddiddordeb gan ddysgwyr yn yr amgylchedd o gwmpas yr ysgol, gan gynnwys tir yr ysgol a llecynnau gwyrdd eraill lleol. Roedd hyn yn cynnwys cymryd mwy o ddiddordeb mewn gofalu am y tir, dangos mwy o ddiddordeb mewn byd natur, ac ymwneud yn ymarferol â phlannu a garddio. Roedd un ymatebydd i'r arolwg, er enghraifft, yn nodi sut roedd dysgwyr yn cael eu symbylu i ofalu am yr amgylchedd, cymryd balchder yn nhir yr ysgol, a'u bod yn awyddus i ymuno yn y gwaith o blannu ac edrych ar ôl caeau chwarae.

7.21 Canlyniad cysylltiedig oedd gwelliannau ffisegol gweladwy i amgylcheddau ysgolion a'r gymuned ehangach (gweler Ffigur 7.2 isod). Er enghraifft, roedd 56 allan o 80 o ymatebwyr yn cytuno eu bod wedi gweld gwelliannau ffisegol yn amgylchedd eu hysgol a'u cymuned, er enghraifft, trwy leihad mewn sbwriel. Fe wnaeth tua deg o ymatebwyr i'r arolwg o ysgolion hefyd grybwyll lleihad yn y swm o sbwriel ar dir yr ysgol, fel enghraifft ddigymell o sut mae rhaglen Eco-Sgolion wedi cael effaith cadarnhaol ar ddisgyblion a/neu yr ysgol a/neu y gymuned ehangach.

**Ffigur 7.2: Effaith Eco-Sgolion ar amgylchedd ffisegol yr ysgol a'r gymuned**




Ffynhonnell: Arolwg Eco-Sgolion Miller Research, n=80. Gofynnwyd i ymatebwyr 'I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol. Trwy fod yn Eco-Ysgol …'

*Canlyniadau i rieni a chymuned ehangach yr ysgol*


7.22 Un o elfennau craidd rhaglen Eco-Sgolion yw codi ymwybyddiaeth o weithgareddau'r ysgol ar draws yr ysgol a hefyd yng nghymuned ehangach yr ysgol. Fel rhan o broses Eco-Sgolion, roedd ysgolion yr astudiaethau achos ac ymatebwyr i'r arolwg yn nodi nifer o gyfleoedd a manteision o gydweithio gyda rhieni a/neu ofalwyr, aelodau o'r gymuned a sefydliadau lleol.

7.23 Roedd enghreifftiau o ysgolion yr astudiaethau achos o weithgareddau a oedd yn ymwneud â'r gymuned ehangach yn cynnwys gweithio gyda thrigolion yn ystod ymdrechion i godi sbwriel a chynnwys cymdeithasau rhandiroedd mewn cynlluniau garddio yn yr ysgol a'r ardal leol o gwmpas. Roedd athro o un ysgol gynradd yn nodi eu bod wedi sefydlu cysylltiadau gyda Swyddog Addysg yn

Tesco i edrych ar 'Geyrydd Bwyd' lleol gyda dysgwyr a deall effaith milltiroedd bwyd ar yr amgylchedd. Mewn ysgolion uwchradd, rhannodd un Cydlynydd Eco enghreifftiau o ddysgwyr hyn o'u Eco-Bwyllgor yn sefydlu cysylltiadau gyda'r cyngor tref lleol. Roeddent yn nodi bod eu myfyrwyr chweched dosbarth wedi ymuno â'r Cyngor Ieuenctid i fwydo syniadau'n ôl i'w haelodau etholedig a'r awdurdod lleol ar ffyrdd o wella materion amgylcheddol a chymdeithasol o fewn eu cymuned.

7.24 Derbyniodd cwestiynau ynghylch yr agwedd hon o Eco-Sgolion yn yr arolwg ar-lein ymateb mwy llugoedd na'r cwestiynau eraill ynghylch canlyniadau (Ffigur 7.3). Roedd cyfanswm o 27 allan o 80 o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno'n gryf a 28 allan o 80 o ymatebwyr yn cytuno bod Eco-Sgolion wedi eu helpu wrth ymestyn eu dylanwad a'u gweithgarwch yn y gymuned leol. Roedd 18 allan o'r 80 o ymatebwyr yn anghytuno, tra bod y lleill yn niwtral ar y cwestiwn hwn.

**Ffigur 7.3: Effaith rhaglen Eco-Sgolion ar weithgarwch gyda rhieni a'r gymuned ehangach**




Ffynhonnell: Arolwg Eco-Sgolion Miller Research, n=80. Gofynnwyd i ymatebwyr 'I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol. Trwy fod yn Eco-Ysgol …'

7.25 Roedd gweithgareddau cyffredin a oedd yn ymwneud ag aelodau o'r gymuned ymysg ymatebwyr yr arolwg yn cynnwys digwyddiadau codi sbwriel a wnaed naill ai y tu allan i amserau'r ysgol gyda rhieni, neu lle trefnwyd digwyddiadau (11 allan o 68 o ymatebwyr), sefydlu clybiau garddio (13 allan o 68 o ymatebwyr), gweithgareddau codi arian (pump allan o 68 o ymatebwyr) a phrosiectau i hyrwyddo ailgylchu yn y gymuned (wyth allan o 68 o ymatebwyr).

7.26 Roedd pedair ysgol a ymatebodd i'r arolwg yn disgrifio'r buddion roedd y rhaglen wedi eu cael ar rieni, a oedd yn cynnwys eu hannog i newid arferion, a dod yn fwy ymwybodol o faterion Newid Hinsawdd. Tynnwyd sylw sawl gwaith at annog newidiadau gartref, gyda'r plant

yn mynd â'r hyn roeddent wedi ei ddysgu adref, ac annog aelodau o'r teulu i wneud newidiadau.

*"Mae [Eco-Sgolion] yn plannu'r hedyn a'r crychdonnau sydd arnom eu hangen, mae'r dysgwyr yn mynd â'r negeseuon hyn adref gyda nhw."*

Ymatebydd i Holiadur Eco-Sgolion, 2022

7.27 Cefnogwyd hyn gan fentrau ehangach a oedd yn cael eu rhedeg gan lawer o ysgolion megis cinio di-blastig a dyddiau cerdded i'r ysgol er mwyn cynnwys rhieni ymhellach. Roedd un o ysgolion cynradd yr astudiaethau achos yn disgrifio sut roeddent wedi gwahodd rhieni sy'n gweithio mewn diwydiannau gwyrdd i ddod i mewn i roi sgyrsiau fel ffordd o feithrin ymrwymiad rhieni yn y rhaglen. Yng nghanol nifer ach o ysgolion yr astudiaethau achos, nodwyd bod y cyfle i sefydlu cysylltiadau gyda'r gymuned ehangach wedi arafu yn ystod y pandemig Covid-19 a'i fod mewn rhai achosion wedi arwain at golli cysylltiadau blaenorol â sefydliadau. Er bod yr ysgolion hyn bellach â'u bryd ar greu cysylltiadau newydd gyda grwpiau cymunedol, cydnabuwyd fod y pandemig hefyd wedi cynnig cyfleoedd newydd i gynnwys rhieni.

7.28 Er enghraifft, soniodd Cydlynwyr Eco tair o ysgolion yr astudiaethau achos sut roedd natur addysgu trwy'r cyfnodau clo yn golygu bod rhieni a gofalwyr yn chwarae rhan fwy canolog mewn hwyluso Eco-Weithredoedd yn y cartref gyda'u plant. Yn dilyn llwyddiant y mentrau hyn, roedd yr ysgolion hyn bellach â'u bryd ar barhau i ddatblygu eu cysylltiadau gyda rhieni a gofalwyr ar ôl y pandemig, trwy eu cynnwys fel aelodau o Eco-Bwyllgorau neu yn ystod clybiau ar ôl ysgol. Roedd hyn yn wir yn achos dwy o ysgolion eraill yr astudiaethau achos, lle'r oedd yr Eco-Bwyllgor wedi llwyddo i gyflwyno rôl 'Eco-riant', a oedd yn gyfrifol am gyfathrebu rhwng dysgwyr, rhieni, teuluoedd ac aelodau eraill o'r gymuned. Dywedodd cynrychiolydd rhieni un Eco-Bwyllgor y byddent yn camu i mewn i helpu gweithredu'r rhaglen o fewn eu hysgol lle bo'r angen ac yn helpu i hwyluso Eco-glwb ar ôl ysgol i rieni a neiniau a theidiau fynd iddo. Roeddent yn eu gweld eu hunain fel lle

diogel i ddysgwyr, pwynt o ddealltwriaeth i rieni/gofalwyr, a ffynhonnell o ymddiriedaeth i'r Cydlynydd Eco a'r athrawon.

7.29 Gwnaed cysylltiadau cynyddrannol â'r gymuned ehangach yn achos ysgolion yr astudiaethau achos trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a/neu cylchlythyr newyddion yr ysgol, a thrwy ymgyrchoedd neu fentrau posteri a grewyd gan ddysgwyr a'u defnyddio mewn mannau cymunedol. Roedd y rhain yn themâu cyffredin ymysg nifer o ymatebwyr yr arolwg, gyda 18 allan o 68 yn rhannu diweddariadau ar eu gwaith a'u llwyddiant Eco-Sgolion â chymuned ehangach yr ysgol trwy Parent Mail, Google Classroom, gwefan yr ysgol, Twitter a chylchlythyrau newyddion.

**Asesiad o'r Effaith a'r Gwrthffeithiol**

7.30 Profodd asesu effaith Eco-Sgolion i fod yn anodd oherwydd natur y rhaglen. Mae'r graddau mae data ar gael ar gyfer yr adolygiad hwn wedi dylanwadu ar sut y gellid cyflawni'r asesiad. Pan wnaed y dadansoddiad, roedd dros 90 y cant o ysgolion yng Nghymru wedi eu cofrestru gyda rhaglen Eco-Sgolion. Barnwyd y byddai'n rhy anodd adnabod ysgolion eraill nad ydynt wedi eu cofrestru gydag Eco-Sgolion er mwyn eu cymharu ag ysgolion a oedd wedi cofrestru â'r rhaglen. Yn ogystal, nid oes data hydredol sy'n dilyn myfyrwyr ac ysgolion, felly ni ellid ystyried effeithiau trwy gymharu data o'r un dysgwyr neu ysgolion ar wahanol bwyntiau amser. O fewn yr adolygiad, mae data ansoddol a meintiol wedi cael ei gasglu trwy gyfweliadau, astudiaethau achos a'r arolwg, sydd wedi rhoi darlun inni o fyfyrdodau staff ysgolion ar lwyddiant a chyfraniad y rhaglen. Mae'r asesiad o effeithiau yn yr adran hon yn cynnwys sylwadau gan staff ysgolion ynghylch a ydynt yn meddwl y gellid bod wedi cyflawni gweithgareddau neu ganlyniadau tebyg trwy ffyrdd eraill, pe na bai rhaglen Eco-Sgolion yn bod.

*Ychwanegedd Eco-Sgolion*

7.31 Er mwyn deall effaith y rhaglen, ystyriodd yr adolygiad y graddau y byddai canlyniadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i raglen Eco-Sgolion yn dal i fod wedi digwydd pe na bai'r rhaglen yn bod – senario gwrthffeithiol.


7.32 Awgryma data o'r arolwg (Ffigur 7.4) fod 34 allan o 80 o ysgolion o'r farn y byddent wedi cyflawni gweithgareddau tebyg yn absenoldeb Eco-Sgolion, teimlai 23 fod hyn yn annhebygol, tra bod y gweddill yn niwtral ar y cwestiwn hwn. Yr hyn nad yw'r data hwn yn ei gyfleu yw'r graddau byddai'r gweithgareddau ar yr un radddfa, neu'r graddau y byddent wedi rhedeg ar draws sawl blwyddyn fel rhan hirhoedlog o weithgareddau'r ysgol. Roedd un sylw a ychwanegwyd at ateb a roddwyd i'r cwestiwn hwn yn yr arolwg yn nodi bod Eco-Sgolion yn rhoi'r symbyliad i'r ysgol gychwyn a gorffen gweithgareddau. Yn wir, ar sail y dystiolaeth a nodir yn yr adran uchod, gellir damcaniaethu bod Eco-Sgolion wedi rhoi symbyliad i ysgolion sefydlu a chynnal rhaglenni dysgu amgylcheddol uchelgeisiol trwy ei fframwaith a'i gymorth, a'r atebolrwydd a ddaw yn sgil y dyfarniadau. Byddai ysgolion yn annhebygol hefyd o dderbyn cyllid allanol pellach nac adnoddau eraill i gefnogi'r gweithgareddau hyn yn absenoldeb Eco-Sgolion. Roedd adborth gan Swyddogion Eco-Sgolion yn nodi nifer bach o awdurdodau lleol yn cynnig eu cynlluniau eu hunain, ond nid oedd y mwyafrif yn gwybod am unrhyw beth ar yr un raddfa na'r un cwmpas â rhaglen Eco-Sgolion.

7.33 Er enghraifft, roedd Sir Benfro yn rhedeg Cynllun Gwobrwyo Ysgolion Cynaliadwy, ac iddo'r nod o ymgorffori Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang i gwricwlwm a gweithgareddau'r ysgol. Mae'r Cynllun Gwobrwyo Ysgolion Cynaliadwy yn sefydlu fframwaith i ysgolion integreiddio Addysg Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, ac fel Eco-Sgolion, mae'n ymwneud â phynciau tebyg sy'n cynnwys Bioamrywiaeth, Dinasyddiaeth Fyd-eang, Ynni, Dŵr, Gwastraff a Sbwriel, Iechyd, Trafnidiaeth, Dinasyddiaeth Gymunedol. Mae ysgolion yn gweithio ar y wobr ar lefelau Efydd, Arian ac Aur a

rhoddir cymorth iddynt gan Swyddog Cynllun Gwobrwyo Ysgolion Cynaliadwy i helpu gyda chynllunio a datblygu gweithgareddau. Roedd staff Cadwch Gymru'n Daclus yn nodi bod presenoldeb y cynllun hwn yn rheswm pam fod Eco-Sgolion wedi gwneud llai o gynnydd wrth gofrestru ysgolion ar draws yr awdurdod lleol.

7.34 Cafodd ymdrechion Cyngor Gwynedd i leihau plastig untro mewn ceginau ysgol hefyd ei grybwyll law yn llaw â phrosiect gerddi ysgol Môn a luniwyd i wella bioamrywiaeth. Nodwyd bod rhywfaint o gysylltiad ag Ysgolion Iach yn y rhanbarth hwn, ond mae hyn yn cynnig pwyslais gwahanol, ac felly yn absenoldeb Eco-Sgolion, ni fyddai wedi cymryd ei le yn uniongyrchol.

**Ffigur 7.4: Y tebygolrwydd o gyflawni gweithgareddau tebyg i rai Eco-Sgolion pe na bai'r rhaglen yn bod**




**Ffynhonnell:** Arolwg Gwerthuso Eco-Sgolion Miller Research, n=80. Gofynnwyd i ymatebwyr 'Pa mor debygol fyddech chi wedi bod o gyflawni gweithgareddau tebyg i'r rheini a wnaed trwy Eco-Sgolion pan na bai'r rhaglen yn bod? Esboniwch eich ateb.'

7.35 Roedd ffactorau allanol yn ei gwneud yn anodd i asesu cyfraniad Eco-Sgolion at y canlyniadau a fwriadwyd, megis yr ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion amgylcheddol a'u lle cynyddol amlwg mewn trafodaethau cyhoeddus.

7.36 Hefyd yn ymwneud â'r senario gwrthffeithiol, mae'n debygol hefyd y byddai rhywfaint o ganolbwyntio ar addysgu amgylcheddol wedi digwydd mewn ysgolion, yn enwedig o ystyried y pwyslais yn natganiadau'r 'Hyn Sy'n Bwysig' yn y Cwricwlwm newydd i Gymru ar greu dinasyddion egwyddorol, gwybodus. Fodd bynnag, unwaith eto, dengys tystiolaeth a gasglwyd trwy'r adolygiad hwn fod y rhaglen wedi rhoi canlyniadau ychwanegol o gymharu â sefyllfa lle na fyddai'r rhaglen yn bod. Mae hyn trwy raddfa'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan ysgolion (sef, ysgolion yn cymryd rhan mewn nifer o wahanol weithgareddau, a dilyn gweithgareddau a gwersi amgylcheddol mewn digon o ddyfnder dros gyfnod digon hir), a'r cyfleoedd a ddarparwyd gan Eco-Sgolion na fyddai efallai wedi bod ar gael fel arall.

7.37 Roedd ysgolion yr astudiaethau achos yn rhoi darlun lle'r oedd dysgwyr wedi trwytho eu hunain mewn amrywiaeth helaeth o bynciau a gweithgareddau amgylcheddol, sydd wedi cael effaith allweddol ar eu dealltwriaeth yn ogystal â'u gwerthoedd.

7.38 Mewn rhai achosion, roedd ysgolion yn awgrymu y byddent wedi gallu cyflawni gweithgareddau tebyg heb raglen Eco-Sgolion. Fodd bynnag, nid dyma oedd teimlad yr holl ysgolion a arolygwyd. Pe na bai ysgolion wedi cael cymorth o gwbl gan Eco-Sgolion, mae'n debygol y byddai gweithgareddau o'r fath wedi cael eu codi'n rhannol o leiaf o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru, ond nid o'r un ansawdd a chwmpas â'r rheini a ddatblygwyd gyda chymorth Rhaglen Eco-Sgolion. Mae tystiolaeth o'r adolygiad hwn yn rhoi arwydd fod Eco-Sgolion wedi cyfrannu at y canlyniadau a gyflawnwyd o safbwynt graddfa'r gweithgareddau y cymerodd ysgolion ran ynddynt yn hytrach na'r gweithgareddau eu hunain. Byddai asesu effaith Eco-Sgolion a hwylustod y cymorth a ddarparwyd drwy'r rhaglen ar raddfa ac ansawdd y gweithgareddau yn bwnc gwerthfawr i'w astudio ymhellach, y gellid ei gyflawni trwy arolwg benodol o weithgareddau amgylcheddol ysgolion wrth gychwyn ar y rhaglen.

**Asesiad o effeithiau**

7.39 Ar ôl datblygu Theori Newid ar gyfer yr ymyrraeth, roedd yn bosibl asesu cyfraniadau a wnaed tuag at yr effeithiau a fwriadwyd ac a bennwyd wrth ddatblygu'r model damcaniaethol ar gyfer y rhaglen. Roedd yr effeithiau allweddol a nodwyd fel a ganlyn:

- **Gwella amgylchedd lleol Eco-Ysgol.** Mae arwyddion o'r adborth i'r arolwg a'r cyfweliadau fod cyfraniadau cadarnhaol wedi cael eu gwneud tuag at yr effaith hon a fwriadwyd, gan fod llawer o weithgareddau Eco-Sgolion eu hunain wedi eu hanelu at weithio ar yr amgylchedd y tu allan i ysgolion. Roedd hyn yn ffurf codi sbwriel (ar ac oddi ar dir yr ysgol), a chymryd rhan mewn garddio, tyfu, a phlannu coed. Er y bydd ffactorau eraill hefyd yn dylanwadu ar benderfyniadau ysgolion i gyflawni gweithgareddau sy'n gwella amgylchedd lleol ysgol, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos fod llawer o'r symbyliad i ysgolion sydd wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath wedi dod o Eco-Sgolion.
- **Creu cenedlaethau'r dyfodol o ddinasyddion egwyddorol, gwybodus**. Er bod arwyddion cadarnhaol o ddata'r gwaith maes fod dysgwyr yn cael eu hysgogi i ddysgu am yr amgylchedd, ac yn cael eu grymuso i weithredu'n gadarnhaol, byddai effaith hirdymor Eco-Sgolion ar ddysgwyr yn gofyn am ymchwil pellach. Mae deall sut mae barn dysgwyr a'r ffordd maent yn ymwneud â'r amgylchedd yn newid wrth iddynt symud drwy'r ysgol yn gofyn am edrych arnynt dros gyfnod hir. Mae'r data a gasglwyd hyd yma yn dangos bod cyfran is o ddysgwyr ysgolion uwchradd yn ymwneud â'r rhaglen o gymharu ag ysgolion cynradd. Fodd bynnag, byddai angen i'r dangosydd effeithiau hwn gael ei fesur ar hyd graddfa amser fwy eang, megis asesu sut mae ymwneud yn gynnar â'r amgylchedd trwy Eco-Sgolion wedi dylanwadu ar eu barn a'u

hymddygiad erbyn maent yn oedolion. Gallai ymchwil pellach fod yn ffurf ymchwil hydredol gyda sampl o ddysgwyr, neu ymwneud yn fwy â rhai sy'n gadael ysgol er mwyn casglu data ar eu profiadau gydag Eco-Sgolion. Byddai'r dewis olaf yn dibynnu ar fyfyrdod a hunan-adroddir ac sy'n seiliedig ar edrych yn ôl, ond byddai er hynny yn rhoi mwy o arwydd o effaith Eco-Sgolion yn yr hirdymor. Byddai ymchwil hydredol yn dilyn sampl trwy eu haddysg ysgol hefyd yn galluogi gwell deallwriaeth o'r galluogwyr a'r rhwystrau i ddysgwyr barhau i ymrwymo i'r amgylchedd.

- **Cymuned ysgol fwy cyfrifol ac ymroddgar.** Mae arwyddion cadarnhaol fod rhai ysgolion wedi gallu ymwneud yn llwyddiannus â'r gymuned ehangach, yn enwedig gyda rhieni. Fodd bynnag, drwy'r arolwg, mae'r dangosydd canlyniadau hwn wedi cael ymateb llugoer o gymharu â chanlyniadau eraill (gweler Ffigur 7.3). Daeth data ar y dangosydd hwn i raddau trwy hunan-adrodd yr ysgolion eu hunain, a thrwy ddata a gasglwyd yn ystod cyfweliadau gyda dysgwyr. Nid oedd gwneud haeriad ynghylch graddfa'r effaith hon yn bosibl felly, fodd bynnag mae er hynny rywfaint o arwydd bod y cyd-drafod wedi bod yn llwyddiannus, gydag ysgolion wedi profi ymateb cadarnhaol gan aelodau o'r gymuned. Byddai'r dangosydd hwn yn elwa o ddata mwy cadarn a gasglwyd gan y rhieni eu hunain, a chan aelodau ehangach o'r gymuned sydd wedi ymwneud ag Eco-Sgolion.

# 8. Casgliadau ac Argymhellion

8.1 Mae casgliadau'r adroddiad hwn wedi eu seilio ar adrodd canfyddiadau o ddau gam yr adolygiad o Eco-Sgolion: cwmpasu ac ymchwil uniongyrchol. Roedd y gweithgarwch helaeth a gyflawnwyd gyda rhanddeiliaid (gyda'r manylion penodol yn cael eu hamlygu ym Mhennod 2) yn cynnwys dysgwyr, Cydlynwyr Eco, cynrychiolwyr o Cadwch Gymru'n Daclus a Llywodraeth Cymru, rhieni, athrawon a rhanddeiliaid cymunedol yn hanfodol er mwyn sicrhau persbectif cyfannol o'r rhaglen yng Nghymru.

8.2 Mae'r adroddiad hwn wedi ymdrin ag amcanion allweddol yr adolygiad ar gyfer y cyfnod dan sylw (2018 hyd 2022), sef deall:

- Sut y cafodd Eco-Sgolion ei gyflwyno yng Nghymru,
- Effaith y rhaglen ar ysgolion a dysgwyr, a
- Sut mae wedi cefnogi polisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

8.3 Mae hefyd wedi amlinellu'r ffyrdd mae'r rhaglen yn rhoi cyfle i gynnwys plant a phobl ifanc wrth weithredu polisïau blaenoriaeth penodol Llywodraeth Cymru ac wrth iddynt ddatblygu yn y dyfodol.

8.4 Yn y bennod hon, rydym yn strwythuro'r casgliadau a'r argymhellion ar sail adrannau cyffredinol yr adroddiad hwn.

**Sail resymegol y rhaglen yng Nghymru a chysondeb â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru**

8.5 Cafodd safbwyntiau rhanddeiliaid o'r adolygiad ar y sail resymegol dros weithredu rhaglen Eco-Sgolion yng Nghymru eu categoreiddio i'r saith thema allweddol ganlynol:

- Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd;
- Galluogi dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb dros wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r amgylchedd;
- Cefnogi pob un o bedwar diben y Cwricwlwm newydd i Gymru;
- Cefnogi plant a phobl ifanc wrth adeiladu sgiliau i weithredu;

- Darparu mecanwaith ar gyfer ymwreiddio blaenoriaethau perthnasol Llywodraeth Cymru;
- Helpu mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, hyrwyddo adferiad natur a rhwystro llygredd;
- Helpu ysgolion i gymryd camau ymarferol.

8.6 Mae'r adolygiad cyd-destun a gyflawnwyd fel rhan o'r ymchwil hwn (gweler Adrannau 1 i 3) yn dangos bod rhaglen Eco-Sgolion yn gydnaws iawn â'r cyd-destun polisi sy'n ymwneud â newid hinsawdd, datblygu cynaliadwy ac addysg yng Nghymru. Dangosodd y gweithgarwch gydag ysgolion amrediad o weithgareddau creadigol dan arweiniad disgyblion yn cael eu cyflawni, a'r rheini'n amrywio o godi sbwriel yn y gymuned leol, plannu coed ar dir yr ysgol, cynllunio llwybrau coedwig, cysylltu â bywyd gwyllt a byd natur trwy weithgareddau cadwraeth yn yr ysgol, lleihau gwastraff plastig, cynnal dyddiau cyfnewid gwisgoedd ysgol a llawer mwy.

8.7 Un o'r canfyddiadau allweddol oedd pwysigrwydd Eco-Sgolion yn ei gydnawsedd â'r Cwricwlwm i Gymru, ac wrth helpu ei gyflwyno. Roedd consensws ymysg ysgolion fod cydnawsedd naturiol rhwng natur y rhaglen sydd o dan arweiniad disgyblion a'r rhyddid mae'r cwricwlwm newydd yn ei gynnig wrth ganiatáu dysgwyr i lywio eu profiad dysgu a'r themâu a'r materion y rhoddir sylw iddynt. Rhannodd ysgolion amryw o enghreifftiau o sut roeddent eisoes yn integreiddio cynnwys Eco-Sgolion ar draws pynciau STEM, y Dyniaethau a thrwy ddysgu mwy penodol yn yr awyr agored. Mewn rhai achosion, roedd cynnwys a addysgwyd o fewn y rhaglen yn ysbrydoli gwaith mewn ysgolion a gafodd ei ymgorffori wedyn yn eu cynllun ar gyfer y cwricwlwm newydd.

**Gweithredu'r rhaglen gan Cadwch Gymru'n Daclus**

8.8 Ymddengys fod rhaglen Eco-Sgolion wedi cael ei gweithredu'n effeithlon, wrth gyflawni'r holl amcanion a'r targedau cysylltiedig a

gytunwyd rhwng Cadwch Gymru'n Daclus a Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22.

8.9 Dros y tair blynedd ddiwethaf, cafodd y rhaglen ei chyflwyno o fewn cyd-destun y pandemig Covid-19 a olygodd heriau unigryw ac effeithio ar y nifer o ysgolion a oedd yn camu ymlaen trwy eu lefelau dyfarniad. Cyn y pandemig, roedd y cynnydd mewn dyfarniadau yn Nghymru yn tyfu ar raddfa sylweddol, er i ymddangosiad coronafeirws yn Ch4 o 2019/20 arwain at ganso nifer o asesiadau Baner Werdd, ac yn 2020/21 roedd cwymp amlwg yn y raddfa'r oedd ysgolion yn camu ymlaen drwy'r rhaglen, yn sgil y pwysau ychwanegol roedd ysgolion yn eu hwynebu. Fodd bynnag, mae data yn awgrymu fod cynnydd ysgolion mewn dyfarniadau yn dychwelyd yn araf at dwf graddol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22.

8.10 Adroddwyd gan nifer o ymatebwyr o Cadwch Gymru'n Daclus fod cyllid canolog gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn ddigonol i ennyn diddordeb amrediad rhesymol o ysgolion yng Nghymru. Roedd Swyddogion Eco-Sgolion yn cydnabod eu bod wedi gallu addasu a defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon drwy'r pandemig, yn sgil y symud tuag at gyflwyno'r rhaglen ar-lein a lleihau costau teithio a chynhaliaeth. Thema allweddol a nodwyd o'r adolygiad oedd perthynas rhwng ysgolion yn ennill statws Baner Werdd a'r nifer o staff a oedd yn cyflwyno'r rhaglen yng Nghymru. Roedd y cymorth unigoledig a ddarparwyd i ysgolion a'r berthynas a ffurfiwyd rhwng Swyddogion Eco-Sgolion a Chydlynwyr Eco yn allweddol i lwyddiant a pharhad ymrwymiad ysgolion drwy'r rhaglen. Fodd bynnag, mae'r nifer o ysgolion sydd yn nalgylch pob Swyddog Eco-Sgolion yn amrywiol ac mae'r rheini sydd â nifer llai o awdurdodau lleol yn eu dalgylch yn gallu cynnig cymorth wedi ei dargedu'n well.

8.11 O ran y ffordd orau o gefnogi ysgolion ar ôl mesurau'r pandemig COVID-19, roedd pryderon dealladwy ynghylch cadw staff a chynnal gweithgarwch y rhaglen ar yr un raddfa ac o'r un ansawdd, yn wyneb codiadau mewn cyflogaeth, dychwelyd at ddull heibrid o gyflwyno a heriau fel yr argyfwng costau byw. O'r herwydd, teimlai tîm Eco-

Sgolion y byddai parhad yn y cyllid, neu gyllid ychwanegol, yn galluogi'r rhaglen i dyfu'n gynaliadwy, gan gyflawni mwy i ddysgwyr ac i ysgolion. Un awgrym gan Swyddogion Eco-Sgolion oedd sefyllfa yn y dyfodol lle gallai cyllid ychwanegol fynd at gyflwyno Swyddog Eco-Sgolion i bob awdurdod lleol yng Nghymru, a llai helpu cynyddu cysondeb rhwng ysgolion Baner Werdd a'i gilydd, a dal gafael ar wobrau trwy gymorth sydd wedi ei deilwra'n well.

**Argymhelliad**: Dylai'r rhaglen ystyried ceisio cyllid ychwanegol i liniaru'r costau uwch o symud oddi wrth gyflwyno rhithiol yn unig ac o'r argyfwng costau byw.

8.12 O ran rheoli a llywodraethu'r rhaglen rhwng Cadwch Gymru'n Daclus a Llywodraeth Cymru, roedd tîm Eco-Sgolion yn uchel eu clod o'r cymorth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y rhaglen wedi ceisio fwyfwy i gysylltu Eco-Sgolion ar draws meysydd eraill o bolisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Trafnidiaeth ac Addysg, i gyflawni canlyniadau trawsadrannol. O ran yr arwyddocâd i Lywodraeth Cymru, mae cyfleoedd am fwy o weithio trawsadrannol ar Eco-Sgolion i weithredu amrywiaeth helaeth o gynlluniau gweithredu a fframweithiau. Roedd y gymhariaeth ryngwladol yn dangos gwersi ar sut y manteisir ar y cyfleoedd hyn mewn gwledydd eraill, lle'r oedd sawl adran o lywodraeth yn rhedeg eu rhaglenni eu hunain o dan ambarél Eco-Sgolion. Mae cyfle i'r rhaglen annog y ffordd hon o weithio yng Nghymru, er mwyn cynyddu cyllid i'r rhaglen yn ei chyfanrwydd a helpu ymhellach i gyrraedd targedau sy'n ymwneud ag uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad**: Yn ogystal â'r cyllid a dderbynnir ar hyn o bryd gan Is-adran Tir, Natur a Choedwigaeth Llywodraeth Cymru, dylai'r rhaglen ystyried pa fuddsoddiad sector cyhoeddus y gellid ei gaffael trwy annog adrannau eraill o fewn Llywodraeth Cymru i redeg rhaglenni o dan amberél Eco-Sgolion. Gyda chefnogaeth y Tir, Natur a Choedwigaeth, dylai'r rhaglen geisio cryfhau cysylltiadau â'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn Llywodraeth Cymru i helpu cyflawni hyn. Trwy fabwysiadu'r ffordd hon o weithio, gallai'r rhaglen gynnig mwy o

gyfleoedd i ddysgu ar y cyd a helpu cyflawni rhagor o ganlyniadau trawslywodraethol.

8.13 Defnyddiodd rhaglen Eco-Sgolion amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu y canfuwyd eu bod yn helpu cynyddu diddordeb, hyrwyddo buddion y rhaglen a chyrraedd rhwydwaith ehangach o ysgolion yng Nghymru. Roedd canfyddiadau o'r arolwg ar-lein a chyfweliadau gyda Swyddogion Eco-Sgolion, yn dangos perthynas bosibl rhwng cymorth awdurdodau lleol a'r nifer o ysgolion a oedd yn cymryd rhan yn y rhanbarth. Y teimlad oedd bod y berthynas gydag ysgolion yn fwy llwyddiannus mewn ardaloedd lle'r oedd y rhaglen wedi sefydlu cysylltiadau cryf gydag adrannau o fewn yr awdurdodau lleol, i anfon gwybodaeth am Eco-Sgolion i'w rhwydweithiau a'u cysylltiadau eu hunain. Mae cyfle i'r rhaglen barhau i ddatblygu partneriaethau gyda sefydliadau allweddol o fewn y sector cyhoeddus, er mwyn hyrwyddo'r buddion i ysgolion a helpu cynyddu cyfranogi.

8.14 Yn ogystal, canfuwyd bod digwyddiadau rhwydweithio, atgyfeiriadau a chyswllt un-i-un cyson rhwng Swyddogion Eco-Sgolion ac ysgolion yn sianelau pwysig eraill ar gyfer cryfhau a sefydlu cysylltiadau newydd ag ysgolion. Derbyniodd y defnydd o gyfryngau cymdeithasol, megis Twitter, Instagram a Facebook ymatebion da gan ysgolion trwy rannu diweddariadau, anecdotau a straeon Eco-Sgolion.

**Argymhelliad**: Dylai'r rhaglen ystyried arbrofi gyda chyfleoedd pellach am fwy o rwydweithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol, i helpu hyrwyddo buddion y rhaglen ac ennyn diddordeb ysgolion newydd. Gallai hyn gynnwys gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Partneriaeth Cymru.

8.15 Cafodd safon y cymorth a gynigid gan Eco-Sgolion ei ganmol yn fawr gan ysgolion drwy gydol yr adolygiad, a oedd yn gweld Swyddogion Eco-Sgolion fel cyfeillion beirniadol. Un tueddiad y sylwyd arno gan Swyddogion Eco-Sgolion oedd y graddau o gymorth roedd ei angen gan ysgolion a'r amser roedd hynny'n ei olygu yn y rhaglen. Roedd ysgolion yn dod yn llai dibynnol ar geisio canllawiau a chymorth

allanol dros amser, wrth i weithgareddau ddod yn ail natur iddynt. Yn yr ystyr hwn, roedd staff Cadwch Gymru'n Daclus yn cael eu disgrifio fel galluogwyr i ysgolion barhau â'u taith Eco-Sgolion yn fwy annibynnol.

8.16 Mae'r rhaglen wedi cyflwyno amrywiaeth o gymorth i ysgolion, gan gynnwys datblygu ac amlygu dulliau ac adnoddau defnyddiol, cyflwyno hyfforddiant i athrawon a darparu cyfleoedd rhwydweithio a dysgu i ysgolion trwy weithdai a digwyddiadau. Y teimlad oedd bod yr adnoddau ar-lein a oedd ar gael i ysgolion yn rhai o ansawdd uchel a'u bod yn symbylu gweithgareddau dysgwyr ac athrawon trwy roi ffynhonnell o ysbrydoliaeth am syniadau. Y farn oedd bod digwyddiadau lleol a chenedlaethol i ysgolion yn ddiddorol ac ysbrydoledig i ddysgwyr, gan roi cyfleoedd i rannu gwybodaeth a chyfleoedd dysgu pwrpasol. Awgrym gan ria ysgolion cynradd oedd y dylid ymestyn sesiynau i'r Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol, gan mai'r teimlad oedd bod gweithdai yn y gorffennol wedi eu targedu at ddysgwyr Cyfnod Allweddol 2. Roedd y cyfleoedd hyn yn cael eu hadleisio gan dim Eco-Sgolion a oedd yn awyddus i ymwneud mwy â blynyddoedd iau neu 'Eco-Tots' yn y rhaglen.

**Argymhelliad**: Ymchwilio i gyfleoedd i deilwra cynnwys sesiynau ar-lein ar gyfer ysgolion cynradd, fel y gellir defnyddio deunyddiau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

8.17 Roedd Cydlynwyr Eco yn teimlo bod sesiynau hyfforddi hefyd yn helpu a chyfoethogi gwaith y rhaglen o fewn ysgolion. Gwelwyd cynnydd mewn effeithlonrwydd yn ystod Covid-19 lle'r oedd cyfleoedd hyfforddi yn digwydd ar-lein. Anogwyd y rhain i barhau ar ôl i sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb ddychwelyd, gan eu bod yn cael eu disgrifio fel rhai mwy hygyrch ac effeithlon o ran amser i ysgolion. Mewn achosion lle nad oedd Cydlynwyr Eco ar gael ar gyfer amserau hyfforddi a drefnwyd, argymhellwyd hefyd i sesiynau hyfforddi gael eu recordio fel y gallai'r rheini nad oedd yn gallu eu dilyn ar y pryd yn gallu dal i fyny yn eu hamser eu hunain.

**Argymhelliad**: Dylai'r rhaglen barhau i gyflwyno hyfforddiant i athrawon gan ddefnyddio dull heibrid, i ganiatáu cymaint â phosibl o athrawon i'w ddilyn.

**Argymhelliad**: Law yn llaw â darparu hyfforddiant, dylai tîm Eco-Sgolion sicrhau bod sesiynau'n cael eu recordio i athrawon nad ydynt yn gallu bod yn bresennol, a'u huwchlwytho i Hwb, fel y gall unigolion ddal i fyny yn eu hamser eu hunain ac fel y gellir lledaenu'n ehangach i ysgolion.

8.18 Yn ogystal, nodwyd sawl cyfle am hyfforddiant pellach i athrawon, gan gynnwys hyfforddiant wedi ei deilwra ar gyfer gweithredu'r rhaglen mewn ysgolion arbennig. Roedd hyn oherwydd bod ysgolion arbennig yn cynnwys cyfran uchel o blant ag anableddau dysgu a dysgu dieiriau, lle dywedwyd bod dull o dan arweiniad dysgwyr Eco-Sgolion yn fwy anodd ei weithredu mewn ffordd ystyrlon. O'r herwydd, roedd awydd i weld cymorth pellach gan Eco-Sgolion yn ffurf adnoddau ar-lein a hyfforddiant wedi eu haddasu'n benodol ar gyfer ysgolion arbennig, a hynny ar sail cyd-drafod i ddeall eu hanghenion ar gyfer y rhaglen.

8.19 Roedd teimlad hefyd y gallai'r rhaglen elwa o ymestyn hyfforddiant y tu hwnt i athrawon i wirfoddolwyr hefyd. Roedd gwirfoddolwyr yn cael eu gweld fel elfen bwysig o'r rhaglen i ysgolion, yn enwedig o safbwynt cynnwys y gymuned ehangach. Cydnabuwyd fod rhai ysgolion yn brin o adnoddau ac amser i gyflwyno'r rhaglen, a bod llawer o wirfoddolwyr wedi ymddeol a bod ganddynt fwy o amser rhydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau. O'r herwydd, roedd teimlad y gallai'r cyfle i sefydlu rhwydweithiau gwirfoddolwyr i ysgolion olygu effeithlonrwydd hefyd, wrth gynnwys gwirfoddolwyr a hyfforddir gan Eco-Sgolion yng nghynnwys a gwaith y rhaglen, y gallai ysgolion fanteisio arnynt wedyn i gyflwyno sesiynau penodol ac wedi eu cynllunio'n dda i ddysgwyr.

**Argymhelliad**: Dylai'r rhaglen ystyried datblygu adnoddau ar-lein a deunyddiau hyfforddi sy'n canolbwyntio'n benodol ar sut y gall

ysgolion arbennig addasu gweithgareddau Eco-Sgolion ar gyfer anghenion eu dysgwyr. Wrth benderfynu ar eu cynnwys, dylai Cadwch Gymru'n Daclus gyd-drafod ymhellach gydag ysgolion arbennig er mwyn deall pa gymorth penodol mae arnynt ei angen ar gyfer y rhaglen.

**Argymhelliad:** Archwilio cyfleoedd i ehangu'r hyfforddiant presennol i athrawon i wirfoddolwyr hefyd, fel modd o greu rhwydweithiau ychwanegol o adnoddau dynol ar gyfer gwaith Eco-Sgolion mewn ysgolion. Gellid archwilio'r dewisiadau hyn trwy gyd-drafod â sefydliadau fel Arolygiaeth Gofal Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

**Partneriaethau gyda rhaglen Eco-Sgolion**

8.20 O ran yr hyn mae'r rhaglen wedi ei gynnig i bartneriaid, mae amrywiaeth pynciau Eco-Sgolion wedi galluogi sawl pwynt mynediad y gall swyddogion ymwneud â phobl ifanc drwyddynt a manteisio ar elfennau ymarfer y rhaglen. Mae Eco-Sgolion wedi rhoi cyfleoedd i bartneriaethau adeiladu ar ymwybyddiaeth dysgwyr o'r materion cymdeithasol ac amgylcheddol maent yn ymdrin â hwy. Canfuwyd bod y berthynas hon o fudd i'r ddwy ochr yn y ffordd fod partneriaid hefyd yn cefnogi prosiectau Eco-Sgolion gyda'u harbenigedd technegol ar un o naw maes pwnc Eco-Sgolion. Roedd hyn yn dangos i ysgolion sut i fynd ati'n ymarferol i weithredu prosiectau a chamau.

8.21 Yn ogystal, mantais allweddol arall partneriaethau gyda'r rhaglen oedd y cyfle i gydweithio tuag at nodau cyffredin. Roedd sefydliadau'n gallu defnyddio cysylltiadau Eco-Sgolion i hwyluso eu gwaith eu hunain a chyrraedd cynulleidfa ehangach o ddysgwyr na thrwy eu cysylltiadau eu hunain yn unig.

**Gweithredu'r rhaglen mewn ysgolion**

8.22 Roedd adborth gan ysgolion a rhanddeiliaid ehangach yn dangos pwysigrwydd y rhaglen mewn nifer o ffyrdd. O fewn ysgolion, roedd gweithgarwch dysgwyr yn galluogi grymuso a dysgu gweithredol i ddysgwyr o bob oed a gallu, gan hefyd gynnig fframwaith hyblyg y gallai ysgolion greu eu portffolio eu hunain o waith a oedd yn gyson â'u gwerthoedd a'u cenhadaeth. Roedd perthnasedd y rhaglen yn cael ei adlewyrchu'n gryf mewn enghreifftiau a rannwyd gan ddysgwyr o'u teimlad angerddol dros helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w hysgol eu hunain, eu cymuned a'r blaned. Cryfhawyd hyn gan gysylltiadau effeithiol ar roddwyd ar waith rhwng ysgolion a'r chwe phartner Eco-Sgolion.

8.23 Roedd y cymhellion gan ysgolion dros ymuno â'r rhaglen yn canolbwyntio i raddau helaeth ar fod yn rhan o newid amgylcheddol cadarnhaol, a galluogi dysgwyr i ymwneud â mudiad amgylcheddol ystyrlon. Roedd cymhellion allweddol eraill yn cynnwys y cyfle i fod yn rhan o raglen sydd wedi ei hachredu'n rhyngwladol, gyda'r cynnydd trwy ddyfarniadau Eco-Sgolion yn rhoi teimlad o rymuso i ddysgwyr, a hefyd yn rhoi cydnabyddiaeth i ysgolion am eu Eco-Weithredoedd.

8.24 O ran y naw pwnc Eco-Sgolion mae'r rhaglen yn ymdrin â hwy, canfu'r adolygiad fod rhai pynciau yn fwy llwyddiannus ac yn haws i ysgolion ymdrin â hwy o fewn eu lleoliad. Er enghraifft, roedd y mwyafrif o ysgolion y cysylltwyd â hwy drwy'r arolwg yn gosod y pynciau Sbwriel, Byw yn Iach a Thir yr Ysgol ar y brig yn ôl pa mor hawdd oedd eu integreiddio i'w gwaith Eco-Sgolion. Roedd y meysydd pwnc hwn yn amlwg yng ngweithgareddau ysgolion yr astudiaethau achos hefyd, fel codi sbwriel a phlannu coed, lle'r oedd yr effaith i'w weld ar unwaith.

8.25 O gymharu, roedd pynciau Dŵr, Dinasyddiaeth Fyd-eang ac Ynni yn cael eu gosod ymhlith y pynciau lleiaf llwyddiannus i ysgolion eu cyflwyno. Mewn rhai achosion, canfu ysgolion fod y pynciau hyn yn fwy anodd eu ymwreiddio yn eu gwaith Eco-Sgolion oherwydd bod

cysyniadau yn fwy haniaethol i ddysgwyr ac felly'n gallu bod yn fwy anodd eu deall, law yn llaw â ffactorau allanol a oedd yn dylanwadu ar y gweithgareddau a newidiadau roeddent yn gallu eu gwneud. Er enghraifft, yr angen mwy o olchi dwylo ac awyru ychwanegol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn sgil y pandemig, a'r anhawster wrth arbed ynni a dŵr oherwydd hyn.

**Argymhelliad**: Dylai'r rhaglen ystyried pa bartneriaethau a chymorth ychwanegol y gallai fod ar ysgolion ei angen i helpu cyflawni gweithgareddau sy'n ymwneud â phynciau llai llwyddiannus Eco-Sgolion megis Dŵr, Dinasyddiaeth Fyd-eang ac Ynni. Mae cyfle ar lefel fwy strategol i adnabod lle gall partneriaethau sy'n bod eisoes gefnogi ac ysbrydoli ysgolion i gyflawni prosiectau y gellir eu gwneud yn ymarferol ac annog cydweithio rhwng ysgolion a'i gilydd ar feysydd mwy anodd eu cyflawni.

8.26 Roedd ysgolion yr astudiaethau achos ac ymatebwyr yr arolwg ar-lein yn wynebu nifer o rwystrau a oedd yn effeithio ar eu gallu i weithredu'r rhaglen. Yn gyntaf, un o'r heriau allweddol a oedd yn wynebu llawer o Eco-Bwyllgorau oedd canfod ffyrdd o ariannu eu hoffer a gwaith Eco-Sgolion, yn enwedig ar gyfer prosiectau mwy a fyddai'n arwain at wneud newidiadau a fyddai'n cael effaith ar yr ysgol. Y teimlad oedd y gellid lliniaru'r anawsterau hyn trwy gymorth gan Eco-Sgolion ar adnabod / cyfeirio at ffyrdd y gall ysgolion ariannu eu Eco-Weithredoedd. Y teimlad oedd y byddai ysgolion yn elwa o astudiaethau achos ar sut mae gwahanol ysgolion a lleoliadau wedi ariannu eu gwaith Eco-Sgolion, neu trwy fapio a dangos gwahanol drywyddau y gall ysgolion eu dewis.

**Argymhelliad**: Archwilio dewisiadau ar gyfer datblygu adnoddau ar-lein ychwanegol i ysgolion ar wahanol ffyrdd y gallant ariannu gweithgarwch Eco-Sgolion.

8.27 Roedd pwysau amser a chystadleuaeth o du blaenoriaethau eraill i staff yn rhwystr arall mewn rhai ysgolion rhag ymuno â'r rhaglen. Gan ddibynnu ar faint yr ysgol, roedd yn fwy anodd i Gydlynwyr Eco gael

amser i ryddhau staff a dysgwyr o'r ystafell ddosbarth ac ymwreiddio gwaith Eco-Sgolion trwy gynllunio gwersi a chyflwyno'r cwricwlwm. Roedd staff mewn ysgolion uwchradd hefyd yn profi blaenoriaethau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd o ran amrywiaeth gwersi, arholiadau a chanlyniadau, yn enwedig gyda dysgwyr hŷn, a oedd yn ei gwneud yn anodd ymrwymo amser i'r rhaglen. Cymhlethwyd yr heriau hyn ymhellach mewn achosion lle'r oedd graddau cymysg o gefnogaeth i'r rhaglen ymysg staff o fewn yr ysgol, a oedd yn creu problemau wrth gweithredu dull trawsgwricwlaidd, ysgol-gyfan. Yma, y teimlad oedd bod angen i'r rhaglen ddatblygu mwy o gymhellion i athrawon ymwreiddio cysylltiadau Eco-Sgolion yng ngwaith y Cwricwlwm i Gymru, fel nad yw'r rhaglen yn cael ei gweld fel gweithgaredd 'atodol'. Fel yr argymhellwyd yn gynharach, gellid cefnogi hyn trwy gryfhau cysylltiadau rhwng y rhaglen a'r Gyfarwyddiaeth Addysg o fewn Llywodraeth Cymru, law yn llaw â datblygu rhagor o adnoddau ar-lein, neu gyfleoedd i ysgolion rhannu'r arferion gorau mewn dulliau gyda'i gilydd.

**Argymhelliad**: Dylai'r rhaglen ystyried ymgynghori ag ysgolion uwchradd i ddatblygu adnoddau parod ar wneud Eco-Sgolion yn rhan amlycach o'r Cwricwlwm newydd.

**Argymhelliad**: Archwilio dewisiadau ar gyfer cryfhau'r adnoddau presennol i ysgolion ar integreiddio Eco-Sgolion â'r Cwricwlwm i Gymru. Er enghraifft, trwy gryfhau'r cysylltiadau â'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn Llywodraeth Cymru, a thrwy sefydlu sesiynau rhannu gwybodaeth ymysg grwpiau o ysgolion i rannu'r arferion gorau ar sut mae ysgolion eraill yn integreiddio Eco-Sgolion ar draws y cwricwlwm.

8.28 Yn ogystal, roedd rhwystrau eraill i ysgolion yn cynnwys:

- Covid-19: a wnaeth greu effeithiau canlyniadol ar raddfa'r gweithgareddau, a'r mathau o weithgareddau roedd ysgolion yn gallu eu cyflawni, gan gynnwys llai o ddysgu yn yr awyr agored.

- Diffyg lle ffisegol: lle'r oedd gan ysgolion mewn ardaloedd mwy trefol lai o fynediad at leoedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored, yn enwedig oes nad oedd ganddynt lecynnau gwyrdd na choetiroedd gerllaw.
- Analluu i gyflawni prosiectau Eco-Sgolion mwy lle'r oedd adnoddau ysgolion yn gyfyngedig a/neu eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer Eco-Weithredoedd eraill. Yn yr achosion hyn, roedd ar ysgolion eisiau mwy o gyfleoedd i weithio mewn clystyrau gydag ysgolion eraill yn eu hardal leol i gyflawni canlyniadau mwy trwy ddarnau o waith ar y cyd.

**Argymhelliad**: Argymhellir rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu cyfleoedd am fwy o gydweithio rhwng ysgolion a'i gilydd, i ddatblygu prosiectau a gweithgareddau clwstwr a fydd yn cyflawni canlyniadau ar raddfa fwy gan ddefnyddio llai o adnoddau. Er enghraifft, prosiectau ynni lleol ar y cyd, gan rannu offer gydag ysgolion eraill, neu weithgareddau ledled sir.

8.29 Roedd y system Baner Werdd yn cael ei gweld fel cyfle sy'n arwain at dwf a datblygiad pellach ysgolion yn y rhaglen, yn rhannol oherwydd ei safon ryngwladol ac fel ffordd o fesur eu cynnydd eu hunain a metrig llwyddiant. Roedd Cydlynwyr Eco yn parhau i gefnogi'r system asesu a ddefnyddir gan Eco-Sgolion ond yn nodi nifer o gyfleoedd i symleiddio'r broses ddyfarnu. Yn gyntaf, teimlai ysgolion fod ffyrdd gwell o ymgeisio am wobr na thrwy ddefnyddio ffurflen ar-lein, a oedd yn gofyn am ymdrech ac amser sylweddol i gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol at ei gilydd. Roedd awydd i'r rhaglen gynnig mwy o hyblygrwydd i ysgolion adrodd mewn gwahanol ffyrdd, trwy allu defnyddio eu dogfennaeth eu hunain, neu trwy adrodd ar y pryd cyn gynted â bod gwybodaeth yn cael ei chasglu drwy gydol y flwyddyn. Roedd y syniadau hyn gan ysgolion yn mynd law yn llaw â dyheadau technegol gan dîm Eco-Sgolion, a oedd yn dymuno archwilio'r syniad o rithio'r broses asesu a chynnwys mecanwaith gemau trwy ap. Roedd cyfleoedd eraill hefyd yn cynnwys y mathau o ddata a gesglir

ac a adroddir ar gyfer asesiadau, lle'r oedd ysgolion yn ei chael yn anodd diffinio canlyniadau 'meddalach' gweithgarwch dysgwyr.

**Argymhelliad**: Archwilio cyfleoedd i symleiddio'r ffurflen ar-lein a ddefnyddir gan ysgolion ar hyn o bryd ar gyfer asesiadau ar-lein, trwy ychwanegu hyblygrwydd i ysgolion adrodd tystiolaeth mewn gwahanol ffyrdd ac ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

**Argymhelliad**: Argymhellir rhoi pwyslais ychwanegol ar archwilio'r ffyrdd gorau y gall ysgolion ganfod canlyniadau 'meddalach' dysgwyr yn cymryd rhan yn y rhaglen, er mwyn casglu a dangos effaith. Amlinellir dulliau posibl o gasglu'r math hwn o ddata yn 8.42

8.30 Crybwyllwyd awgrymiadau hefyd ynghylch gwelliannau y gellid eu gwneud i'r achrediadau ar gyfer ysgolion sy'n gyson wedi ennill y wobr Platinwm. Un her oedd ysgolion Platinwm yn ei hwynebu oedd y gallu i gynnal gweithgareddau i adnewyddu eu statws bob blwyddyn. Y teimlad oedd nad oedd y flwyddyn rhwng cyfnodau asesu yn gadael fawr o amser i ddatblygu syniadau newydd, cynllunio a darparu tystiolaeth. Teimlai ysgolion y byddai eu cynnydd drwy'r rhaglen yn elwa ar ymestyn y cyfnod amser rhwng asesiadau. O ran meini prawf eraill dyfarniadau, teimlai ysgolion Platinwm y byddai lefelau ychwanegol o ddyfarniadau uwchlaw Platinwm yn helpu cynnal momentwm ac ymrwymiad gyda'r rhaglen.

**Argymhelliad**: Dylai'r rhaglen archwilio dewisiadau ar gyfer ymestyn y bwlch rhwng cyfnodau asesu ysgolion Platinwm, i roi mwy o amser i ysgolion gyflawni gwaith newydd Eco-Sgolion.

**Argymhelliad**: Ystyried datblygu dyfarniad y tu hwnt i lefel Platinwm.

8.31 O ran arallgyfeirio gweithgareddau yn y dyfodol, roedd Swyddogion Eco-Sgolion yn gweld cyfle i gynyddu gweithgarwch gydag ysgolion uwchradd trwy roi mwy o bwyslais ar gaffael sgiliau, datblygiad proffesiynol a chyfleoedd am swyddi gwyrdd. Wrth wneud hyn, y teimlad oedd y byddai cynnwys y rhaglen yn fwy cyson â blaenoriaethau dysgwyr y tu hwnt i Gyfnod Allweddol 3, yn enwedig

dysgwyr hŷn yn y chweched dosbarth wrth sicrhau cynnydd datblygiadol.

**Argymhelliad**: Mae cyfle i ymgynghori gydag ysgolion uwchradd i ddatblygu adnodd i helpu dysgwyr i ymwneud â swyddi gwyrdd neu gyfleoedd gwirfoddoli gwyrdd fel rhan o Fagloriaeth Cymru / eu profiad gwaith gwirfoddol a chanllawiau Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Seiliedig ar Fyd Gwaith.

**Gwersi posibl wrth gymharu â gwledydd eraill**

8.32 Roedd adborth gan bartneriaid rhyngwladol a rhanddeiliaid ehangach yn rhoi sawl haen o gyd-destun defnyddiol a gwersi a ddysgwyd y gellid eu cymhwyso i Gymru. Mae cysylltiad Cymru â rhwydwaith byd-eang o Eco-Sgolion, yn ogystal â chwarae rhan hanfodol mewn uchelgeisiau i feithrin dysgwyr ifanc a'u cynnydd yn unol â phedwar diben y cwricwlwm, hefyd wedi cadarnhau'r neges fod yn rhaid mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd fel ffordd sy'n unedig a theg. Gan y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar wahanol wledydd mewn gwahanol ffyrdd, roedd Eco-Sgolion yn cynnwys cyfle dilys ac ymarferol y gall dysgwyr ddysgu drwyddo am gyd-destunau a diwylliannau y tu allan i Gymru. Yn ogystal â hyn, gyda'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd datblygu 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus o Gymru a'r byd', roedd ymwneud ag Eco-Sgolion yn cael ei weld fel un o'r ffyrdd amlycaf a mwyaf effeithiol o hwyluso ymwybyddiaeth **ryngwladol** o faterion cymdeithasol ac amgylcheddol i leoliad ysgol.

8.33 Roedd y gymhariaeth ryngwladol yn rhoi cipolwg o'r heriau cyffredin wrth weithredu Eco-Sgolion yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill. Roedd y rhwystrau cyffredin hyn yn cynnwys anhawster ennyn diddordeb dysgwyr ysgolion uwchradd; dibyniaeth yn aml ar un aelod ymroddgar o staff ysgol i ysgogi cynnydd mewn ysgol; heriau o gael yr adnoddau ar gyfer y rhaglen o dan y cyllidebau presennol; a'r

gwahaniaethau rhwng ysgolion a'i gilydd yn eu gallu i gyflawni rhai gweithgareddau oherwydd maint, math o sefydliad a lleoliad.

8.34 Canfuwyd hefyd fodelau gweithredu posibl y gellid eu trosglwyddo i Gymru yn y dyfodol. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth ystyried graddfa canlyniadau a gweithgarwch cyffredinol gydag ysgolion uwchradd. Er enghraifft, roedd gwledydd eraill yn ystyried cael dysgwyr ysgolion uwchradd i arwain ar gydgysylltu'r rhaglen ac adrodd arni. Roedd gwledydd eraill yn rhannu anhawster Cymru o ran ymwneud yn effeithiol ag ysgolion uwchradd ac yn cydnabod bod lleoliad a mynediad at lecynnau agored yn effeithio ar ymrwymiad ysgolion i'r rhaglen.

**Argymhelliad**: Ystyried adolygu'r strwythur asesu fel y gall dysgwyr ysgolion uwchradd (fel arweinwyr ifanc) gymryd cyfrifoldeb am gydgysylltu'r rhaglen ac adrodd ar gynnydd o fewn eu hysgolion. Gallai hyn leihau'r canfyddiad o'r baich trymach sy'n gysylltiedig â'r rhaglen y tu hwnt i Gyfnod Allweddol 3.

**Argymhelliad**: Yn wyneb yr heriau cyffredin a wynebir wrth gynnal cysylltiadau ag ysgolion uwchradd – gallai system raddedig o gymorth helpu sicrhau chwarae teg a chyrraedd ysgolion sydd dan anfantais. Gellid cyflwyno strategaeth gymorth, ar sail nodweddion a meini prawf ysgolion, er mwyn sicrhau bod ysgolion o dan anfantais yn derbyn graddau uwch o gyfathrebu penodol – er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd rhan.

8.35 Yn ogystal, wrth ystyried sut y gellir defnyddio'r rhaglen i ymwreiddio blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, mae cyfle i adeiladu ar lwyddiant cynllun peilot economi gylchol yr FEE i hyrwyddo gweithgarwch cylchol ymhellach mewn ysgolion yng Nghymru. Yn 2021/22, cyflawnodd Cadwch Gymru'n Daclus waith ar ddatblygu adnoddau penodol ac iddynt y nod o hyrwyddo dealltwriaeth myfyrwyr o'r economi gylchol, ac mae cyfle i gryfhau'r cysylltiadau hyn â pholisi Llywodraeth Cymru trwy fynd ati'n fwriadol i chwilio am bartneriaid posibl a gweithgareddau ehangach yn y maes hwn.

**Argymhelliad**: Ystyried chwilio am gyfleoedd i gryfhau cysylltiadau â pholisi economi gylchol Llywodraeth Cymru trwy fynd ati'n fwriadol i chwilio am bartneriaid posibl a gweithgareddau ehangach yn y maes hwn, i'w gyflwyno fel maes o ddiddordeb i ysgolion ledled Cymru. Gallai hyn gynnwys cyd-drafod â phartneriaid sector preifat i helpu cael adnoddau newydd o dan y gwaith hwn.

8.36 Yn olaf, roedd y gymhariaeth ryngwladol yn codi'r cwestiwn a fyddai'n ddefnyddiol ystyried gwahodd ffrydiau ariannol gan fusnesau preifat i gefnogi'r rhaglen yng Nghymru, megis corfforaethau ardystiedig B-Corp neu aelodau o ymgyrchoedd amgylcheddol megis Climate Cymru, a allai fod â diddordeb mewn cefnogi'r rhaglen yn ariannol.

**Argymhelliad**: Ystyried dewisiadau ar gyfer sicrhau cyllid ychwanegol trwy gydweithio â phartneriaid sector preifat sydd â budd mewn cefnogi'r rhaglen yn ariannol.

**Canlyniadau ac effeithiau**

8.37 Roedd adborth a dderbyniwyd gan ysgolion yn dangos bod y rhaglen wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r mwyafrif o ysgolion sydd wedi cymryd rhan. Mae Eco-Sgolion wedi rhoi canllawiau, syniadau a map trywydd i ysgolion ar sut i weithredu rhaglen addysgol am yr amgylchedd. Yn ei dro, mae hyn wedi rhoi mwy o amlygrwydd i'r amgylchedd ym mlaenoriaethau'r ysgol a'r ethos a'r nodau sy'n sail i'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd ysgolion hefyd yn gallu rhannu'r arferion gorau gydag ysgolion eraill drwy'r rhaglen, ond gellid ymestyn y cyfleoedd hyn ac roedd awydd i wneud hyn.

8.38 Mae tystiolaeth o'r adolygiad yn dangos buddion sylweddol i ddysgwyr, gyda'r rhaglen yn ymddangos fel pe bai'n cyflawni'n unol â'r canlyniadau a fwriadwyd o ran ysbrydoli a grymuso dysgwyr, ennyn eu diddordeb mewn dysgu am yr amgylchedd, darparu sgiliau newydd ar sut i fynd i'r afael â materion newid hinsawdd. Yn ystod yr adolygiad, roedd y dysgwyr eu hunain yn ysgolion yr astudiaethau achos yn gallu dweud wrth yr ymchwilwyr beth oeddent wedi ei

ddysgu fel rhan o'r rhaglen. Roedd gallu rhannu'r hyn roeddent wedi ei ddysgu gyda'r gymuned ehangach i annog newid ymddygiad cadarnhaol gyda chymheiriaid, cymdogion a rhieni, hefyd yn dod i'r amlwg fel thema gref, ar draws amrywiaeth helaeth o bynciau amgylcheddol.

8.39 Ymddengys hefyd fod cyfraniad wedi ei wneud tuag at y canlyniadau a'r effeithiau a fwriadwyd sy'n ymwneud â gwella'r amgylchedd lleol o ganlyniad i Eco-Sgolion trwy weithgareddau fel codi sbwriel a phlannu coed a thyfu bwyd lleol.

8.40 Mae rhai canlyniadau wedi dod i'r amlwg o'r rhaglen sy'n ymwneud â chynnwys rhieni a'r gymuned ehangach a dylanwadu arnynt. Roedd Cydlynwyr Eco a gyfwelwyd ac ymatebwyr i'r arolwg yn nodi amrywiaeth o fuddion a chanlyniadau i'r gymuned ehangach, gan gynnwys gweithio gyda thyfwyr lleol a ymweld o bryd i'w gilydd â gerddi cymunedol, ysbrydoli aelodau o'r gymuned leol i gychwyn clwb garddio a datblygu "ceyrydd bwyd" lleol. Cafodd y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda rhieni a gofalwyr yn ystod y pandemig eu pwysleisio hefyd, gyda gweithgareddau cysylltiedig ag Eco-Sgolion yn cynnwys y teulu cyfan. Er i rai enghreifftiau gael eu rhannu, dangosodd yr arolwg fod rhai ysgolion nad oeddent yn teimlo eu bod wedi cynnwys rhieni a'r gymuned ehangach yn llwyddiannus mewn sgyrsiau ynghylch Newid Hinsawdd.

**Argymhelliad**: Argymhellir rhoi pwyslais ychwanegol ar rannu'r arferion gorau a gwersi a ddysgwyd ynghylch ffyrdd o ymwneud â chymuned ehangach yr ysgol, a bod cyngor ychwanegol yn cael ei roi i ysgolion i annog ymrywmiad ehangach mwy llwyddiannus. Dylid adnabod y rhwystrau sy'n wynebu ysgolion rhag ymwneud â chymuned ehangach yr ysgol, gyda chamau a gymerir i fynd i'r afael â hyn yn cael eu rhannu fel yr arferion gorau.

8.41 Mae Eco-Sgolion yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu am yr amgylchedd, gan feithrin diddordeb y gall sefydliadau eraill ychwanegu eto, neu adeiladu arno. Roedd y rhain yn cynnwys y

Rhaglen Ysgolion Iach, Plantlife, Maint Cymru a Dŵr Cymru. Barnwyd mai un o effeithiau allweddol y rhaglen oedd y prif bartneriaethau gydag Eco-Sgolion a Cadwch Gymru'n Daclus yn ogystal â phartneriaethau unigol a gafwyd gyda rhanddeiliaid yr ysgol. Roedd hyn yn cael ei weld trwy'r cyd-ymdrechion a gyflawnwyd a'r partneriaethau buddiol i'r ddwy ochr a ffurfiwyd.

8.42 Oherwydd natur Eco-Sgolion, roedd llawer o'i effeithiau yn anodd eu mesur a'u hasesu. Roedd tystiolaeth o'r adolygiad hwn yn rhoi arwydd fodd bynnag fod y rhaglen wedi cyfrannu at y canlyniadau a gyflawnwyd trwy annog graddfa'r gweithgareddau y cymerodd yr ysgolion ran ynddynt yn hytrach na'r gweithgareddau eu hunain. O ran gweithgarwch yn y dyfodol i werthuso effaith, gallai rhai dewisiadau gynnwys tîm Eco-Sgolion yn arolygu dysgwyr ar ysbeidiau cyfnodol neu'n archwilio'r posibilrwydd o ddychwelyd at ddysgwyr a samplwyd ar ôl cymryd rhan yn y rhaglen er mwyn penderfynu ar yr ychwanegedd neu'r gwahaniaeth a gyflawnwyd. Gallai athrawon mewn sampl dethol o ysgolion, neu Cydlynwyr Eco, gymryd rhan yn yr ymarferiad hwn trwy gynnal holiaduron cyfnodol gyda'u dysgwyr i benderfynu ar y cynnydd a wnaed ar sail amrywiol ffactorau. Byddai rhaglen gyfyngedig o fonitro fel hyn yn rhoi data mwy cadarn i Eco-Sgolion ar ei effeithiau. Gall yr dull hwn hefyd gynnwys cyfuniad o fesurau ansoddol a meintiol, i ddal canlyniadau "meddalach" y gellid fel arall eu golli yn asesiadau Baner Werdd Eco-Sgolion, ac y gallai ysgolion ddymuno adrodd arnynt.

**Argymhelliad**: Dylai Eco-Sgolion ystyried cyflawni adolygiad penodol o weithgareddau amgylcheddol ysgol wrth ymuno â'r rhaglen, i helpu creu gwell darlun o'r ychwanegedd mae Eco-Sgolion yn ei gyflawni yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan ynddo. Byddai data o'r fath yn galluogi datblygu gwell darlun o effaith y rhaglen ar raddfa'r gweithgareddau a gyflawnir o fewn ysgol o ganlyniad i gymryd rhan gydag Eco-Sgolion. Byddai monitro'r data hwn a gwneud cymariaethau â'r llinell sylfaen hon yn helpu Eco-Sgolion i adolygu ei effaith.

**Atodiad A – Meini Prawf Efydd, Arian a Baner Werdd Eco-Sgolion**

| Y Saith Cam | Efydd | Arian (Meini prawf Efydd, yn ogystal â'r isod) | Baner Werdd (Meini prawf Efydd, Arian, yn ogystal â'r isod) |
|---|---|---|---|
| Eco-Bwyllgor | • Mae gennym bwyllgor i gynrychioli holl ddisgyblion ac oedolion yn ein hysgol. Gallai hyn fod is-grwp o'r cyngor ysgol neu yn syml eich cyngor ysgol. | • Mae'r grwp yn cyfathrebu gyda gweddill yr ysgol ac yn casglu eu syniadau.<br>• Rydym yn cadw cofnod o'r hyn yr ydym yn trafod. | • Mae'r aelodau yn cyfarfod yn rheolaidd (unwaith bob hanner tymor neu fwy yn aml) |
| Adolygiad Amgylcheddol | • Yr ydym wedi o gwmpas yr ysgol i weld beth y gellid eu gwella er mwyn ein gwneud yn fwy eco-gyfeillgar.<br>• Efallai y byddwn wedi defnyddio'r Ddogfen Adolygiad Amgylcheddol Eco-Sgolion. | • Erbyn hyn mae gennym syniad clir o eco-berfformiad ein ysgol ar hyn o bryd. Mae'r ysgol gyfan yn ymwybodol o feysydd lle yr ydym yn perfformio'n dda, a meysydd lle y gallwn wneud gwelliannau. | • Mae'r naw thema Eco-Sgolion wedi cael eu hadolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf.<br>• Rydym wedi cynhyrchu crynodeb o brif ganfyddiadau ein hadolygiad. |
| Cynllun Gweithredu | • Rydym wedi trafod sut y bydd rhai o'r syniadau a godwyd gan ein hadolygiad yn cael eu cyflawni.<br>• Rydym wedi penderfynu ar amserlen a phwy fydd yn gyfrifol am y camau gweithredu. | • Rydym wedi llunio cynllun gweithredu sy'n amlinellu yn glir yr hyn rydym yn bwriadu gwella, a manylion am sut y cyflawnir hyn, gan gynnwys yr amserlen a phwy sy'n gyfrifol.<br>• Mae'r cynllun gweithredu yn briodol ar gyfer oed a gallu'r disgyblion. | • Mae'r Pennaeth yn cefnogi ein Cynllun Gweithredu.<br>• Mae mewn fformat y gallai unrhyw un o'r staff ei ddeall a'i ddefnyddioi os oes angen. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Monitro a Gwerthuso | • Rydym wedi trafod pa mor eco-gyfeillgar yr ydym ar hyn o bryd a sut y byddwn yn medru monitro gwelliant. | • Rydym wedi dechrau cofnodi pa effaith y mae ein targedau cynllun gweithredu yn eu cael. Efallai y byddwn yn cymryd darlleniadau mesurydd, cofnodi pa mor dda yr ydym yn ailgylchu, neu arolwg barn pobl os yw'r effaith yn anodd i'w fesur. | • Mae'r ysgol wedi trafod cynnydd y camau gweithredu, naill ai fel Pwyllgor neu fel ysgol gyfan.<br>• Mae peth o'r gwaith monitro wedi'i gynnal fel rhan o'r gwaith cwricwlwm.<br>• Mae targedau o leiaf dri maes pwnc wedi'u gweithredu a'u gwerthuso yn ystod ein taith eco hyd yma. |
| Eco-Gôd | • Rydym wedi trafod sut y byddwn yn datblygu Eco-Gôd ar gyfer ein hysgol. Bydd yr Eco-Côd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'n targedau. | • Rydym wedi creu Eco-Gôd sy'n cynrychioli hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni fel Eco- Ysgol.<br>• Mae'r ysgol gyfan yn ymwybodol ohono. | • Mae'r Eco-Gôd yn gyfredol ac wedi cael ei ddiweddaru, neu o leiaf adolygu, o fewn y flwyddyn ddiwethaf. |
| Hysbysu a Chynnwys | • Rydym yn hysbysu'r ysgol gyfan am yr hyn yr ydym wedi bod yn eu trafod (e.e. gwasanaethau, hysbysfwrdd). | • Mae cyfle i bob disgybl i awgrymu eu syniadau. | • Mae'r ysgol gyfan yn cymryd rhan rywsut (e.e. diwrnod gweithredu ysgol gyfan) ac yn ymwybodol o'n cynllun gweithredu a sut mae'n dod yn ei flaen. Rydym yn dathlu cyflawniadau.<br>• Mae cymuned ehangach yr ysgol hefyd yn ymwybodol o'n gweithgaredd (e.e. newyddlen, gwefan). |
| Cysylltu â'r Cwricwlwm | • Mae ein hathrawon wedi trafod sut y byddant yn cynnwys broses hon yn ein gwaith dosbarth. | • Mae agweddau ar y broses Eco-Sgolion yn cael eu cynnal fel rhan o waith y dosbarth. | • Mae agweddau o'r broses Eco-Sgolion yn cael eu cynnal fel rhan o waith cwricwlwm mewn mwy nag un dosbarth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ydy holl feini prawf Efydd yn digwydd?** Mewngofnodwch i'ch cyfrif Eco-Sgolion i hawlio eich gwobr Efydd a lawrlwytho eich tystysgrif. | **Ydy holl feini prawf Efydd ag Arian yn eu lle?** Mewngofnodwch i i'ch cyfrif Eco-Sgolion i hawlio eich gwobr Arian a lawrlwytho eich tystysgrif. | **Ydy'r holl feini prawf yn eu lle?** Mae'n amser i wneud cais am eich Baner Werdd drwy fewngofnodi i'ch cyfrif Eco- Sgolion. |

Ffynhonnell: Cadwch Gymru'n Daclus

## Atodiad B – Meini Prawf Dyfarniad Platinwm Eco-Sgolion

### Meini Prawf Ysgol Blatinwm

Mae Eco-Ysgol Blatinwm yn un sydd wedi bod yn ymwneud yn barhaus â'r rhaglen am naw mlynedd, neu am y cyfnod a gymerodd i gyrraedd y pedwerydd faner. Erbyn hynny dylai'r broses Eco-Sgolion fod wedi ei gwreiddio ym mywyd yr ysgol a'r meini prawf ar gyfer y Faner Werdd wedi eu cyrraedd heb eithriadau nac argymhellion. Yn ystod eich asesiad hoffem weld gwerthusiad cyffredinol o'ch cyflawniad yn yr naw maes wedi eu cyflwyno gan y disgyblion.

Yn ogystal â chwrdd â'r gofynion ar gyfer baner werdd, dylai ysgol blatinwm gwrdd â'r meini prawf hanfodol isod ynghyd ag o leiaf hanner y meini prawf dymunol.

| | **Meini Prawf Hanfodol ar gyfer Eco-Ysgol Blatinwm** | |
|---|---|---|
| **1** | Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth/ffigurau i ddangos pa welliannau rydych wedi eu cyflawni ym mhob un o'r **naw maes pwnc** drwy gydol eich taith Eco-Sgolion hyd yn hyn. Dylai hyn gael ei ddefnyddio i ddathlu yr hyn rydych wedi'i gyflawni fel ysgol gyfan. Gallwch ei gyflwyno ar ffurf arddangosfa, cyflwyniad, fideo neu wasanaeth | |
| **2** | Dylai'r ysgol fod yn cynnal prosiectau'n gyson yn y gymuned ehangach i ledaenu neges Eco-Sgolion (o leiaf unwaith y flwyddyn) | |
| **3** | Mae Eco-Sgolion ar agenda'r cyfarfodydd staff/cwricwlwm o leiaf unwaith y tymor | |
| **4** | Mae Eco-Sgolion a materion perthnasol a drafodir yn themâu rheolaidd yn y gwasanaeth boreol | |
| | **Meini Prawf Dymunol ar gyfer Eco-Ysgol Blatinwm (ticiwch o leiaf 7)** | |
| **1** | Mae astudiaeth achos byr ar gael o welliannau ym mhob un o'r meysydd pwnc dros y cyfnod a gymerir i ennill y 4 baner | |
| **2** | Dylai nifer dda o oedolion fod ar y pwyllgor yn ogystal â disgyblion | |
| **3** | Dylai HMS Eco-Ysgol ysgol gyfan fod wedi ei gynnal ar gyfer y staff presennol | |
| **4** | Mae pob dosbarth yn yr ysgol yn cymryd rhan mewn rhyw elfen o'r broses Eco-Sgolion | |
| **5** | Mae gan yr ysgol gyfan fewnbwn i'r broses o gynnal adolygiad amgylcheddol | |
| **6** | Mae gan y rhieni a'r gymuned ehangach hefyd fewnbwn i'r broses adolygu a chynllunio gweithredu | |
| **7** | Cyflawnir y mwyafrif o dargedau'r cynllun gweithredu, a'u monitro, drwy waith dosbarth | |
| **8** | Disgyblion sydd yn cymryd y brif ran mewn arwain y cyfarfodydd (ac eithrio ysgolion Babanod a Meithrin) | |
| **9** | Mae negeseuon cyson yn cael eu cyflwyno/mae negeseuon cymysg yn cael eu hosgoi mewn perthynas â materion ADCDF (e.e. osgoi bwyd cyflym fel gwobr am ymddygiad da, neu sicrhau y defnyddir compost di-fawn i arddio) | |
| **10** | Mae'r corff llywodraethu'n derbyn gwybodaeth lawn am bob elfen o'r rhaglen ac yn cael eu cynnwys yn y rhaglen / Dylai Llywodraethwr sydd yn cymryd rhan amlwg fod ar y pwyllgor | |
| **11** | Mae'r ysgol wedi cyflwyno arferion da i sefydliadau a busnesau yn y gymuned leol | |
| **12** | Mae gan ddisgyblion gyfrifoldeb am gadw cofnodion, cofnodi a dadansoddi data ac adborth i'r ysgol gyfan | |
| **13** | Mae'r ysgol wedi cynnal ymarfer mesur Ôl-troed Carbon ac wedi dangos gwelliant dros y blynyddoedd | |

| | | |
|---|---|---|
| **14** | Mae clwb allgyrsiol ar gael i'r disgyblion nad ydynt ar yr Eco-Bwyllgor er mwyn iddynt fedru cymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol | |

Ffynhonnell: Cadwch Gymru'n Daclus

**Atodiad C – Privacy Notice, scoping interviews**

# Adolygiad o Raglen Addysg Eco-Sgolion – Cyfweliadau Cwmpasu

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Miller Research i gynnal adolygiad o'r Rhaglen Addysg Eco-Sgolion. Nod yr adolygiad hwn yw deall sut mae'r Rhaglen Eco-Sgolion yn cael ei darparu, ei heffaith, a sut mae'n cefnogi polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'r adolygiad hwn, bydd Miller Research yn casglu gwybodaeth drwy gyfweliadau cwmpasu gyda Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus a phartneriaid y cynllun.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Fodd bynnag, bydd Miller Research yn dileu unrhyw ddata personol a ddarparwyd drwy'r cyfweliadau ac yn gwneud y trawsgrifiadau'n ddienw cyn iddo gael ei rannu â Llywodraeth Cymru.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Megan Byrne yw'r cyswllt ar gyfer yr ymchwil hwn yn Miller Research.

Cyfeiriad e-bost: megan@miller-research.co.uk

Rhif ffôn: 01873 851884

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

## Pa ddata personol sydd gennym a ble rydym yn cael y wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR) fel ‘unrhyw wybodaeth sy’n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddynodwr’.

Mae gan Miller Research eich manylion cyswllt am un o'r rhesymau canlynol:

- Os ydych yn aelod o staff yn Cadwch Gymru'n Daclus (CGD) yna mae eich manylion cyswllt (enw a chyfeiriad e-bost) yn cael eu cadw gan Lywodraeth Cymru oherwydd eich ymwneud â chyflwyno'r rhaglen.
- Os ydych yn bartner yn y rhaglen, yna mae CGD yn cadw eich manylion cyswllt oherwydd eich rhan yn y rhaglen a gofynnodd a ydych yn fodlon i'ch enw a'ch cyfeiriad e-bost gael eu trosglwyddo i Miller Research er mwyn iddynt gysylltu â chi i drefnu cyfweliad. Dim ond pan fyddwch wedi cytuno i hyn y caiff eich manylion eu trosglwyddo i Miller Research.

Dim ond at ddibenion y prosiect ymchwil hwn y bydd Miller Research yn defnyddio eich data personol.

Mae eich cyfranogiad yn wirfoddol ac os nad ydych yn dymuno cymryd rhan mwyach neu dderbyn nodiadau atgoffa yna atebwch yr e-bost gwahoddiad ac ni fyddwn yn cysylltu â chi ar gyfer yr ymchwil hwn mwyach.

Nid oes unrhyw ofyniad i ddarparu unrhyw ddata personol ychwanegol yn ystod cyfweliadau heblaw eich delwedd os ydych yn cytuno i recordiad fideo o'r cyfweliad. Cynhelir cyfweliadau trwy Microsoft Teams. Dymunwn recordio cyfweliadau am resymau gweithredol. Byddwn yn gwneud hyn yn glir i chi cyn y cyfweliad, a chewch gyfle i ddweud wrthym os nad ydych yn fodlon i’r drafodaeth gael ei recordio. Os caiff y cyfweliad ei recordio, bydd data personol yn cael ei ddileu yn ystod y broses o drawsgrifio. Bydd recordiadau'n cael eu dileu cyn gynted ag y bydd y broses hon wedi'i chwblhau. Os na chaiff trafodaethau eu cofnodi, ni fydd data personol yn cael ei gynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir yn ystod neu ar ôl y cyfweliadau. Y cyfnod cadw ar gyfer unrhyw sylwadau a wneir o fewn y bar sgwrsio fydd 7 diwrnod. Felly, bydd unrhyw ymatebion a ddarperir trwy'r swyddogaeth bar sgwrsio yn cael eu dileu 7 diwrnod ar ôl y cyfweliad a byddant yn cael eu cynnwys mewn unrhyw nodiadau ysgrifenedig mewn fformat dienw gyda manylion personol wedi'u dileu.

Os byddwch yn gwneud ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen at y swyddog

perthnasol yn unig ac yna'n ei ddileu o ddata'r ymchwil.

### Beth yw'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio'ch data?

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

